


Y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol ar gyfer Aelwydydd y DU yn 2025:

Adroddiad llawn



**Katherine Hill, Chloe Blackwell, Eleanor Balchin,
Emma Stone, Simeon Yates**

Mehefin 2025

ISBN: 978-1-7385736-2-2

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws am roi o'u hamser a rhannu eu safbwyntiau gyda ni. Rydym yn ddiolchgar i aelodau Grŵp Cyngori'r Prosiect sydd wedi bod yn arbenigwyr ac yn gyfeillion beirniadol ar gyfer y gwaith. Hoffem ddiolch i Sefydliad Nuffield am ariannu'r gwaith ymchwil, yn enwedig Catherine Dennison am ei chefnogaeth a'i mewnbwn i'r prosiect a'r adroddiad.

Ariannwyd y prosiect hwn gan Sefydliad Nuffield, ond mae'r safbwyntiau a fynegir yn eiddo'r awduron ac nid o reidrwydd y Sefydliad. Éwch i nuffieldfoundation.org.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	5
1	Cyfl
wyniad	12
1.1 Gwaith ymchwil newydd – ystod ehangach o fathau o aelwydydd	
1.2 Y MDLS a pholisi – Cymru, yr Alban a'r DU	
1.3 Pam mae angen y MDLS - crynodeb cyflym	
1.4 Paramedrau'r MDLS	
1.5 Fideo esboniadol	
1.6 Nodyn am ddeallusrwydd artiffisial	
1.7 Strwythur yr adroddiad	
2 Dull	18
2.1 Y dull gweithredu: Adeiladu'r MDLS ar sail methodoleg y MIS	
2.2 Datblygu'r MDLS gyntaf ar gyfer y DU	
2.3 Ymestyn y MDLS i aelwydydd eraill	
2.4 Moeseg	
3 Yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd y DU ar gyfer y MDLS	23
3.1 Nwyddau a Gwasanaethau Digidol	
3.2 Cysylltiad rhynggrwyd – band eang cartref a data symudol	
3.3 Gwybodaeth a Sgiliau Digidol	
3.4 Datblygu gwybodaeth a sgiliau yn ystod plentyndod	
4 Bodloni'r MDLS: beth sy'n gwneud gwahaniaeth	49
4.1 Adnoddau ariannol, profiadau a nwyddau a gwasanaethau digidol	
4.2 Y seilwaith a'r goblygiadau ar gyfer diwallu anghenion cysylltiad	
4.3 Hyder, sgiliau digidol a chymorth	
5 Y MDLS ac amrywiaeth aelwydydd	58
5.1 Aelwydydd heb blant	
5.2 Aelwydydd â phlant	
5.3 Amrywiadau rhwng aelwydydd sengl ac aelwydydd pâr	
5.4 Beth sydd wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?	
5.5 Ardaloedd gwledig	
6 Casgliad	66
6.1 Defnyddio'r MDLS	
7 Cyfeiriadau	71



Crynodeb Gweithredol


Mae'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS) yn feincnod sydd wedi'i ddatblygu gydag aelodau'r cyhoedd ar gyfer yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd i sicrhau cynhwysiant digidol.

Erbyn hyn mae gennym un MDLS, a ddatblygwyd trwy gyfres o grwpiau trafod ac ymgynghori gydag aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn, yn ogystal ag aelwydydd â phlant, mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r MDLS yn seiliedig ar fywydau pobl, ac mae'n gymorth i ni ganolbwyntio ar natur gyfannol cynhwysiant digidol a sut y gallwn gydweithio i gyflawni hyn.

Beth yw'r diffiniad o'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol?

Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys mynediad at y rhwyngwryd, offer digonol, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.

Mae'r MDLS yn safon ofynnol sy'n adlewyrchu normau bob dydd mewn cymdeithas ddigidol. Mae'n cynnwys y nodweddion canlynol:



- **O'r gwaelod i fyny:** mae wedi'i datblygu gan y cyhoedd
- **Cyfannol:** mae'n cwmpasu nwyddau a gwasanaethau, a gwybodaeth a sgiliau
- **Lefel aelwyd:** mae'n wahanol i'r rhan fwyaf o fesurau sy'n canolbwyntio ar unigolion
- **Yn fan cychwyn:** gallai rhai aelwydydd fod ag anghenion ychwanegol
- Mae'n **adlewyrchu'r gymdeithas ddigidol** yn y DU heddiw.

Nid yw'r MDLS ar gyfer y llywodraeth yn unig. Mae cynhwysiant digidol yn gyfrifoldeb ar bawb.

Beth yw 'cynnwys' set graidd y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol?

Mae'r tabl isod yn amlinellu 'cynnwys' craidd y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol sy'n gyffredin ar gyfer pob math o aelwyd. Mae fersiwn fanwl, gan gynnwys anghenion ychwanegol, wedi'i chynnwys ym Mhennod 3.

Nwyddau a gwasanaethau digidol	
Band eang cartref	- Gyda digon o ddibynadwyedd a chyflymder i gefnogi pob aelod o'r aelwyd i gael mynediad at y rhyngrwyd ar yr un pryd - NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref
Ffôn symudol a data symudol	- Un ffôn clyfar lefel mynediad i bob oedolyn, a (HWC) ar gyfer pob plentyn sy'n teithio ac yn cymdeithasu'n annibynnol* 5GB i 15GB o ddata symudol bob mis ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sydd â'u ffôn symudol eu hunain - NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref
Dyfais sgrin fawr	- Un ddyfais sgrin fawr (gliniadur, llechen neu gyfrifiadur personol) ar gyfer pob aelwyd (HWC) Mae rhiant/rhieni a'i/a'u blentyn cyntaf yn rhannu un ddyfais sgrin fawr, gyda dyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oedran ysgol ychwanegol
Teledu a gwylio	- Un teledu (neu ddyfais sgrin fawr y gellir gwylio teledu arni) ar gyfer pob aelwyd - Trwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad ar gyfer pob aelwyd (HWC) trwydded deledu YNGHYD â gwasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad*
Gwybodaeth a sgiliau gweithredol	
Sefydlu (dyfeisiau a chysylltiad)	- Defnyddio swyddogaethau dyfeisiau - Cysylltu â'r rhyngrwyd - Newid gosodiadau ac opsiynau llywio
Gwneud tasgau a gweithgareddau ar-lein	- Chwilio'r rhyngrwyd - Defnyddio apiau a rhaglenni - Llenwi ffurflenni ar-lein - Anfon a derbyn negeseuon e-bost - Gwneud taliadau ar-lein
Rheoli a chynnal a chadw (dyfeisiau a'r cysylltiad)	- Monitro a chynnal lle storio ar ddyfeisiau - Rheoli a monitro data symudol
Gwybodaeth a sgiliau beirniadol	
Rheoli swyddogaethau diogelwch	- Defnyddio cyfrineiriau diogel - Gwerthuso diogelwch y cysylltiad - Gwneud taliadau diogel
Gwerthuso gwybodaeth a welir ar-lein	- Adnabod ac osgoi sgamiau - Asesu ansawdd a hygredded gwybodaeth - Addasu, atal a riportio cyfrifon a chynnwys
Gwerthuso beth i'w rannu ar-lein	- Diogelu gwybodaeth bersonol - Asesu hunaniaethau ar-lein a cheisiadau ffrind - Ystyried ôl troed digidol



Meddwl am lesiant digidol

- Rheoli amser a dreulir ar-lein
- Rheoli disgwyliadau a phwysau cymdeithasol
- Ymarfer empathi ar-lein



Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng mathau o aelwydydd?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno safbwyntiau a phrofiadau aelodau'r cyhoedd - eu rhesymau dros benderfynu'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd i 'gysylltu, cyfathrebu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus'.

Mynegwyd safbwyntiau tebyg yn ymwneud ag anghenion craidd y MDLS, ond nodwyd amrywiadau hefyd, megis:

- Aelwydydd â phlant sydd â'r anghenion mwyaf yn gyffredinol, ar gyfer sgiliau, ac ar gyfer dyfeisiau a chysylltedd (sydd hefyd wedi'u llywio gan faint yr aelwyd).
- Roedd grwpiau oedran pensiwn yn teimlo bod ffonau clyfar yn hanfodol pan fyddant yn mynd a dod; roedd grwpiau oedran gweithio yn teimlo mai hon yw'r ddyfais hanfodol yn y cartref a'r tu allan i'r cartref.
- Nododd grwpiau oedran pensiwn fod angen opsiwn llinell dir mewn ardaloedd â darpariaeth signal symudol wael, yn enwedig os oes perygl o doriadau pŵer. Mynegwyd pryder a dryswch ynglŷn â'r newid o linellau ffôn i wasanaeth digidol.
- Roedd y gallu i newid gosodiadau (e.e. maint y ffont) yn fwyaf amlwg ymysg grwpiau oedran pensiwn, ond roedd yn bwysig i bob grŵp hefyd.
- Nodwyd yr angen i ddefnyddio rheolaethau rhieni ar aelwydydd â phlant.
- Roedd mynediad at gemau ar-lein yn bwysig ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol a chyfeillgarwch plant. Efallai nad oes angen offer ychwanegol, ond gall arwain at fwy o alw ar ddyfeisiau ac ar y cysylltiad, a'r angen am sgiliau fel gwerthuso ceisiadau i fod yn ffrind.
- Nododd pobl ifanc bedwar cam ar gyfer defnydd digidol dros amser sy'n llywio eu hanghenion am sgiliau: mynediad at ddyfeisiau; chwarae gemau aml-chwaraewr ar-lein; cael y ffôn symudol cyntaf; a defnyddio'r ffôn yn y dyfodol wrth fynd trwy'r ysgol, gwneud gwaith cartref ar-lein, cymdeithasu ar-lein, a theithio'n annibynnol.

Beth sy'n llywio gallu aelwyd i fodloni'r MDLS?

Bydd gallu aelwydydd i ddiwallu anghenion y MDLS yn amrywio'n fawr, gan ddibynnu ar amgylchiadau ariannol, seilwaith lleol, a mynediad at gymorth. Bydd amgylchiadau eraill (megis anabledd neu gyflyrau iechyd, y sefyllfa tai) hefyd yn dylanwadu ar anghenion yr aelwyd, a'u gallu i ddiwallu anghenion.

Mewn arolwg wyneb yn wyneb yn y DU o 1,582 o aelwydydd â phlant, nodwyd bod mwy na 4 o bob 10 (45%) o dan feincnod y MDLS (MDLS 2024). Roedd cydberthynas rhwng y ffaith hon â ffactorau sydd â chysylltiad agos â thlodi plant, megis incwm isel; bod yn rhiant unigol a/neu'n aelwyd fwy o ran maint; byw mewn ardal o amddifadedd.

I ba raddau y mae'r MDLS wedi'i diogelu at y dyfodol?

Mae'r MDLS yn adlewyrchu bywyd bob dydd a chymdeithas ein hoes. O ystyried cyflymder y newid technolegol, byddai'n ddefnyddiol diweddarau'r MDLS yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn aros yn berthnasol ac yn adlewyrchu newidiadau technolegol sy'n effeithio ar fywydau a gwasanaethau bob dydd.

Beth ddywedodd grwpiau'r MDLS am y canlynol...

Fforddiadwyedd?

Roedd pob un o grwpiau'r MDLS wedi mynegi pryderon am fforddiadwyedd, gwerth am arian, a chostau. Mae bodloni anghenion y MDLS yn fwy na chost untro - mae'n ymrwymiad ariannol parhaus - er enghraifft, yr angen i sicrhau bod dyfeisiau'r aelwyd yn gweithio, yn ddiogel ac yn gydnaws â meddalwedd a ddefnyddir mewn gwasanaethau ar-lein. Mae aelwydydd â phlant yn wynebu costau uwch wrth i blant dyfu'n hŷn a'u bod angen eu ffonau a'u cynlluniau data eu hunain.

Seilwaith?

Roedd problemau gyda darpariaeth band eang a chysylltiadau data symudol yn themâu allweddol ymysg grwpiau gwledig y MDLS, ac ymysg rhai grwpiau trefol y MDLS. Roedd gan y problemau hyn oblygiadau ar gyfer y gallu i fodloni gofynion y MDLS, y cydbwysedd rhwng darpariaeth symudol a band eang (gan ddibynnu mwy ar un os nad oedd y llall yn ddigonol), a chostau. Hefyd, cyfeiriodd aelodau o grwpiau gwledig at ddewis cyfyngedig a'r angen i dalu mwy am atebion i oresgyn problemau (megis lloeren).

Diogelwch?

Roedd llesiant a diogelwch digidol aelwydydd yn themâu pwysig ar gyfer pobl o bob oedran. Roedd profiadau yn amrywio (e.e. defnyddio bancio ar-lein, Wi-Fi cyhoeddus) ond cytunwyd bod angen i bawb fod yn ymwybodol o ddiogelwch dyfeisiau a'r rhyngwrdd, a'r defnydd o wybodaeth i ledaenu gwybodaeth ffug neu gynorthwyo sgamiau. Mae newidiadau cyflym, megis twf deallusrwydd artifisial, yn golygu bod hon yn broses barhaus.

Hyder?

Roedd llawer o grwpiau'r MDLS wedi nodi bod hyder yn fater pwysig mewn perthynas â sgiliau. Roedden nhw'n teimlo bod angen rhywfaint o hunanhyder ar bobl er mwyn gallu gwneud tasgau ar-lein ac unioni camgymeriadau (dull 'cynnig a methu'). Hefyd, bu aelodau'r grwpiau yn trafod yr heriau o ddeall y dechnoleg ddiweddaraf, a'r ffaith fod newid cyson yn arwain at ofn neu bwysau.

Dysgu sgiliau?

Roedd aelodau grwpiau'r MDLS yn teimlo mai'r prif ddulliau o ennill sgiliau a hyder oedd: dysgu'n annibynnol, derbyn help gan ffrindiau a theulu, trwy'r gwaith neu'r ysgol. Er bod parau yn gallu cefnogi ei gilydd, teimlent fod angen datblygu sgiliau pob unigolyn, yn enwedig at ddibenion diogelwch ac i amddiffyn eu hunain ar-lein 'yn y fan a'r lle'. Nodwyd bod sefydliadau dibynadwy (fel cynghorau, llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol) yn ffynonellau cymorth pwysig. Bu aelodau'r grwpiau yn trafod diffyg cysondeb o ran ansawdd, argaeledd ac ariannu cymorth ffurfiol, a'r ffaith fod y cymorth ar gyfer oedolion oedran gweithio yn fwy cyfyngedig na'r hyn sydd ar gael i grwpiau eraill.

Goblygiadau ar gyfer llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau

Mae cynhwysiant digidol yn gyfrifoldeb a rennir. Mae'r MDLS yn galluogi llunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd i gael ymdeimlad o gynhwysiant digidol. Gellir defnyddio hyn i lywio polisiâu, darpariaeth a gwaith partneriaeth ym maes cynhwysiant digidol. Gan ddatblygu sut mae'r MDLS wedi'i defnyddio eisoes, rydym yn nodi rhai awgrymiadau isod.

Cyfleoedd i unrhyw sefydliad

- Mae sefydliadau yn gallu defnyddio'r MDLS i gefnogi dulliau o weithio mewn partneriaeth ar sail cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd i gael ymdeimlad o gynhwysiant digidol; ac ystyried pa aelwydydd (sy'n defnyddio eu gwasanaethau neu sydd yn eu hardal) a allai fod o dan drothwy'r MDLS, a beth y gallant ei wneud i'w cefnogi.

Cyfleoedd i Lywodraeth y DU

Gall gwaith ymchwil MDLS 2025 lywio camau gweithredu yn y dyfodol, gan ddilyn Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol: Camau Cyntaf Llywodraeth y DU, y Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar gyfer Cynhwysiant Digidol, a'r Pwyllgor Gweithredu Cynhwysiant Digidol newydd. Mae'r awgrymiadau (sy'n adlewyrchu'r pedwar maes ffocws a nodwyd gan Lywodraeth y DU) yn cynnwys:

- 'Creu cyfleoedd drwy sgiliau': Gall yr Adran Addysg ddefnyddio'r MDLS i ddiweddarw'r fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol ar gyfer oedolion er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd am yr hyn sydd ei angen ar gyfer ymdeimlad o gynhwysiant digidol.
- 'Mynd i'r afael â thlodi data a dyfeisiau': Gall yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ddefnyddio'r MDLS i lywio a gwella cyfraniad y llywodraeth at leihau rhwystrau fforddiadwyedd. Dylai hyn ystyried data band eang a data symudol.
- 'Chwalu rhwystrau i wasanaethau digidol': Gall Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth (DSIT), yr Adran Gwaith a Phensiynau, CThEF, y Swyddfa Gartref, ac eraill ddefnyddio'r MDLS i lywio ac arwain ymchwil ymhlith defnyddwyr a'r broses o gynllunio gwasanaethau ar-lein y llywodraeth gan ganolbwyntio ar y defnyddiwr.
- 'Meithrin hyder a chynorthwyo prosesau cyflenwi lleol': Gall yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg hyrwyddo ymagwedd gyfannol at anghenion aelwydydd trwy gyllid a fframweithiau gwerthuso yn y dyfodol, a hyrwyddo cyllid ar gyfer cymorth lleol i ddatblygu sgiliau a hyder digidol.

Cyfleoedd i lywodraethau'r gwledydd datganoledig

- Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio MDLS Cymru i lywio polisi ar gynhwysiant digidol a chynlluniau peilot ar gyfer tai cymdeithasol. Mae ganddi gyfle i hyrwyddo'r defnydd o MDLS Cymru mewn cyllid grant arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer dulliau gweithredu lleol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant digidol.
- Mae gan Lywodraeth yr Alban gyfle i ddefnyddio gwaith ymchwil MDLS yr Alban a chanfyddiadau arolwg 2024 y DU i godi ymwybyddiaeth o gysylltiadau â thlodi plant.
- Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyfle i fanteisio ar wybodaeth a gafwyd ar lefelau datganoledig a'r DU er mwyn llywio strategaethau a chynlluniau.

Cyfleoedd ar gyfer llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol

- Gall awdurdodau lleol a chyfunol ddefnyddio'r MDLS i sbarduno ymgysylltiad â thimau polisi a chyflawni ar draws ac oddi mewn i gynghorau, megis sgiliau a swyddi, trechu tlodi, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a diwygio gwasanaethau cynghorau.
- Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r MDLS i lywio'r defnydd lleol o gyllidebau datganoledig, megis cronfeydd sgiliau oedolion, a chymorth argyfwng yn ôl disgrisiwn ar gyfer aelwydydd, mewn ffyrdd sy'n galluogi aelwydydd sydd o dan drothwy'r MDLS i feithrin sgiliau a chadw cysylltiad.

Cyfleoedd ar gyfer y rheoleiddiwr a'r diwydiant telathrebu

- Gall Ofcom, Panel Defnyddwyr Cyfathrebu Ofcom, a'r diwydiant telathrebu ddefnyddio'r MDLS i lywio a gwella dulliau o sicrhau mynediad 'hanfodol', 'digonol', 'fforddiadwy' a 'hygyrch' at y rhyngwrwyd; er enghraifft, tariffau cymdeithasol.
- Gall Ofcom ddefnyddio'r MDLS i lywio ei waith parhaus ynghylch diogelwch ar-lein a llythrennedd



yn y cyfryngau digidol, gan weithio gydag eraill i ddatblygu fframwaith cydlynol ar gyfer sgiliau a gwybodaeth ddigidol, gan gynnwys sgiliau meddwl yn feirniadol.

Cyfleoedd ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau

Mae'r MDLS yn berthnasol i unrhyw ddarparwr gwasanaeth statudol, gwirfoddol neu fasnachol sy'n cynnig gwasanaethau ar-lein, lle mae'n bosibl y bydd cwsmeriaid neu gleientiaid yn byw ar aelwydydd sydd o dan drothwy'r MDLS.

- Gall darparwyr gwasanaethau ddefnyddio'r MDLS i asesu a lleihau rhwystrau tebygol sy'n wynebu cwsmeriaid neu gleientiaid ar aelwydydd sydd o dan drothwy'r MDLS. Mae hyn yn cynnwys nodi sut y mae'r rhain yn croestorri â dyletswyddau presennol mewn perthynas â chydaddoldeb, tegwch a'r graddau y mae cwsmeriaid yn agored i niwed; a sut i wella prosesau cynllunio a chymorth i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o waith ymchwil newydd yn ymwneud â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS) sy'n archwilio anghenion digidol aelwydydd y DU er mwyn ateb y cwestiwn:

“Beth yw'r fasgedaid ofynnol o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol sydd eu hangen ar aelwydydd i fyw a chymryd rhan yn y byd digidol?”

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd canlyniadau llawn ein prosiect cychwynnol i ddiffinio Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS) y DU ar gyfer Aelwydydd â Phlant (Yates et al., 2024). Ceisiodd ateb y cwestiwn hwn trwy gynnal asesiad newydd o anghenion digidol aelwydydd, gan ddefnyddio methodoleg y Safon Isafswm Incwm (MIS) (Davis et al., 2024), fel y disgrifir ym Mhennod 2. Yn dilyn dull gweithredu'r MIS, aethom ati i gynnal cyfres helaeth o grwpiau ffocws i ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd er mwyn sefydlu'r MDLS. Man cychwyn y gwaith oedd diffinio'r hyn y dylai'r MDLS ei gynnwys.

Ar sail y diffiniad hwn, nod yr astudiaeth oedd pennu beth mae anghenion digidol yn ei olygu i'r cyhoedd a sut i'w diwallu. Gan fod y prosiect yn astudiaeth 'prawf o gysyniad' i ddechrau, buom yn canolbwyntio'n wreiddiol ar un math o aelwyd - sef aelwydydd â phlant oedran dibynnol, gan sefydlu'r 'fasgedaid ofynnol o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol' sydd eu hangen ar deuluoedd i fodloni'r safon hon. Mae'r manylion llawn ar gael yn <https://mdls.org.uk/>.

Mae gwaith ymchwil y MDLS yn unigryw oherwydd mae'n datblygu meincnod cenedlaethol ar gyfer yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd ar lefel sylfaenol i ymgysylltu â byd digidol a chymryd rhan ynddo. Mae'r meincnod wedi'i sefydlu o'r gwaelod i fyny (wedi'i ddiffinio gan aelodau'r cyhoedd), mae'n gyfannol (mae angen cyfuniad o nwyddau a gwasanaethau digidol, sgiliau ymarferol, a dealltwriaeth feirniadol), ac mae wedi'i osod ar lefel aelwyd (yn wahanol i fesurau presennol o anghydraddoldeb digidol, sy'n canolbwyntio ar unigolion). Mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol ac arloesol at y cysyniad o gynhwysiant digidol yn ogystal â sut y gellir ei fesur.

Diffiniad o'r MDLS

Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys mynediad at y rhyngwrwyd, offer digonol, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.

1.1 Gwaith ymchwil newydd – ystod ehangach o fathau o aelwydydd

Rydym wedi ehangu ein gwaith ymchwil cychwynnol ar aelwydydd â phlant trwy gynnal cyfres arall o grwpiau ffocws er mwyn ymestyn y MDLS i ystod ehangach o fathau o aelwydydd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith ymchwil newydd yn ymwneud â'r MDLS a gynhaliwyd yn 2024/2025 sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Anghenion digidol aelwydydd heb blant sy'n cwmpasu aelwydydd sengl ac aelwydydd cwpl oedran gweithio ac oedran pensiwn.
- Adolygiad o anghenion aelwydydd â phlant er mwyn cofnodi unrhyw newidiadau, o ystyried bod y grwpiau cychwynnol wedi digwydd yn 2022.
- Gwirio'r MDLS ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol.

1.2 Y MDLS a pholisi – Cymru, yr Alban a'r DU

Ers yr astudiaeth gychwynnol, mae'r MDLS wedi ennill ei phlwyf, gyda diddordeb a chefnogaeth barhaus yng nghyd-destunau academiaidd, polisi ac ymarfer. Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth fanwl am anghenion digidol aelwydydd a'r hyn sydd ei angen i'w diwallu, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, yn arwain at fanteision eraill a'r defnydd o'r MDLS i lywio polisi, darpariaeth a gwaith partneriaeth ym maes cynhwysiant digidol. Rydym wedi adrodd ar wahân ar ddefnydd a pherthnasedd y MDLS yng Nghymru a'r Alban, gyda gwaith ymchwil ar gyfer Llywodraeth Cymru (Yates et al., 2023; Harris et al., 2023) a Llywodraeth yr Alban (Blackwell et al., 2025). Fel tîm, rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r llywodraeth a sefydliadau rhanbarthol, cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn archwilio'r MDLS fel dull o lywio'r broses o ddatblygu polisi. Erbyn hyn, mae gan Lywodraeth y DU Gynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol ledled y DU (DSIT, 2025) sy'n dyfynnu'r MDLS ac yn manteisio ar waith ymchwil gan y tîm dros y degawd diwethaf.

Mae'r gwaith ymgysylltu parhaus â'r MDLS, a'r gwaith maes ar gyfer prosiectau Cymru a'r Alban, wedi cynnwys grwpiau ffocws gydag aelodau'r cyhoedd a chyfweliadau manwl â theuluoedd ochr yn ochr ag ymgynghoriadau grŵp a chyfweliadau â rhanddeiliaid (e.e. unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector lleol a chenedlaethol) er mwyn archwilio perthnasedd y safon mewn perthynas â dimensiynau allweddol profiad bywyd a chroestoriadedd, megis anabledd, ethnigrwydd, natur wledig a thlodi.

Mae Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol presennol y DU, ynghyd â strategaethau cynhwysiant digidol Llywodraethau Cymru a Llywodraeth yr Alban, a strategaethau awdurdodau lleol a rhanbarthol, naill ai'n defnyddio'r MDLS yn uniongyrchol neu wedi mabwysiadu dull mwy cyfannol sy'n ymestyn y tu hwnt i fynediad a sgiliau sylfaenol. Hefyd, nodir bod y MDLS yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG) ehangach. Yn ogystal â hyrwyddo cynhwysiant digidol yn y DU, mae'r MDLS yn cyd-fynd ag ymrwymïadau byd-eang i leihau anghydraddoldebau (SDG 10), sicrhau addysg o safon (SDG 4), a hyrwyddo cymdeithasau cynhwysol ar gyfer datblygu cynaliadwy (SDG 16).

1.3 Pam mae angen y MDLS - crynodeb cyflym

Mae ein gwaith blaenorol wedi manylu ar y rhesymau dros y MDLS. At ddibenion cyflawnrwydd, ceir crynodeb o'r rhesymau yma. Mae prosiect y MDLS yn archwilio mater cymdeithasol parhaus sydd bellach yn rhan allweddol o ymyriadau polisi llywodraethau cenedlaethol, datganoledig a rhanbarthol y DU: peryglon a realiti allgáu digidol. Ni fu graddfa ac arwyddocâd systemau a chyfryngau digidol mewn bywyd bob dydd erioed mor amlwg. Mae rhwystrau ymarferol anodd, megis diffyg seilwaith (e.e. darpariaeth band eang ar gyfer aelwydydd), yn lleihau, ac mae mwy o unigolion yn cael mynediad sylfaenol at wasanaethau digidol (er enghraifft, trwy fynediad ffôn clyfar yn unig). Fodd bynnag, mae gwaith arolwg pwysig yn dangos bod materion arwyddocaol o ran mynediad ac anghydraddoldebau ym meysydd defnydd a sgiliau yn parhau ledled y DU (gweler: Yates a Carmi, 2024; Yates et al, 2020; Lloyds, 2024). Canfu ein hadroddiad ar y MDLS mewn perthynas ag aelwydydd â phlant nad oedd 45% o'r aelwydydd yn bodloni'r safon (Yates et al., 2024). Mae materion allweddol fel tlodi, cyfansoddiad aelwydydd (e.e. bod yn rhiant sengl), a lleoliad yn cael dylanwad mawr ar y gallu i fodloni'r safon.

O ganlyniad, mae anghydraddoldebau digidol rhwng y rhai sydd â mynediad at ddyfeisiau a data digidol, ynghyd â'r sgiliau a'r galluoedd i'w defnyddio, a'r rhai hebddynt, yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae nod y llywodraeth bresennol o gynyddu'r defnydd o offer digidol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac iechyd yn golygu bod aelwydydd dan bwysau i gaffael neu wella mynediad a sgiliau digidol. Fel y canfu ein gwaith yng Nghymru a'r Alban, mae'r pwysau hyn, ochr yn ochr â'r argyfwng costau byw, yn rhoi straen afillol ychwanegol ar aelwydydd ac yn gorfodi unigolion i wneud penderfyniadau anodd am ba filiann i'w talu; mae'r rhai ar yr incwm isaf yn wynebu perygl hyd yn oed yn fwy o gael eu hallgáu'n ddigidol. Fel y canfu ein gwaith diweddar yn ymwneud â sgiliau a llythrennedd digidol, mae hefyd yn cynyddu'r gofynion ar unigolion ac aelwydydd i feddu ar y sgiliau ymarferol (gweithredol) a diogelwch ar-lein (hanfodol) angenrheidiol i fod yn weithgar ar-lein (D'Arcy et al., 2024; Polizzi et al., 2025).

Ceir rhyngweithio cymhleth rhwng lefelau a mathau o anghydraddoldebau cymdeithasol a digidol. Yn aml, arferai polisi ganolbwyntio ar fynediad digidol (band eang) ac roedd tuedd i ddiffinio 'allgáu' digidol o safbwynt mynediad ymarferol at dechnolegau. Mae llawer o astudiaethau academiaidd blaenorol wedi archwilio mynediad a sgiliau unigolion, ac mae llawer o fesurau a ddefnyddir gan lunwyr polisi yn y DU ac yn fyd-eang yn gwneud hyn hefyd. Felly, mae gwir angen dealltwriaeth fanylach a mesurau cadarn i lywio ymyriadau. Rhaid i'r gwaith hwn adeiladu ar asesiad manwl o'r hyn sydd ei angen ar unigolion, aelwydydd a chymunedau er mwyn sicrhau eu cynhwysiant digidol. Dyma oedd nod prosiect y MDLS, ac mae'r gwaith ymchwil newydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth fanylach am y MDLS ar draws gwahanol fathau o aelwydydd.

Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o waith ymchwil academiaidd a pholisi mewn perthynas ag anghydraddoldebau digidol wedi canolbwyntio ar dri mater: yn gyntaf, anghydraddoldebau o safbwynt



mynediad ymarferol at ddyfeisiau digidol a chysylltiadau rhyngrwyd; yn ail, gwahaniaethau mewn sgiliau digidol; ac yn drydydd, gwahaniaethau mewn defnydd digidol. Gall y materion hyn fod yn gysylltiedig ag amrywiadau economaidd-gymdeithasol a'r adnoddau personol ac economaidd sydd ar gael i unigolion (Hargittai, 2001; Helsper, 2012; Van Deursen et al., 2014; Yates a Lockley, 2018; Yates et al., 2015; Yates a Lockley, 2020; Lloyds, 2024). Fodd bynnag, mae'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar arolwg yn bennaf, ac mae'n defnyddio dull gweithredu 'o'r brig i lawr' er mwyn asesu anghydraddoldebau digidol, cynhwysiant neu allgáu. Mae'n tarddu o sefyllfa bolisi neu ddamcaniaethol yn hytrach na chanfyddiadau dinasyddion o anghenion.

Mae'r MDLS yn hyrwyddo trafodaethau ymchwil a pholisi trwy symud y tu hwnt i fesurau unigol syml o fynediad neu sgiliau. Mae'n mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac aelwydydd, er mwyn deall cynhwysiant, allgáu, ac anghydraddoldebau digidol. Trwy ddefnyddio'r fethodoleg MIS (gweler Pennod 2) i ddatblygu'r MDLS, gwnaethom fanteisio'n uniongyrchol ar brofiadau bywyd dinasyddion wrth leoli'r mesur ar lefel aelwyd. Trwy wneud hyn bu modd i ni wneud y canlynol:

- Deall bod allgáu digidol yn deillio o ffactorau amrywiol (mynediad at nwyddau, gwasanaethau, sgiliau a gwybodaeth) sy'n cyfyngu ar gyfleoedd a chyfranogiad digidol dinasyddion ac aelwydydd.
- Deall bod anghydraddoldebau digidol yn gymhleth, yn berthnasol i gyd-destun amser a chyd-destun cymdeithasol, a bod ganddynt gysylltiad agos ag agweddau eraill ar anghydraddoldeb cymdeithasol.
- Deall pa bolisiau ac ymyriadau cynhwysiant digidol sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau a'r cyd-destunau sy'n cyfyngu ar alluoedd digidol dinasyddion ac aelwydydd, neu a allai wneud hynny.

1.4 Paramedrau'r MDLS

Mae'r MDLS yn feincnod ar gyfer amlinellu anghenion digidol aelwydydd. Hefyd, mae'n gweithredu fel man cychwyn, gan fod amgylchiadau a sefyllfaoedd amrywiol aelwydydd yn gallu dylanwadu ar eu hanghenion a'u gallu i fodloni gofynion digidol a gofynion eraill. Roedd gwaith ymchwil cychwynnol y MDLS yn cynnwys cyfweiliadau ag aelwydydd ac ymgynghoriadau â sefydliadau rhanddeiliaid, gan archwilio anghenion digidol ychwanegol neu wahanol posibl, yn enwedig mewn perthynas ag anableddau, yn ogystal â heriau i fodloni'r MDLS. Mae'r heriau hyn yn cynnwys fforddiadwyedd, tai, lleoliad a seilwaith, caffael sgiliau, a mynediad at gymorth (gweler: Yates et al, 2024).

Mae'n bwysig nodi y gall ehangder a'r math o ymgysylltu digidol amrywio yn ôl anghenion, sefyllfaoedd a dewisiadau unigol. Rydym yn cydnabod y gall diddordeb pobl mewn bywyd digidol amrywio a bod yna ddadleuon ynglŷn â manteision ac anfanteision mynediad digidol i blant. Fodd bynnag, yng nghyd-destun presennol y DU, roedd pobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn yn cytuno bod angen rhyw fath o ymgysylltu digidol i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan yn y byd o'u cwrpas 'waeth a ydych chi'n hoffi hynny ai peidio'. Yn y cyswllt hwn, mae'r MDLS yn darparu sylfaen ystyrlon ar gyfer ystyried yr amrywiaeth o nwyddau, gwasanaethau, gwybodaeth a sgiliau sydd eu hangen ar bobl i sicrhau cynhwysiant digidol.

1.5 Fideo esboniadol

Er mwyn darparu trosolwg cyflym o'r MDLS a'i methodoleg, rydym wedi datblygu fideo esboniadol byr yma:

- Fersiwn Gymraeg: <https://vimeo.com/1075671309/56d36741d4?share=copy>
- Fersiwn Saesneg: <https://www.youtube.com/watch?v=qWnpao-sfWk>

1.6 Nodyn am ddeallusrwydd artiffisial

Cyfeiriodd cyfranogwyr yn ein trafodaethau grŵp ffocws at ddeallusrwydd artiffisial, ac mae wedi cael ei nodi yn yr adroddiad. Mae deallusrwydd artiffisial yn enghraifft o'r cyd-destun newidiol ac o ymwybyddiaeth cyfranogwyr o'r ffaith y bydd angen iddynt ddatblygu sgiliau gweithredol a beirniadol newydd yn y maes hwn. Mae'n debygol y bydd y sgiliau hyn yn cynnwys sut i gael mynediad at systemau a gwasanaethau deallusrwydd artiffisial, sgiliau a llythrennedd deallusrwydd artiffisial hanfodol (e.e. 'peirianeg annog'), a deall sut mae sefydliadau yn defnyddio systemau deallusrwydd artiffisial. Mae effaith y cyd-destun newidiol hwn ar agweddau ar anghydraddoldeb digidol yn parhau i fod yn aneglur, yn enwedig o safbwynt y cyfranogwyr i'n hymchwil ac aelwydydd y DU. Gall datblygiadau deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol newid y gofynion ar gyfer dyfeisiau a gwasanaethau a newid y cymysgedd o sgiliau digidol sydd eu hangen wrth symud ymlaen. Mae cyfranogwyr wedi nodi goblygiadau cychwynnol newidiadau o'r fath, sydd wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad. Credwn y bydd anghenion dyfeisiau ac anghenion gweithredol yn dod yn fwy eglur ac amlwg wrth i ddeallusrwydd artiffisial ddatblygu'n dechnoleg fwy prif ffrwd. Fodd bynnag, byddem yn dadlau bod deall deallusrwydd artiffisial a'i gymwysiadau eisoes yn hanfodol er mwyn datblygu dealltwriaeth feirniadol o'n cymdeithas ddigidol gyfoes.

1.7 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o elfennau ansoddol y gwaith ymchwil newydd ar y MDLS mewn perthynas ag aelwydydd heb blant. Hefyd, mae'n diweddarau'r MDLS ar gyfer aelwydydd â phlant ac yn cynnwys aelwydydd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Yn wahanol i adroddiad MDLS 2024, nid ydym wedi cynnal arolwg cenedlaethol eto; felly, nid ydym yn cyflwyno canfyddiadau ystadegol a geo-ofodol yma.

Mae Pennod 2 yn amlinellu dull gweithredu'r MDLS a'r broses o'i defnyddio wrth ymestyn y prosiect o'r astudiaeth gychwynnol i ddatblygu'r gwaith ymchwil presennol a mwy cynhwysfawr ar gyfer y MDLS.



Mae Pennod 3 yn cyflwyno 'cynnwys' y MDLS ar gyfer aelwydydd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys yr amrywiaeth o ddyfeisiau, cysylltiadau, a gwybodaeth a sgiliau gweithredol, yn ogystal â'r ddealltwriaeth feirniadol y nododd grwpiau sydd eu hangen ar aelwydydd i fodloni'r diffiniad o'r MDLS.

Mae Pennod 4 yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar sut y mae pobl yn bodloni'r MDLS, gan gynnwys y cymorth sydd ei angen arnynt o bosibl a'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys datblygu sgiliau a chefnogi sgiliau, adnoddau ac ystyriaethau ariannol, a materion cysylltiedig â seilwaith.

Mae Pennod 5 yn dwyn ynghyd y canfyddiadau i drafod anghenion digidol amrywiol, a'r hyn all effeithio ar ddiwallu'r anghenion hynny, ar draws ac o fewn mathau o aelwydydd gan gynnwys y rhai mewn cymunedau gwledig. Hefyd, mae'n ymwneud â newidiadau i anghenion aelwydydd â phlant ers y gwaith ymchwil gwreiddiol ar gyfer y MDLS.

Mae'r bennod sy'n cloi'r adroddiad yn ystyried y canfyddiadau ochr yn ochr â goblygiadau ac argymhellion polisi.

2 Dull

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r sail resymegol ar gyfer datblygu'r MDLS, mae'n esbonio sut mae'r dull wedi'i roi ar waith er mwyn ymestyn y prosiect o'r astudiaeth 'prawf o gysyniad' gychwynnol o anghenion aelwydydd â phlant, ac mae'n disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith ymchwil presennol y MDLS, sy'n cwmpasu ystod ehangach o aelwydydd.

2.1 Y dull gweithredu: Adeiladu'r MDLS ar sail methodoleg y MIS

Mae'r MDLS yn defnyddio methodoleg y Safon Isafswm Incwm (MIS) (Davis et al., 2024; i gael gwybodaeth lawn am y fethodoleg MIS, gweler:

<https://www.lboro.ac.uk/research/crsp/minimum-income-standard/>). Dyma'r agweddau allweddol ar ddull gweithredu'r MIS a fabwysiadwyd er mwyn datblygu'r

MDLS:

- Mae'r dull yn cynnwys dod ag aelodau o'r cyhoedd at ei gilydd mewn cyfres o grwpiau ffocws ymgynghori. Yn y grwpiau hyn, mae cyfranogwyr yn gwneud penderfyniadau ac yn datblygu consensws yn ymwneud ag anghenion a sut i'w diwallu. Mae'r dull yn pwysleisio barn y cyhoedd am "angen", wedi'i llywio gan brofiadau bywyd unigolion ac aelwydydd mewn cymdeithas.
- Mae'n gweithio tuag at ddiffinio safon byw sylfaenol sy'n ***gymdeithasol dderbyniol*** (Davis et al., 2024). Mae'n ymwneud ag "anghenion" yn hytrach na "dymuniadau", ond mae'n cynnwys mwy na'r safon ofynnol sydd ei hangen ar gyfer goroesi, oherwydd bod yn rhaid iddo alluogi pobl i gysylltu ag eraill a chymryd rhan yn y byd o'u cwmpas.

Gan adleisio gwreiddiau'r MIS, mae ein dull o sefydlu'r MDLS yn canolbwyntio ar safbwynt y cyhoedd o'r hyn sydd ei angen 'yn ddigidol' i gymryd rhan yng nghymdeithas y DU. Yn hyn o beth, mae'r MDLS yn sefydlu 'meincnod cyfranogiad digidol' o'r nwyddau, y gwasanaethau a'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion ac aelwydydd i gymryd rhan mewn ***patrymau, arferion a gweithgareddau bywyd cyffredin yn y DU***.

2.2 Datblygu'r MDLS gyntaf ar gyfer y DU

Cwblhawyd gwaith ymchwil cychwynnol ar MDLS y DU yn 2022 ac roedd yn canolbwyntio ar aelwydydd â phlant er mwyn treialu dichonoldeb datblygu safon ar gyfer bywyd digidol. Fodd bynnag, yn ystod y gwaith ymchwil cychwynnol, sefydlodd cyfranogwyr ddiffiniad gyda'r nod o'i gymhwyso i bob math o aelwydydd. Roedd hyn yn cynnwys pum grŵp ffocws gydag aelodau o ystod eang o aelwydydd, gan gynnwys pensïynwyr, pobl o oedran gweithio heb blant dibynnol, a rhieni a phobl ifanc.

Mae'r diffiniad hwn wrth wraidd yr holl waith ymchwil yn ymwneud â'r MDLS, ac mae'n ganolog i waith ymgynghori'r grwpiau ffocws am yr hyn sydd ei angen ar bobl er mwyn sicrhau eu cynhwysiant digidol yng nghymdeithas gyfoes y DU. Mae'n darparu dealltwriaeth gyffredin i'w defnyddio wrth drafod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn bodloni'r "safon."

Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys mynediad at y rhyngwrwyd, offer digonol, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.

Wrth ddatblygu'r diffiniad o'r MDLS, pwysleisiodd y grwpiau fod angen iddi fod yn amlweddog, gan nodi bod angen cyfuniad o ddyfeisiau a chysylltedd, yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth ar gyfer cynhwysiant digidol - nid yn unig er mwyn defnyddio technoleg yn effeithiol ond hefyd i wneud hynny'n ddiogel ac yn hyderus. Hefyd, roedd pobl yn cytuno bod yn rhaid i'r diffiniad o'r MDLS fod yn gyfannol, gan sicrhau bod pob rhan o'r diffiniad yn diwallu anghenion aelwydydd a bod dyfeisiau a chysylltiadau yn ddigonol ac yn addas i'r diben. Roedd yr holl elfennau hyn yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn galluogi aelwydydd i gymryd rhan mewn cymdeithas a diwylliant, cysylltu ag eraill, cael mynediad at wasanaethau, ac ymgysylltu â chyfleoedd, megis addysg neu waith.

Ar sail y diffiniad, cynhaliwyd cyfres bellach o ddeuddeg grŵp ymgynghori gyda rhieni plant o oedranau gwahanol a phobl ifanc. Trwy broses ailadroddus, aeth y grwpiau hyn ati i ddatblygu a mireinio rhestrau o'r mathau o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau y byddai eu hangen ar



aelwydydd â phlant er mwyn bodloni'r diffiniad o'r MDLS. Arweiniodd hyn at sefydlu MDLS y DU ar gyfer aelwydydd â phlant. Mae amlinelliad cyflawn o ddull ymchwil y MDLS, methodoleg y gwaith ymchwil cychwynnol, a chynnwys manwl ar gyfer aelwydydd â phlant ar gael yn Blackwell et al. (2023).

Fel yr amlinellir uchod, roedd gwaith ymchwil cychwynnol y MDLS yn canolbwyntio ar un math o aelwyd, gan ddewis aelwydydd â phlant oedran dibynnol yng nghyd-destun a) pwysigrwydd cynhwysiant digidol i deuluoedd, ymgysylltiad plant ag addysg/ysgol, a rhyngweithio cymdeithasol â'u cyfoedion, a b) y math o aelwyd fwyaf heriol yn fethodolegol oherwydd yr angen i nodi gwahaniaethau yn y gofynion ar gyfer nwyddau, gwasanaethau, sgiliau a dealltwriaeth ymhlith plant sydd mewn cyfnodau gwahanol yn yr ysgol, yn ogystal ag oedolion/rhieni.

Roedd y gwaith ymchwil cychwynnol yn ein galluogi i nodi bod modd cymhwyso'r fethodoleg i anghenion digidol, bod dull gweithredu'r MDLS yn darparu diffiniad ystyrlon a hygyrch o safon sy'n gymdeithasol dderbyniol ar gyfer bywyd digidol, a bod aelodau'r cyhoedd yn gallu cytuno ar yr hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni hynny. Roedd y camau nesaf yn cynnwys ymestyn gwaith ymchwil y MDLS i fathau eraill o aelwydydd, gwneud gwaith ymchwil newydd i archwilio anghenion aelwydydd o bob oedran heb blant, ac adolygu aelwydydd â phlant er mwyn ailymweld, mireinio a chofnodi unrhyw newidiadau. Roedd rhai o'r grwpiau yn cynnwys aelwydydd mewn ardaloedd gwledig.

2.3 Ymestyn y MDLS i aelwydydd eraill

Mae gwaith ymchwil estynedig y MDLS yn defnyddio'r un dull gweithredu â'r astudiaeth gychwynnol a amlinellwyd uchod. Roedd yn cynnwys cyfanswm o ddeuddeg grŵp ffocws ymgynghori a gynhaliwyd rhwng Hydref 2024 a Mawrth 2025. Roedd yn cynnwys:

- 6 grŵp ar gyfer aelwydydd heb blant – 3 aelwyd oedran gweithio, a 3 aelwyd oedran pensiwn (mathau newydd o aelwydydd y MDLS).
- 2 grŵp yn cynnwys rhieni plant oedran dibynnol ac 1 grŵp â phobl ifanc (ar gyfer yr adolygiad o'r MDLS ar gyfer aelwydydd â phlant).
- 3 grŵp gyda chyfranogwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig – gan gynnwys aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn heb blant a rhieni plant oedran dibynnol (er mwyn ystyried anghenion a materion digidol mewn cyd-destun gwledig).

2.3.1 Cyfansoddiad y grwpiau

Roedd pob un o'r naw grŵp cychwynnol (yn canolbwyntio ar fathau newydd o aelwydydd a'r adolygiad o aelwydydd â phlant) yn cynnwys naw neu ddeg o gyfranogwyr, a chafodd y grwpiau ffocws eu cynnal yn y cnawd, mewn lleoliadau trefol (dinasoedd) yn bennaf. Cynhaliwyd y tri grŵp sy'n cwmpasu ardaloedd gwledig ar-lein ac roedd pob un yn cynnwys saith neu wyth o gyfranogwyr (trafodir y rhain yn fanylach isod). Cynhaliwyd y grwpiau yn y cnawd trefol mewn lleoliadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, ac roedd y grwpiau gwledig ar-lein yn cynnwys cyfranogwyr o bob rhan o'r ardaloedd hyn o'r DU. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys unigolion a oedd newydd eu recriwtio (h.y. roedd cyfranogwyr yn cyfrannu at un grŵp yn unig).

Bu cyfanswm o 111 o gyfranogwyr yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Roedd y grwpiau yn cynnwys amrywiaeth o gyfranogwyr o ran rhywedd, gan gynnwys aelwydydd ag unigolion sengl a pharau, gan fod gennym ddiddordeb yn anghenion aelwydydd ac unigolion, ynghyd ag amrywiaeth o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Roedd y rhan fwyaf o grwpiau hefyd yn cynnwys cyfranogwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Roedd gan rieni plant dibynnol rhwng un a phedwar o blant yn byw gartref, gan gynnwys plant oedran cyn-ysgol, ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Roedd hyn yn hanfodol i'r trafodaethau, gan fod anghenion digidol plant yn amrywio yn ôl oedran. Roedd cyfranogwyr yn y grŵp pobl ifanc yn 13 a 14 oed.

2.3.2 Oedran neu gyfnod bywyd

Roedd y cyfranogwyr yn y grwpiau o aelwydydd heb blant yn amrywio o 18 i 88 oed. Fodd bynnag, cynhaliwyd grwpiau ar wahân ar gyfer unigolion o 'oedran gweithio' ac 'oedran pensiwn.' Mae'r rhaniad hwn yn efelychu dull yr MIS o archwilio anghenion mathau gwahanol o aelwydydd o ran oedran, ac yn adlewyrchu'r rhagdybiaeth gyffredin y bydd anghenion digidol yn amrywio yn ystod oes unigolyn. Yng nghyd-destun y MDLS, roedd hyn yn sicrhau bod modd i ni gasglu safbwyntiau gan grwpiau oedran gwahanol gan hwyluso trafodaethau sy'n canolbwyntio ar faterion penodol yn ymwneud ag oedran neu gyfnod bywyd. Fodd bynnag, nodwyd gorgyffwrdd sylweddol mewn anghenion ar draws yr ystod oedran. Er bod rhai agweddau ar ymgysylltu digidol yn fwy perthnasol i gyfranogwyr hŷn neu iau, roedd gwahaniaethau hefyd oddi mewn i grwpiau oedran gweithio ac oedran pensiwn (fel y nodir yn y penodau canlynol). Roedd y rhaniad hwn yn helpu i drefnu'r grwpiau, ond ni chafodd ei ystyried yn ddiffiniol o ran rôl oedran wrth bennu anghenion digidol. Mae trafodaethau ar sut i ddiwallu anghenion digidol yn llawer mwy cysylltiedig â chyfnodau bywyd nag â gwahaniaethau clir rhwng categorïau oedran gweithio ac oedran pensiwn, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y ddwy boblogaeth. Felly, mae'r canfyddiadau yn y bennod ganlynol yn cyfeirio at drafodaethau oddi mewn i'r grwpiau oedran gweithio ac oedran pensiwn, yn hytrach na cheisio eu cyflwyno fel canfyddiadau'r MDLS sydd ar wahân neu'n wahanol ar gyfer y ddau grŵp oedran.

2.3.3 Cynnal y grwpiau

Yn yr un modd â dull cychwynnol y MDLS, cynhaliwyd y grwpiau hyn mewn tri cham. Roedd canfyddiadau a phenderfyniadau o un cam yn cael eu trosglwyddo i'r cam nesaf er mwyn adolygu, datblygu, a mireinio'r rhestrau o eitemau, gwybodaeth a sgiliau a oedd wedi'u cynnwys yn y MDLS ar gyfer pob math o aelwyd neu gyfnod bywyd. Cyflwynodd yr ymchwilwyr y diffiniad o'r MDLS ar ddechrau pob grŵp fel sylfaen ar gyfer trafodaethau am yr hyn sydd ei angen. Defnyddir enghraifft ddamcaniaethol o aelwyd er mwyn sicrhau nad yw cyfranogwyr yn canolbwyntio ar eu hangenion eu hunain, ond y gofynnir iddynt benderfynu sut y byddai modd diwallu anghenion rhywun sy'n byw ar aelwyd debyg i'w haelwyd nhw. Ar gyfer y MDLS ar gyfer aelwydydd heb blant, roedd y grwpiau wedi dechrau o'r dechrau, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr gynnig yr ystod o ddyfeisiau, mathau o gysylltiadau, a gwybodaeth a sgiliau y byddai eu hangen ar rywun i fodloni'r diffiniad o'r MDLS yn eu barn nhw. Wrth adolygu aelwydydd â phlant, defnyddiodd yr ymchwilwyr y MDLS gychwynnol ar gyfer teuluoedd â phlant er mwyn llywio eu trafodaethau.

Roedd y trafodaethau yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod ieuchyd aelodau'r aelwydydd dan sylw yn



gymharol dda. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y gall cyflyrau iechyd neu anableddau gael effaith sylweddol ar anghenion pobl a bod angen eu hystyried ar wahân. Ar gyfer grwpiau sy'n cynnwys unigolion hŷn, rydym yn egluro y byddai hyn yn cwmpasu heneiddio cyffredinol, megis dirywiad mewn golwg neu ddehurwydd, yn hytrach nag anghenion meddygol cronig neu aciwt neu anghenion anabledd penodol.

2.3.4 Y cyd-destun gwledig

Roedd y tri grŵp ar-lein yn cynnwys cyfranogwyr mewn lleoliadau gwledig yn dilyn y naw grŵp yn y cawd cychwynnol, lle y gwnaethom sefydlu set graidd o anghenion a chynnwys y MDLS yn seiliedig ar drafodaethau mewn ardaloedd trefol. Cynhaliwyd grwpiau ar wahân ar-lein gydag aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn heb blant, yn ogystal â rhieni plant oedran dibynnol. Mae'r grwpiau gwledig wedi ein galluogi i adolygu'r hyn yr oedd grwpiau blaenorol wedi'i gynnwys a thrafod unrhyw wahaniaethau neu ystyriaethau penodol ar gyfer pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig, o safbwynt eu hanghenion digidol a'r heriau posibl sy'n eu hwynebu wrth fodloni'r MDLS.

Roedd y penderfyniad i gynnal grwpiau gwledig ar-lein wedi cael ei wneud er mwyn hwyluso cwmpas daearyddol eang, gan ei bod yn hanfodol cynnwys unigolion sy'n byw mewn ardaloedd mwy anghysbell (a byddai'n anodd i'r unigolion hyn gyfarfod ar gyfer sesiynau yn y cawd). Er y gallai ymddangos yn groes i'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl o ystyried anawsterau hysbys sicrhau mynediad ar-lein mewn cymunedau gwledig, roedd y dull gweithredu hwn yn caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan o bob rhan o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, ac o Ogledd yr Alban i Ddyfnaint. Roedd yr holl gyfranogwyr yn y grwpiau hyn yn byw mewn pentref, pentrefan neu annedd ynysig¹. Yn yr achos hwn, roeddem eisiau cynnwys pobl sydd â phrofiad o ymgysylltu digidol a allai drafod yn effeithiol y problemau sy'n wynebu unigolion wrth geisio sicrhau mynediad digonol ar-lein mewn sefyllfaoedd gwledig.

2.3.5 Dadansoddi ac ymgynghori

Cafodd yr holl grwpiau ffocws eu recordio a'u trawsgrifio'n ddigidol er mwyn hwyluso dadansoddiad thematig o'r trafodaethau a lywiodd y penderfyniadau, a myfyrio arnynt. Cafodd y rhestr o nwyddau, gwasanaethau, gwybodaeth a sgiliau a ddeilliodd o'r trafodaethau ei llunio a'i threfnu'n gategorïau, sy'n ffurfio cynnwys y MDLS ar gyfer aelwydydd a amlinellir ym Mhennod 3.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfres o seminarau ar-lein gyda rhanddeiliaid (e.e. unigolion a chynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector lleol a chenedlaethol) er mwyn rhannu canfyddiadau sy'n dod i'r fei a llywio'r adroddiadau. Hefyd, ymgynghorwyd â Grŵp Cynghori'r Prosiect ar ddechrau'r astudiaeth ar gynlluniau a dyluniad y gwaith ymchwil, ac eto yn y cam olaf i drafod y canfyddiadau newydd hyn.

¹Mae'r dosbarthiad gwledig-trefol yn amrywio ar draws gwledydd y DU, ond trwy gynnwys pobl sy'n disgrifio eu lleoliad fel pentref, pentrefan neu annedd ynysig, yn hytrach na thref, rydym yn rhagweld bod cyfranogwyr yn perthyn i'r categori anheddiad gwledig yn eu cyd-destun lleol.

2.4 Moeseg

Cafodd y prosiect gydnabyddiaeth foesegol lawn gan bwyllgor moeseg Prifysgol Loughborough. Derbyniodd y cyfranogwyr wybodaeth am y prosiect - ei ddiben a goblygiadau cymryd rhan ynddo - a'u hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cafodd yr holl fanylion eu cadw'n gyfrinachol, a chafodd unrhyw ddyfyniadau yn yr adroddiad eu hanonymaiddio. Defnyddiwyd sefydliad recriwtio ymchwil proffesiynol i recriwtio cyfranogwyr sy'n oedolion, ac roedd y broses yn cynnwys rhywfaint o recriwtio yn y cnauld lleol ar gyfer y grwpiau oedran pensiwn.

Cynhaliwyd y grwpiau yn y cnauld mewn lleoliadau hygyrch, a darparwyd cyfarwyddiadau ymuno cynhwysfawr a chynigion cymorth i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn y grwpiau ar-lein. Cafodd y grŵp o bobl ifanc eu recriwtio trwy ysgol uwchradd a buont yn cyfarfod yn ystod y diwrnod ysgol. Cynlluniwyd taflenni gwybodaeth ymchwil ar wahân yn benodol ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni/gwarcheidwaid, a llofnodwyd ffurflenni cydsynio ymlaen llaw gan rieni/gwarcheidwaid a'r myfyrwyr eu hunain.

3 Yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd y DU ar gyfer y MDLS

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r hyn a ddywedodd y grwpiau sydd ei angen ar aelwydydd i gyflawni'r MDLS, gan sicrhau y gellir eu cynnwys yn y byd digidol o'u cwrpas. Gan adlewyrchu'r diffiniad o'r MDLS, mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau digidol, cysylltiad rhwngwyr, a'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol. Mae hyn yn cwrpasu galluedd gweithredol ac ymarferol ar gyfer ymgysylltu ar-lein a chyflawni tasgau a gweithgareddau, yn ogystal â sgiliau beirniadol ar gyfer deall a rheoli risgiau digidol. Yn hanfodol, mae angen yr elfennau hyn i gyd ar y cyd, gydag ymagwedd gyfannol at gynhwysiant digidol yn nodwedd ganolog a phenodedig o'r MDLS. Roedd cytundeb eang ymhlith y grwpiau ar yr elfennau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer y MDLS. Felly, cyflwynir cynnwys y MDLS yn thematig fel set graidd o nwyddau, gwasanaethau, gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol ar draws aelwydydd. Yn y fframwaith hwn, rydym yn amlinellu anghenion neu ystyriaethau penodol sy'n ymwneud â gwahanol gyfnodau bywyd (ar gyfer oedolion yn ogystal â theluoedd â phlant dibynnol) ac i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae'r MDLS yn nodi'r hyn sy'n bodloni anghenion digidol aelwydydd, gydag amgylchiadau amrywiol pobl yn effeithio ar eu hanghenion, a'r dulliau o'u bodloni (gweler Pennod 4 hefyd). Mae'n werth ailadrodd hefyd nad 'y safon ofynnol' yw'r MDLS ar gyfer 'goroesi yn unig', ond yn hytrach yr hyn y mae aelwydydd yn ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer ymgysylltu a chyfranogi mewn DU ddigidol.

3.1 Nwyddau a Gwasanaethau Digidol

3.1.1 Ffôn symudol

- **Ffôn clyfar lefel mynediad ar gyfer pob oedolyn, ac i blant pan fyddant yn teithio ac yn cymdeithasu'n annibynnol.**

Ar draws pob aelwyd, mae pob oedolyn angen ei ffôn clyfar ei hun. Roedd pob grŵp yn cytuno bod ffôn clyfar yn fwyfwy hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd gan drafod y defnydd amrywiol ohono, o gyfathrebu i gael mynediad at wasanaethau, bancio, gwybodaeth, llywio, ac adloniant. Wrth fyfyrio ar y defnydd helaeth ohonynt, ni allai rhai cyfranogwyr ddychmygu bywyd heb ffôn clyfar. Mae'r angen am ffôn clyfar yn ymestyn y tu hwnt i gyfleustra, wrth i gyfranogwyr drafod eu dibyniaeth ar ddyfeisiau oherwydd diffyg dewisiadau amgen all-lein. Soniwyd am lai o wasanaethau yn y cnawd, y defnydd o ddilysiad dau ffactor, taliadau di-arian-parod, codau QR, ac apiau i gael mynediad at eitemau neu archebu eitemau, gan nodi'r potensial o anfantais ariannol heb fynediad at ddyfais symudol.

Menyw: Pe baech chi'n dweud, o rydyn ni'n mynd i gymryd eich ffôn clyfar, gallwch chi gael ffôn sylfaenol yn unig ... Dwi'n credu y byddwn i'n teimlo fel bod y byd wedi disgyn yn ddarnau, dwi'n gwybod bod hynny'n eithaf trist mewn gwirionedd, ond dwi'n gwneud popeth ar fy ffôn....

Dyn 1: ... Mae'r holl fanciau wedi cau erbyn hyn felly mae'n rhaid i rywun wneud ei holl fancio ar-lein a gwneud hynny ar ffôn clyfar. Ac rydych chi'n prynu eich tocynnau trên, ac maen nhw ar eich ffôn nawr, rydych chi'n eu dangos nhw...

Dyn 2: ... Heb yr apiau ar gyfer y siopa, boed yn Tesco, Lidl neu lle bynnag, yna rydych chi'n colli allan ar yr holl bethau bonws yn y siopau, rydych chi'n gwybod y bydd yn costio llawer o arian i chi beidio â chael ffôn symudol...

Menyw: ... Hyd yn oed os ydych chi'n mynd i rai bwytai, fel tafarndai ac ati, mae'n rhaid i chi archebu ar-lein ar eich ffôn... dwi'n credu i ryw raddau eich bod chi'n gwahaniaethu yn erbyn y bobl sydd ddim yn gallu defnyddio'u ffôn a thechnoleg cystal.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau oedran pensiwn yn tueddu i drafod yr angen am ffôn clyfar, yn enwedig wrth fynd a dod. Er enghraifft, fe wnaethant nodi gwerth Google Maps, y camera, a gallu cael cymorth mewn argyfwng, gan gynnwys trwy'r nodwedd cyswllt argyfwng ar ffôn clyfar.

Dwi am fentro dweud bod gan bob un o'r rhain rif argyfwng, oherwydd drwy bwysu



hwnnw, mae'n ffonio pwy bynnag rydych chi wedi'i roi fel cyswllt argyfwng i'w ffonio os ydych chi'n cael codwm, er enghraifft.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Teimlai rhieni a phobl ifanc y byddai plentyn angen ei ffôn ei hun wrth ddechrau teithio a chymdeithasu ar ei ben ei hun. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â diogelwch, wrth i blant ddod yn annibynnol, yn enwedig wrth wneud eu ffordd eu hunain i'r ysgol. Soniodd rhieni eu bod yn dawel eu meddwl fod ganddynt ffordd o gysylltu â phlentyn, gan wybod y gallent gysylltu â nhw ac y gallai'r plentyn gysylltu â hwythau. Nododd rhieni mewn ardaloedd gwledig angen cynyddol o bosibl, gan fod plant yn aml daith hirach i'r ysgol, a'u bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar fws i deithio, ac angen cyfathrebu â rhieni am lifft. Roedd cael ffôn clyfar yn galluogi rhieni i ddefnyddio apiau lleoliad i weld ble'r oedd y plant, ac roedd hyn yn rhoi tawelwch meddwl.

Dyn 1: Roedd gan fy mab ffôn clyfar ym mlwyddyn pump oherwydd iddo ddechrau beicio i'r ysgol ac yna daeth cyfnod fy merch yn yr ysgol gynradd i ben y llynedd, felly mae ganddi hi ei ffôn e oherwydd ein bod ni'n ei hannog i gerdded i'r ysgol ac er mwyn rhoi rhywfaint o annibyniaeth iddi... Ac roedd modd i ni gadw golwg ar ble'r oedd hi a gwneud yn siŵr ei bod hi'n ddiogel ac yn cyrraedd yr ysgol yn iawn...

Menyw: ... Mae'n eithaf braf gweld ble maen nhw, yn enwedig pan allwch chi ddim cael gafael arnyn nhw. ... dwi'n defnyddio'r ap Find My iPhone, ac mae gennym ni gyfrif rhannu teulu felly gallaf weld ble mae e.

Dyn 1: Mae gen i Life 360.

Dyn 2: Ie a fi, mae e'n dda. (Grŵp rhieni, Bryste)

Trafododd pobl ifanc a rhieni sut mae'r defnydd o ffôn yn esblygu wrth i blant dyfu'n hŷn, gan ddod yn gynyddol bwysig ar gyfer gweithgareddau dyddiol pobl ifanc a chynhwysiant cymdeithasol. Esboniodd pobl ifanc sut mae eu hymgylltiad ag apiau'r cyfryngau cymdeithasol yn datblygu yn ystod yr ysgol uwchradd, oherwydd gall yr apiau hyn fod yn ffordd allweddol o ryngweithio ag eraill a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau yn eu grwpiau cyfoedion. Wrth i blant dyfu'n hŷn a chael mynediad at eu cyllid eu hunain, gallant ddefnyddio eu ffonau i wneud taliadau—dywedodd y bobl ifanc y buom ni'n siarad â nhw fod hyn yn well na chario cerdyn neu arian parod.

Merch 1: Dwi'n credu ei fod yn digwydd ychydig yn fwy yn yr ysgol uwchradd wrth i bawb ddechrau cael snapchat.

Merch 2: Fel arall, rydych chi'n mynd i deimlo'ch bod chi'n cael eich gadael allan, eich gadael ar ôl os nad ydych chi'n gwneud yr un peth ag y mae pawb arall yn ei wneud ar eu ffonau.

Merch 3: Mae'n fwy o beth cymdeithasol oherwydd ei fod fel ffordd arall o gyfathrebu, a byddech chithau'n cael eich gadael allan heb ffôn clyfar a gall wneud i bobl deimlo wedi'u datgysylltu.

Ymchwilydd: Pryd mae'r angen hwnnw am gysylltiad a chymdeithasu yn digwydd? Felly, er enghraifft, pe bai rhywun yn cael ei ffôn ym mlwyddyn 5/6, ydy hynny'n digwydd ar unwaith neu dros amser?

Merch 1: Fe ges i fy ffôn ym mlwyddyn pump dwi'n meddwl a tan i mi gyrraedd yr ysgol uwchradd doedd gen i ddim llawer o apiau, dwi'n credu mai dim ond YouTube a WhatsApp neu rywbeth oedd gen i ac yn syth ar ôl cyrraedd yr ysgol uwchradd fe welais i fod gan bawb snapchat felly dwi'n cofio mai dyna sut ges i snapchat oherwydd ei fod gan bawb arall. Felly, dwi'n credu bod pobl yn dechrau cael llawer mwy o apiau yn yr uwchradd.

(Grŵp pobl ifanc)

Cytunodd pob grŵp y byddai ffôn clyfar lefel mynediad yn bodloni anghenion rhywun, cyn belled â bod ganddo ddigon o gapasiti i gefnogi'r apiau angenrheidiol, camera rhesymol, cysylltedd 4G, a lle storio digonol. Sylwodd rhieni a phobl ifanc fod plant yn aml yn dechrau gyda dyfeisiau hŷn wedi'u hetifeddu gan eu rhieni. Trafodir gofynion data symudol isod.

3.1.2 Ffôn llinell dir



- **Yr opsiwn o linell dir ar gyfer aelwydydd hŷn mewn ardaloedd sydd â signal ffôn symudol gwael.**

Er bod y ffôn clyfar yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel dyfais hollgynhwysol ar gyfer y cartref a thu allan i'r cartref, mynegodd rhai cyfranogwyr mewn grwpiau oedran pensiwn yr angen am ffôn llinell dir gartref hefyd. Roedd hyn oherwydd eu hawydd i beidio â dibynnu'n gyfan gwbl ar ffôn symudol yn y cartref, ac i roi dewis arall mewn ardaloedd â signal ffôn symudol gwael.

Dwi'n byw mewn pentref mewn dyffryn ac mae'r signal ffôn symudol yn mynd a dod ... mae'r rhan fwyaf o'r bobl dwi'n eu hadnabod, pobl hŷn, maen nhw i gyd yn defnyddio eu llinellau tir ac eto mae'n ymddangos ei fod yn arferiad sy'n marw, ond byddwn i ar goll heb fy llinell dir.

(Oedran pensiwn, grŵp gwledig)

Un pwynt perthnasol i'w gofio yw bod y DU yn pontio o linellau ffôn analog 'copr' (Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog (PSTN)) i Rwydwaith Digidol Gwasanaethau Integredig (ISDN) 'band eang' digidol. Mae'r newid hwn o PSTN i ISDN yn gymhleth ac wedi codi pryderon i lawer o gwsmeriaid telathrebu, gan newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Mae'r pryder hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein canfyddiadau. Roedd cymysgedd o safbwyntiau ymhlith y grwpiau trefol, gyda rhai yn mynegi pryder tra bod eraill wedi newid i fand eang heb broblemau. Fodd bynnag, roedd hyn yn arbennig o bryderus i gyfranogwyr yn y grŵp gwledig oedran pensiwn, sydd, yn ôgystal â signal ffôn symudol annibynadwy, yn nodi bod mwy o debygolrwydd o doriadau pŵer mewn rhai ardaloedd a'r risg o gael eu gadael heb fynediad at ffôn.

Dyn 1: Mae gennym ni linell dir hefyd, ac mae'n hollol hanfodol, os yw'r cyflenwad trydan yn methu, y llinell dir yw'r unig ffordd o gysylltu, er enghraifft, â'r gwasanaethau brys, ond mae disgwyl i'r llinellau tir ddod i ben ddiwedd y flwyddyn nesaf.

Dyn 2: Mae'r pŵer yn torri'n rheolaidd yma ac yna yn amlwg mae'r band eang yn methu ac mae'r ffôn symudol yn methu hefyd oherwydd bod y mast symudol agosaf atom ar yr un rhwydwaith â ni ar gyfer y trydan. Felly heb ddad-binio rhwydwaith pŵer da iawn, rydyn ni'n aml yn cael ein gadael mewn sefyllfa lle rydyn ni wedi'n datgysylltu'n llwyr, er gwaethaf y ffaith bod ein band eang yn wych, felly mae'n fater gwledig i rai pobl.

(Oedran pensiwn, grŵp gwledig)

Roedd gwybodaeth gymysg a rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r trosglwyddo i ddigidol ymhlith grwpiau oedran pensiwn, a thynnwyd sylw at yr angen am well gwybodaeth gyhoeddus wrth arwain at y broses o bontio i'r rhwydwaith analog, yn enwedig o ran opsiynau wrth gefn rhag ofn y byddai aelwydydd yn colli pŵer (Digital Communities APPG, 2025). Rydym am bwysleisio bod yr angen hwn yn cael ei ysgogi gan faterion fel signal ffôn symudol gwael a defnyddio ISDN/band eang yn lle gwasanaethau llinell dir. Rydym yn disgwyl, ar ryw adeg yn y dyfodol, y gall y materion, y pryderon a'r anghenion hyn newid unwaith y bydd y trosglwyddo i ddigidol wedi'i gwblhau a bod gwasanaethau yn cael eu hystyried yn ddibynadwy. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, mae aelwydydd wedi tynnu sylw at angen cyfredol allweddol.

3.1.3 Dyfais sgrin fawr (gliniadur, llechen neu gyfrifiadur personol)

- **Un ddyfais sgrin fawr (gliniadur, llechen, neu gyfrifiadur personol) ar gyfer pob aelwyd.**
- **Aelwydydd â phlant – rhiant/rhieni a'u plentyn cyntaf yn rhannu un ddyfais, gyda dyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oedran ysgol ychwanegol.**

Cytunodd grwpiau fod angen dyfais sgrin fawr ar aelwydydd. Fel gyda'n MDLS blaenorol, mae'r term 'dyfais sgrin fawr' yn cwmpasu gliniadur, llechen, neu gyfrifiadur personol bwrdd gwaith, sy'n adlewyrchu gwahanol anghenion neu ddewisiadau aelwydydd. Cytunodd y cyfranogwyr y dylai'r ddyfais fod yn un lefel mynediad neu'n ddyfais agos at lefel mynediad a ddewiswyd i fodloni anghenion y MDLS ar gyfer aelwyd er mwyn cael mynediad at y gwasanaethau a nodir isod (e.e., gan gynnwys teledu, a gemau lle bo angen). Dylid ystyried y ddyfais hon ar wahân i ddyfeisiau sy'n ofynnol ar gyfer gwaith a/neu a ddarperir gan gyflogwr².

Er bod rhai pobl, yn enwedig cyfranogwyr iau o oedran gweithio, wedi disgrifio defnyddio eu ffonau clyfar ar gyfer bron pob dim, roedd consensws ar draws grwpiau bod rhai gweithredoedd yn haws ac yn fwy effeithlon i'w cyflawni gyda dyfais sgrin fawr. Roedd hyn yn cynnwys 'tasgau difrifol' fel gwneud cais am swyddi, rheoli materion gweinyddol yr aelwyd, cymryd rhan mewn rolau gwirfoddol, a storio dogfennau a ffotograffau. Gall y tasgau hyn gynnwys trafod symiau mawr o destun, cwblhau a llofnodi ffurflenni, rheoli fformatau ffeil amrywiol, a llywio dogfennau neu windows. Er enghraifft, soniodd grwpiau am PDFs a Microsoft

Word fel mathau o ffeiliau cyffredin sy'n haws i'w gweld a'u golygu ar ddyfais sgrin fawr o gymharu â ffôn symudol.

Mae defnyddio ffôn at y dibenion hyn yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth y mae modd ei wneud ond yn rhywbeth nad yw'n ddelfrydol. Fodd bynnag, mae'n cynrychioli "modd goroesi gyda'r camau mwyaf sylfaenol" (grŵp oedran gweithio, Sheffield) a allai roi person mewn perygl o fethu â chyfathrebu, cysylltu, ac ymgysylltu'n llawn â chyfleoedd, fel yr amlinellir yn y diffiniad o'r MDLS.

Menyw: I mi, yn union fel y mae dogfen PDF yn ymddangos, mae gwneud hynny ar eich ffôn mor anodd... mae gwneud eich CV ac ati gymaint yn haws ar gyfrifiadur neu lechen....

Dyn: Mae'n anodd iawn llenwi ffurflen ar eich ffôn oherwydd eich bod chi'n sgrolio i'r chwith ac i'r dde, yn ogystal ag i fyny ac i lawr, yn ceisio dod o hyd i'r blwch rydych chi wedi'i fethu neu heb ei lenwi ac ati.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Dyn: Fe drefnais fy yswiriant car yr wythnos diwethaf ar lechen, fyddwn ni ddim yn rhoi cynnig ar hynny ar y ffôn oherwydd rydych chi eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n ticio'r bocsys cywir ac ati.

Menyw: Fe wnes i'n union yr un peth gyda f'un i, fe wnes i hynny ar fy llechen oherwydd allwch chi ddim gweld yr holl dudalen ar eich [ffôn symudol]

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

Nodwyd yr angen am well gwelededd a thestun darllenadwy a ddarperir gan ddyfeisiau sgrin fawr a buddion hynny gan wahanol grwpiau, yn enwedig unigolion oedran gweithio hyn a'r rhai o oedran pensiwn. Yn ogystal, nododd grwpiau oedran pensiwn faterion dehurwydd fel rheswm pam y gallai dyfeisiau sgrin fawr gyda bysellfyrddau neu arwynebau cyffwrdd fod yn fwy cyfforddus i'w defnyddio na ffonau symudol i unigolion hyn.

I mi mae angen dyfais sydd â gosodiad diofyn ar gyfer nodau mwy fel y gallwch chi ddarllen y sgrin. Hynny yw, dwi'n cael trafferth ar hyn o bryd, fwy sydyn mae sgrin fy ngliniadur mor fach, felly mae'n rhaid i mi ysgrifennu popeth mewn ffont maint 14 er mwyn i mi allu ei ddarllen.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

²Nid ydym wedi nodi a oedd yr astudiaethau achos yn gweithio ai peidio er mwyn osgoi cyfyngu neu lywio trafodaethau ynghylch anghenion rhywun mewn perthynas â'i swydd. O ran anghenion digidol yr aelwyd, cytunwyd os oes angen dyfais sgrin fawr neu ffôn ychwanegol at ddibenion gwaith, yna y rhagdybiaeth ar gyfer y grŵp trafod yw a) y dylid ei ddarparu trwy eu cyflogaeth, a b) efallai na fydd dyfais gwaith ar gael at ddefnydd personol, neu ar gael i aelodau eraill o'r aelwyd ei defnyddio.

Un o'r problemau yw 'bysedd banana' gyda'r ffonau llai ... mae'n hawdd iawn teipio llythyren anghywir, hawdd iawn.

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

Ar gyfer unigolion hŷn a'r rhai sy'n llai hyderus yn defnyddio ffôn clyfar, mae'r materion hyn yn adlewyrchu dibyniaeth ehangach ar liniaduron neu lechi yn y cartref, gan gynnwys ar gyfer tasgau y gallai rhai defnyddwyr iau fod yn hapus i'w cyflawni ar eu ffonau clyfar.

Er mwyn bodloni anghenion gofynnol, roedd grwpiau yn cynnwys aelwydydd heb blant gydag un ddyfais. Credent ei fod yn ddisgwyliad rhesymol y byddai cyplau sy'n oedolion yn rhannu dyfais, o ystyried bod gan bob un ohonynt ei ffôn clyfar ei hun. Datgelodd trafodaethau ymhlith oedolion hŷn y gallai un partner fod yn brif ddefnyddiwr y gliniadur, mewn rhai aelwydydd, yn enwedig lle mae gan y llall lai o ddiddordeb neu fynediad cyfyngedig i'r ddyfais. Trafodir y goblygiadau ar gyfer sgiliau digidol a hyder ym Mhennod 4.

Roedd grwpiau rhieni a phobl ifanc yn cytuno ar fodel presennol y MDLS o blentyn cyntaf oedran ysgol yn rhannu dyfais sgrin fawr gyda'i riant/rhieni a'r angen am ddyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oedran ysgol arall ar yr aelwyd. Ailadroddodd rhieni a phobl ifanc bwysigrwydd ymarferoldeb ychwanegol dyfeisiau sgrin fawr i blant oedran ysgol, yn enwedig ar gyfer gwaith cartref. Soniodd rhai rhieni a phobl ifanc y buom ni'n siarad â nhw am y ffordd roedd eu hysgolion wedi darparu llechen, ac roeddent yn eu defnyddio yn yr ysgol ac ar gyfer gwaith cartref. Roedd cael mynediad i'w dyfeisiau eu hunain yn dileu'r angen i rannu, ond adroddwyd bod yr hyn y gellid ei gyrchu wedi'i gyfyngu, felly ni fyddent o reidrwydd yn disodli'r angen am ddyfais y gallai rhieni ei defnyddio yn fwy cyffredinol, hefyd.

3.1.4 Teledu a gwylio

- **Teledu (neu opsiwn o ddyfais sgrin fawr sy'n gallu gweithio fel teledu) ar gyfer pob aelwyd a**
 - **Thrwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad ar gyfer cartrefi heb blant.**
 - **Trwydded deledu yn ogystal â gwasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad ar gyfer cartrefi â phlant.**

Roedd pob grŵp yn cytuno bod mynediad at gyfryngau, gan gynnwys rhaglenni teledu ffrydio a daearol, newyddion a ffilmiau, yn angenrheidiol ar gyfer hamdden, ymlacio, cyfranogiad cymdeithasol, a gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd penderfyniadau'r grwpiau ynghylch ffyrdd priodol o weld cynnwys teledu a chyfryngau a chael mynediad atynt yn amrywio.

Trafododd y cyfranogwyr wahanol ddulliau o ddefnyddio'r cyfryngau, gan gynnwys setiau teledu (yn enwedig Setiau Teledu Clyfar) a defnyddio dyfeisiau eraill wedi'u galluogi gan y rhynggrwyd. Byddai cael teledu yn y cartref yn bodloni nifer o anghenion, er bod ei arwyddocâd yn amrywio rhwng gwahanol fathau o aelwydydd. Pwysleisiodd grwpiau yn cynrychioli aelwydydd â phlant y byddai teledu yn hwyluso dulliau teulu o wyllo ac yn ffynhonnell adloniant i'r teulu.

Menyw 1: Dwi'n hoffi pan mae'r ferch yn ffrydio pethau fel y gallwn ni wyllo pethau gyda'n gilydd fel nad yw hi'n ymgolli'n ormodol wrth wyllo pethau ar ei phen ei hun, ac y gallwn ni drafod beth bynnag rydyn ni'n ei wyllo, ac efallai y gall hi wneud mân bethau a chwarae gyda'i Lego wrth wyllo.

Dyn: Yn hytrach na bod yn hollol ar wahân yn yr un aelwyd.

Menyw 1: Yn union ie, felly mae'n dod â ni at ein gilydd fel teulu mewn ffordd.

Menyw 2: Dyna'n union roeddwn i'n mynd i'w ddweud, dwi'n credu bod gallu eistedd i lawr a gwylio ffilm yn elfen gymdeithasol o'ch teulu.

(Grŵp rhieni, Newcastle)

Roedd grwpiau oedran gweithio yn trafod yr angen am deledu, gan ddatgelu gwahaniaeth barn. Nododd cyfranogwyr y gallai fod yn well gan rai unigolion gael mynediad at gyfryngau trwy ffonau symudol, llechi, neu liniaduron yn hytrach na chael set deledu. Yn debyg i gemau (gweler isod), byddai gofyn bod dyfais sgrin fawr ar yr aelwyd i allu ffrydio gwasanaethau teledu.

Does gen i ddim teledu mewn gwirionedd. Mae gen i liniadur ac mae gen i fonitor dwi'n ei blygio i mewn iddo, felly dwi'n gwylio'r teledu arno, dwi'n gwylio ffilmiau arno, ond dwi'n eu cyrchu trwy fy ngliniadur, felly mae'n debyg fy mod i angen



adloniant, ond dyw e ddim yn gorfod dod o'r teledu mwyach.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

Fe wnaeth trafodaethau yn y maes hwn dynnu sylw at amrywiad oedran posibl lle gallai dewisiadau gwyllo fod yn gysylltiedig â chyfnod bywyd. Er enghraifft, mae person hŷn sydd wedi arfer â chael teledu yn ei gartref, neu efallai aelwyd sy'n magu plant, yn debygol o fod â dewisiadau a disgwyliadau gwahanol na'r rhai sydd wedi tyfu i fyny yn gwyllo cynnwys ar ddyfeisiau unigol.

Ymchwilydd: Ydych chi'n meddwl bod yna wahaniaeth yn y ffordd y mae pobl yn ystyried y teledu, hynny yw ei fod yn bwysig i rai a ddim mor bwysig i eraill?

Menyw 1: Oes

Ymchwilydd: Beth ydych chi'n credu sydd wrth wraidd hynny?

Menyw 1: Torri arferiad. Maen nhw wedi arfer â'u trefn eu hunain, ac rydyn ni wedi ei wneud ers cymaint - mae'n anodd i bobl newid pan maen nhw wedi mynd i arfer.

Menyw 2: Yn bendant, rydych chi wedi tyfu i fyny efo teledu, doedd na ddim byd arall.

Menyw 1: Fyddwn ni byth bythoedd yn gwyllo sioe deledu neu unrhyw beth ar lechen neu liniadur,

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Er bod cyfranogwyr yn cydnabod y cynnwys sydd ar gael am ddim yn y modd dal i fyny, ar-alw, neu drwy YouTube, cytunwyd y dylai aelwydydd gael mynediad at ryw fath o gynnwys ychwanegol er mwyn darparu dewis, ymgysylltu cymdeithasol, a chynhwysiant. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r trafodaethau grŵp bod y ffordd y mae pobl yn cyrchu cynnwys teledu yn newid, felly gellid cael cynnwys ychwanegol trwy drwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio, yn dibynnu ar ddewis personol.

Ar y naill law, roedd trwydded deledu yn cael ei hystyried yn bwysig gan rai, yn enwedig unigolion hŷn, o safbwynt cael mynediad at deledu byw, gan gynnwys y newyddion, yn ogystal â chadw i fyny ag operâu sebon a rhaglenni cyfoes eraill. Roedd rhai cyfranogwyr yn ystyried y BBC fel darparwr cynnwys 'diogel' neu ddibynadwy, tra bod eraill yn mynegi amheuaeth am yr holl gyfryngau prif ffrwd. Y teimlad oedd y gallai oedolion a ddewisodd gael trwydded deledu gyflawni lefel foddhaol o fynediad at raglenni, ffilmiau a newyddion cyfredol, gyda'r drwydded yn cwmparu cynnwys byw ac opsiynau'r BBC, yn ogystal â sianeli ac apiau Freeview fel ITVX neu Pluto TV. Ar y llaw arall, dadleuodd grwpiau na fyddai angen trwydded deledu ar bobl nad oeddent yn dymuno gwyllo teledu byw neu gael mynediad at gynnwys y BBC ac y byddent yn cael mwy o werth o wasanaeth tanysgrifio fel adloniant, a oedd yn cael ei ystyried fel rhan o'r newid tuag at wyllo cynnwys mwy unigol.

Dwi'n credu ei fod yn newid yn dibynnu ar y grŵp oedran mae'n siŵr, dwi'n credu bod rhywun yn ei 30au yn debygol o fod angen tanysgrifiad... oherwydd ein bod yn sôn am gynhwysiant, mae'n debyg na fyddent yn siarad am yr un sioeau felly dwi'n cymryd y byddai'r rheini ar deledu daearol ... dwi'n meddwl ei fod yn mynd yn ôl ystod oedran i raddau mwy na dim ond o 18 i 60. Dwi'n credu bod yna sefyllfaoedd lle byddai'n angenrheidiol yn hytrach nag yn rhywbeth y mae rhywun yn ei ddymuno neu ei eisïau.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

Ar gyfer aelwydydd â phlant, ni wnaeth y grwpiau newid cynnwys trwydded deledu a gwasanaeth tanysgrifio lefel mynediad fel y nodir yn y MDLS cychwynnol a gyhoeddwyd yn 2024. Cafodd y BBC ei grybwyll mewn perthynas â theledu plant iau a'r gallu i wyllo teledu byw gyda'i gilydd, gan gynnwys chwaraeon. Yn y cyfamser, nododd rhieni bwysigrwydd gwasanaeth tanysgrifio hefyd ar gyfer gwyllo fel teulu a sut mae'n helpu plant i deimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn trafodaethau am y rhaglenni diweddaraf sy'n 'trendio'.

Mae fy rhai i yn eu harddegau felly anaml iawn rydyn ni'n eu gweld nhw ond un o'r pethau y gallwn ni eu perswadio i'w wneud weithiau yw dod i lawr a gwyllo rhywbeth gyda'n gilydd.... Mae'r ffordd y mae cynnwys teledu yn dod allan nawr, mae pethau'n mynd yn feiral felly'r drefn yw bod pawb yn siarad am beth bynnag yw'r peth diweddaraf i gael ei ryddhau ar Netflix fel y peth Squid game yna neu beth bynnag mae'n mynd yn wallgo ymhlith eu holl ffrindiau, ac mae yna gymaint o gynnwys TikTok cysylltiedig ... mae'n ffenomen.

(Grŵp gwledig rhieni)



Cafodd cynnwys gwasanaeth tanysgrifio ei godi fel rhywbeth mwy gwerthfawr o bosibl i rai pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae llai o gyfleoedd i gael adloniant yn y cnawd gerllaw. Nododd sawl cyfranogwr fudd cynnwys ychwanegol o ran y teledu hefyd gyda thanysgrifiad Amazon Prime, ac roedd hwn yn opsiwn defnyddiol i rai mewn ardaloedd gwledig.

Menyw 1: Os ydych chi'n byw yng nghefn gwlad, dwi'n meddwl bod angen mwy o adloniant arnoch chi oherwydd fedrwyd chi ddim mynd i lefydd i wyllo drama, i theatr neu sinema, unrhyw beth fel 'na, mae angen rhywbeth arall arnoch chi yn lle hynny ...

Menyw 2: Wel ie, oherwydd mae'n dipyn o siwrne ... dwi'n defnyddio Netflix, a dwi'n defnyddio Prime ac ati oherwydd fy mod i'n teimlo mai fy adloniant i yw e ac mae'n gwneud bywyd yn fwy dymunol mewn gwirionedd.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

Gan fod yna fwy o ffyrdd o wyllo rhaglenni teledu a chynnwys ffrydio ar gael nawr, roedd rhai cyfranogwyr o wahanol grwpiau yn teimlo bod y rheolau a'r gofynion ar gyfer y drwydded deledu yn ddryslyd. Yn benodol, roedd ansicrwydd ynghylch a ellid gwyllo cynnwys ar ddyfais heblaw teledu.

Rhaid ystyried y canfyddiadau hyn hefyd mewn perthynas ag ymchwil barhaus arall mewn meysydd fel ymddiriedaeth yn y cyfryngau a datblygiadau darlledu yn y dyfodol. Mae ymchwil gan aelodau'r tîm (Yates, et al, 2021; Yates a Carmi, 2022; 2024) yn nodi bod gan unigolion â llythrennedd is o ran y cyfryngau, materion digidol a data lai o ymddiriedaeth yn y cyfryngau prif ffrwd a'u bod yn llai abl hefyd i ddirnad cynnwys mwy dibynadwy. Mae gan y cyfuniad hwn o lythrennedd digidol isel ac ymddiriedaeth isel gysylltiad cryf â mynediad at y rhyngwrdd drwy ffôn clyfar yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn berthnasol i'r newid disgwylidig i gyflenwi teledu (IP yn unig) drwy 'brotocol y rhyngwrdd' yn unig, gyda theledu'n cael ei ddarparu trwy fand eang yn unig ac nid 'dros yr awyr' trwy drosglwyddyddion. Mae'n bosibl y bydd y trawsnewidiad hwn yn digwydd yng nghanol y 2030au ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan lywodraeth y DU (gweler: <https://www.gov.uk/government/publications/future-of-tv-distribution-audience-research>). Gallai'r newid hwn danseilio rhagdybiaethau ynghylch rhwyddineb defnydd a hygyrchedd uniongyrchol teledu a fynegir yn ein grwpiau.

3.1.5 Gemau

- **Mynediad at gemau ar-lein ar gyfer aelwydydd â phlant saith oed a hŷn**

Roedd rhieni a phobl ifanc yn cytuno ar bwysigrwydd darparu mynediad at gemau ar-lein i aelwydydd â phlant saith oed a hŷn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r MDLS cyfredol 2024 ar gyfer aelwydydd â phlant. Gwnaed dadleuon tebyg ynglŷn â'r arwyddocâd i gynhwysiant cymdeithasol plant, er bod yr oedran y tybiwyd ei bod yn angenrheidiol i blant ddechrau chwarae gemau ar-lein wedi'i addasu ychydig (o 'oedran cynradd' i saith oed a hŷn). Mae gallu chwarae gemau ar-lein gydag eraill yn cael ei weld fel ffordd allweddol o ddod ynghyd a chwarae (yn rhithwir) gyda ffrindiau. Er bod rhieni wedi mynegi pryderon am ddiogelwch ar-lein (gweler Pennod 4), maent yn cytuno y gall mynediad at gemau ar-lein fod yn hanfodol ar gyfer cynhwysiant plant, gan eu hatal rhag teimlo eu bod yn cael eu gadael allan, ac ar gyfer meithrin cyfeillgarwch.

Menyw 1: Dydw i ddim yn meddwl bod llawer o blant yn chwarae gemau arferol nawr ydyn nhw, heb fod ar-lein? Dwi'n gwybod, dyw fy rhai i ddim yn rhyw lawer...

Menyw 2: ... Dwi'n meddwl mai'r ochr gymdeithasol o chwarae'r gemau gyda ffrindiau, yw e, yn te? Y sgwrsio hefyd. Mewn ffordd, mae'r gemau yn esgus iddyn nhw ddod at ei gilydd a chymdeithasu a siarad ac yn aml iawn maen nhw yn y pen draw yn siarad am yr ysgol neu beth maen nhw'n mynd i'w wneud ar y penwythnos.

(Grŵp rhieni, Newcastle)

Nododd rhieni mewn ardaloedd gwledig werth cynyddol gemau fel modd i'w plant gymdeithasu, lle mae llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wyneb-yn-wyneb neu gwrdd â ffrindiau sy'n byw ymhellach i ffwrdd.

Roedd gen i ffrindiau drws nesaf felly roedd hynny'n wahanol iawn ac roedd hynny cyn yr holl oes ddigidol, ond os yw eich ffrindiau yn rhywle arall, dyw e ddim mor hawdd taro heibio. Felly mae'n ffordd gyfleus sy'n helpu.

(Grŵp gwledig rhieni)

Fel y nodwyd yn ein MDLS cychwynnol ar gyfer aelwydydd â phlant, nid ydym wedi nodi dull penodol o fynediad at gemau. Cytunodd y grwpiau ar hyn gan nodi y bydd yn amrywio yn ôl oedran, diddordebau ac amgylchiadau'r plentyn. Nid oes rhaid iddo fod yn gonsol o reidrwydd – gyda hynny'n haws am fod llawer o gemau bellach yn rhai aml-blatfform. Gellir cael mynediad

trwy gonsol sylfaenol, gliniadur addas, cyfrifiadur personol bwrdd gwaith, llechen, neu ffôn clyfar, ar yr amod bod cysylltiad rhwyngwyd digonol ar gael. Er i'r grwpiau oedran gweithio drafod sut y gallai rhai oedolion fod o ddifrif ynglŷn â chwarae gemau, eu teimlad oedd bod hyn yn fwy o ddewis neu ddiddordeb unigol nag o angen i gael eu cynnwys yn y MDLS.

3.1.6 Clustffonau

- **Set o glustffonau i blant oedran ysgol**

Mae set o glustffonau wedi'u cynnwys ar gyfer plant oedran ysgol i helpu gyda chanolbwyntio, megis ar gyfer gwneud gwaith cartref ar aelwyd brysur neu wrando ar gerddoriaeth gan darfu cyn lleied â phosibl ar aelodau eraill o'r teulu.

3.2 Cysylltiad rhwyngwyd – band eang cartref a data symudol

Roedd pob grŵp yn cytuno ar bwysigrwydd cael cysylltiad rhwyngwyd dibynadwy a chadarn, trwy gyfuniad o fand eang cartref a data symudol.

- **Band eang cartref – gyda digon o ddibynadwyedd a chyflymder i gefnogi mynediad at y rhwyngwyd i holl aelodau'r aelwyd ar yr un pryd**

Ac

- **5GB i 15GB y mis o ddata symudol ar gyfer pob unigolyn sydd â'i ffôn clyfar ei hun – digon i gynnwys mynediad at wasanaethau hanfodol a chysylltiad cymdeithasol rhesymol, gan dybio band eang cartref.**
- **Ar gyfer aelwydydd heb blant - yr opsiwn o ddata symudol diderfyn yn hytrach na band eang cartref os oes ganddynt gysylltiad symudol dibynadwy.**

Ar y cyfan, roedd band eang yn cael ei ystyried fel y dull mwyaf dibynadwy o gael cysylltiad rhwyngwyd yn y cartref. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i aelwydydd â phlant, gan alluogi sawl aelod o'r teulu i fod ar-lein ar yr un pryd heb orfod cyfyngu ar eu defnydd neu brofi oedi, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau fel ffrydio cynnwys cyfryngol neu chwarae gemau, sy'n gofyn mwy o'r cysylltiad.

Fe wnaethon ni symud tua dwy flynedd yn ôl o dŷ a oedd, wel doedd y cysylltiad rhwyngwyd ddim yn ofnadwy, roedd yn ddigon da i mi ond i'r [mab] roedd symud ymlaen i Ffeibr tua 30 gwaith yn gyflymach medda fo ... sy'n wahaniaeth dramatig iddo fo. Unwaith eto, mae'n golygu mai mater o fedru cymdeithasu ac ati yw hyn, mae bellach yn gallu chwarae gemau gyda rhai o'i ffrindiau, roedd o wedi'i adael allan o'r blaen oherwydd doedd ei gysylltiad ddim yn ddigon da.

(Grŵp gwledig rhieni)

Nododd grwpiau heb blant yr angen am gyflymder a dibynadwyedd digonol hefyd, yn enwedig wrth gymryd rhan mewn galwadau fideo ar-lein. Mae galwadau a chyfarfodydd ar-lein yn gofyn am gysylltedd dibynadwy, boed ar gyfer gwaith (mae ychydig o sefydliadau yn darparu band eang cartref ar gyfer eu gweithwyr), i ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau eraill, neu i gysylltu â theulu. Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau oedran pensiwn yn tueddu i deimlo'n fwy diogel gyda chysylltiad band eang, ond roeddent hefyd yn cydnabod nad oedd ar gyfer eu hanghenion unigol nhw yn unig. Gallai cael Wi-Fi digonol fod yn angenrheidiol hefyd ar gyfer bywyd teuluol estynedig, er enghraifft, pan fyddai perthnasau'n ymweld, yn enwedig wyrion.

Dyn 1: Dwi'n credu ei fod yn hanfodol i'r wyrion.

Dyn 2: Os nad oedd gennym ni fand eang, fe fydden nhw'n gadael.

Menyw: ... Neu fe fydden nhw'n eistedd yno'n dweud, dwi'n 'bored', does gen i ddim byd i'w wneud, a dyna sut y mae hi gyda phlant bellach.

Dyn 3: Mae gen i dri o wyrion sy'n byw [i ffwrdd], a phan fyddan nhw'n dod acw, y peth cyntaf maen nhw'n ei ofyn yw, ydych chi wedi newid eich cyfrinair?

(Grŵp oedran pensiwn, Oldham)

Roedd grwpiau yn cydnabod y dewis cynyddol o ran cysylltedd y cartref. Trafododd rhai cyfranogwyr, yn enwedig y rhai heb blant, eu profiadau a'r posibilrwydd o ddefnyddio data symudol yn hytrach na band eang.

Dyn 1: Does gen i ddim band eang, ond mae gen i ddata diderfyn ar fy ffôn.

Dyn 2: Does dim angen i'ch llwybrydd fod wedi'i gysylltu â band eang ffeibr o reidrwydd, mae'n well os yw e, ond wrth i dechnoleg symud ymlaen, yn enwedig gyda datblygiad 5G, gallai'r llwybrydd hwnnw fod wedi'i gysylltu â rhwydwaith symudol hefyd.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Y teimlad oedd y gallai dibynnu ar ddata symudol yn unig fodloni anghenion rhai aelwydydd ac felly dylid ei gynnwys fel opsiwn yn y MDLS lle gellid darparu mynediad band eang trwy ddata symudol ar ddyfais Wi-Fi neu ffôn clyfar 'tethered'. Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr y byddai hyn yn gofyn am ddata symudol diderfyn, ac yn fwyaf hanfodol, cysylltiad symudol cryf gyda digon o ddibynadwydd a chyflymder i gefnogi mynediad pob aelod o'r aelwyd at y rhwydwaith ar yr un pryd, gyda hynny'n amrywio yn ôl maint yr aelwyd a'r math o ddefnydd. Fel arall, roedd pryderon ei fod yn peryglu cysylltedd annigonol.

Dyn 1: Roedd gen i [ddata] diderfyn felly doedd e ddim yn broblem ond ... roedd yn llenwi angen, doedd e ddim o reidrwydd y peth mwyaf ymarferol yn y byd, byddai'n rhaid i fy ffôn fod yn gwefru'n barhaus neu fe fyddai'n marw.

Menyw: Mae'r llecyn Wi-Fi yn diflannu drwy'r amser felly i mi... dyw e ddim yn gyfleus.... Ond fe allwch chi gerdded i mewn i'ch tŷ, mae eich ffôn clyfar yn gweithio os oes gennych chi Wi-Fi, mae eich ffôn ar y rhwydwaith, mae eich gliniadur ar y rhwydwaith, mae popeth yno ar unwaith...

Dyn 2: Dwi'n credu mai mater o ddewis personol yw e. Os yw e'n gweithio iddyn nhw i beidio â chael Wi-Fi yna mae hynny'n wych, ond dwi'n credu yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd lle mae yna nifer o ddyfeisiau yn y tŷ neu lawer o bobl, bydd angen Wi-Fi fwy na thebyg i'r cyfan redeg yn effeithlon...

Dyn 3: Mae'n dibynnu pa ddyfeisiau sydd gennych chi yn eich tŷ...

Dyn 1: Ydy, efallai y bydd ychydig o byffro ond byddai'n gweithio.

Menyw: Ond dydw i ddim yn credu ein bod ni'n goddef byffro yn yr oes sydd ohoni... Dwi ddim yn meddwl bod byffro yn dderbyniol. Dwi'n credu bod hynny'n anfodhaol.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Mae gan grwpiau mewn ardaloedd gwledig yr un angen am ryngwyd dibynadwy ond maent yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig ag ansawdd cysylltiadau band eang, dewisiadau cyfyngedig o ran darparwyr, a signal ffôn symudol gwael (gweler Pennod 4). Gall diffyg band eang digonol mewn ardaloedd gwledig gynyddu'r angen am ddata symudol ychwanegol wrth ei ddefnyddio gartref yn hytrach na Wi-Fi, a/neu olygu bod angen talu am ffordd o amgylch y broblem, fel estynwyr i geisio gwella cyflymder Wi-Fi yn y cartref, neu gysylltiad lloeren Starlink fel dewis arall.

Rydyn ni wedi gorfod talu i gael estynwyr a gwahanol ddyfeisiau y mae modd eu plygio i mewn o amgylch ein cartref, gyda'r ddau ohonom ni'n gweithio gartref. Mae'n wirioneddol hanfodol ac yna yn amlwg ar ôl 3 o'r gloch nid yn unig y mae'r ddau ohonom ni'n gweithio gartref ond yna mae ein plant yn dod adref felly mae gwir angen amdano, ac mae'n rhaid i ni dalu i gael y math o gyflymder i gael y mynediad.

(Grŵp gwledig rhieni)

Ar y llaw arall, mae signal symudol gwael neu absennol yn gwneud band eang dibynadwy yn bwysicach nag erioed, gan ei fod yn angenrheidiol ar gyfer galwadau Wi-Fi pan na all pobl gael mynediad at signal symudol.

Gan dybio bod band eang cartref yn darparu cysylltedd rhwydwaith, trafododd grwpiau anghenion data symudol aelodau'r aelwyd ar gyfer lefel dderbyniol o gysylltiad y tu allan i'r cartref, er mwyn cadw pobl mewn cysylltiad ac i'w hatal rhag rhedeg allan o ddata yn rheolaidd. Er bod pennu union swm yn heriol, nododd y grwpiau sawl egwyddor ar gyfer isafswm derbyniol o ran y defnydd o ddata. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cael digon i gael mynediad at apiau hanfodol a gwasanaethau ar-lein wrth fynd a dod – fel mapiau a llywio, trafnidiaeth/amserlenni, parcio ceir, siopa a bancio. Nododd rhieni bwysigrwydd defnyddio apiau lleoliad, apiau trosglwyddo arian a chael mynediad at apiau ysgol wrth fynd a dod.
- Cael digon i gynnal cysylltiadau cymdeithasol, gallu rhannu negeseuon 'yn y foment', a gwyllo neu wrando ar gynnwys digidol byr, ond nid i ffrydio neu wyllo fideos drosodd a throsodd.
- Defnyddio Wi-Fi am ddim lle bo hynny ar gael, yn ddibynadwy ac yn ddiogel.

- Bod yn ymwybodol o'r defnydd o ddata.

Ystyrir bod data sy'n amrywio o 5GB i 15GB y mis ar gyfer pob unigolyn sydd â'i ffôn clyfar ei hun yn ddigonol ar gyfer isafswm lefel dderbyniol ar draws aelwydydd, er y bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar ddiddordebau aelwydydd ac unigolion a mynediad at Wi-Fi. Nid yw'r rhan fwyaf o weithgareddau a ddisgrifir gan gyfranogwyr yn ddwys iawn o ran data, a'r prif fater sy'n effeithio ar y defnydd o ddata symudol yw maint y defnydd o gynnwys digidol a sut mae hyn yn amrywio rhwng unigolion. Er enghraifft, awgrymir lefelau data ar ben uchaf yr ystod hon ar gyfer grwpiau oedran gweithio heb blant, er mwyn galluogi rhywfaint o sgrolio ar y cyfryngau cymdeithasol a/neu wrando ar gerddoriaeth, er enghraifft, wrth gymudo neu yn y gampfa. Roedd grwpiau oedran pensiwn yn teimlo y byddai lefelau data yn yr ystod isaf yn ddigonol ar gyfer cyrchu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol wrth fynd a dod. Mae anghenion a defnydd plant o ddata yn esblygu wrth iddynt dyfu'n hŷn – er bod 5GB y mis yn cael ei ystyried yn ddigonol pan fydd ganddynt ffôn am y tro cyntaf, wrth iddynt ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cysylltu neu negeseuon, mae eu defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol yn codi'r galw am lefelau data uwch wrth iddynt dreulio mwy o amser y tu allan i'r cartref yn annibynnol. Mae rhieni a phobl ifanc yn sylwi bod gallu gwyllo neu rannu fideo neu TikTok gyda ffrindiau yn bwysig ar gyfer cynhwysiant o fewn lefel dderbyniol, ac mae hyd at 15GB yn cael ei ystyried yn fwy realistig.

Roedd cyfranogwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd ystyried faint o ddata y gallai rhywun fod ei angen, oherwydd bod ganddynt gynlluniau data mawr neu ddiderfyn eu hunain, ac felly nad oedd yn rhaid iddynt fonitro eu defnydd neu fod yn ymwybodol o faint o ddata y gallai gweithgaredd penodol ei ddefnyddio. Roedd hyn yn ymddangos yn fwy amlwg nag yn yr astudiaeth MDLS flaenorol a gynhaliwyd ychydig dros ddwy flynedd ynghynt, gyda chyfranogwyr yn nodi sut mae cost data wedi gostwng, gan ddylanwadu ar agweddau unigolion tuag at y defnydd o ddata.

Dyn 1: Dwi'n cofio ychydig flynyddoedd yn ôl pan nad oedd gan lawer o bobl fawr ddim data ar eu ffonau. Allwn ni ddim dweud wrthyh chi y tro diwethaf i mi ddiffodd y data, rydych chi'n gwybod ei fod ar gael o hyd, ond dwi'n cofio pum mlynedd yn ôl byddwn i'n ei danio, yn ateb neges, ac yna'n ei ddiffodd oherwydd doeddwn i ddim eisiau ei ddefnyddio i gyd ond nawr mae'n llawer rhatach cael llawer mwy.

Menyw: Mae e'n fwy fforddiadwy.

Dyn 1: Oherwydd roeddech chi'n arfer cael 500MB o ddata ond doeddech, neu rywbeth tebyg

Dyn 2: Yna unwaith y byddech chi'n rhedeg allan roeddech chi'n feudwy fwy neu lai ...

Dyn 1: Erbyn hyn dwi'n meddwl fod gen i tua 50Gb am £8 y mis neu rywbeth felly.... Dyn

2: Fyddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod faint o ddata dwi'n ei ddefnyddio.

Menyw: Does gen i ddim syniad nes i chi ddangos i ni, ac mae'n llawer mwy nag y byddwn i wedi meddwl.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Trafododd grwpiau gwledig y gallai fod yna angen cynyddol am ddata symudol oherwydd mynediad cyfyngedig at Wi-Fi cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, pryderon am redeg allan o ddata mewn lleoliadau ynysig, a'r pellteroedd mwy sydd eu hangen ar gyfer teithio. Mae hyn yn arbennig o wir am blant sy'n treulio amser yn teithio ar fysiau i'r ysgol ac o'r ysgol, gan ddefnyddio eu ffonau o bosibl ar gyfer gemau neu i wneud eu gwaith cartref yn ystod y daith. Fodd bynnag, gallai bodloni'r galw hwn fod yn heriol, oherwydd gallai signal ffôn symudol cyfyngedig gyfyngu ar fynediad pobl at ddata a faint y gallant ei ddefnyddio.

Tabl 1. Nwyddau, gwasanaethau a chysylltiad y MDLS ar draws aelwydydd

Nwyddau a gwasanaethau digidol	
Band eang cartref	• Gyda digon o ddibynadwyedd a chyflymder i gefnogi pob aelod o'r aelwyd i gael mynediad at y rhyngrwyd ar yr un pryd NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref
Ffôn symudol a data symudol	• Un ffôn clyfar lefel mynediad i bob oedolyn, a (HWC) ar gyfer pob plentyn sy'n teithio ac yn cymdeithasu'n annibynnol* • 5GB i 15GB o ddata symudol bob mis ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sydd â'u ffôn symudol eu hunain NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref
Dyfais sgrin fawr	• Un ddyfais sgrin fawr (gliniadur, llechen neu gyfrifiadur personol) ar gyfer pob aelwyd • (HWC) Mae rhiant/rhieni a'i/a'u blentyn cyntaf yn rhannu un ddyfais sgrin

	<i>fawr, gyda dyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oedran ysgol ychwanegol</i>
Teledu a gwylio	• Un teledu (neu ddyfais sgrin fawr y gellir gwylio teledu arni) ar gyfer pob aelwyd • Trwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad ar gyfer pob aelwyd • (HWC) trwydded deledu YNGHYD â gwasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad*
Llinell dir	• <u>(PAH) Opsiwn ar gyfer llinell dir mewn ardaloedd â signal symudol gwael*</u>
Gemau	• (HWC) Mynediad at gemau ar-lein ar gyfer plant saith oed a hŷn; nid oes angen offer ychwanegol ar ei gyfer o reidrwydd*
Clustffonau	• (HWC) Set o glustffonau ar gyfer plant oedran ysgol*

Allwedd: Llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu – aelwydydd oedran pensiwn neu hŷn (PAH)

Llythrennau italig – aelwydydd â phlant dibynnol (HWC)

3.3 Gwybodaeth a Sgiliau Digidol

Er bod nwyddau a gwasanaethau yn hwyluso mynediad digidol, mae gwybodaeth a sgiliau yr un mor hanfodol ar gyfer defnyddio dyfeisiau digidol yn effeithiol a diogel. Trafododd grwpiau y mathau o wybodaeth a sgiliau digidol sy'n ofynnol ar gyfer y MDLS. Er y gallai person bob amser ddysgu mwy a bod angen sgiliau digidol arbenigol, fel y rhai ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, pwrpas y grwpiau oedd sefydlu isafswm lefel dderbyniol. Mewn geiriau eraill, lefel o ymgysylltu sy'n gymwys i bob aelwyd yn gyffredinol, gan eu galluogi i ddefnyddio technolegau digidol ar gyfer eu gweithgareddau amrywiol ond beunyddiol. Tynnodd grwpiau ar eu profiadau o gyfranogiad cymdeithasol a diwylliannol, hyfforddiant ac addysg, a gweithgareddau economaidd i ddangos sut y cymhwysir gwahanol sgiliau digidol.

Trefnwyd penderfyniadau'r grwpiau ar wybodaeth a sgiliau digidol yn ddau gategori: y gweithredol a'r hanfodol. Gan gydnabod y gorgyffwrdd rhwng y ddau gategori rhyngddibynnol hyn, mae'r gweithredol yn cynnwys yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer mynd ar-lein a defnyddio dyfeisiau i gyflawni tasgau a gweithgareddau bob dydd, tra bod yr hanfodol yn pwysleisio'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelwch a llesiant digidol.

Wrth amlinellu'r holl sgiliau gweithredol a hanfodol, mae'r testun yn tynnu ar enghreifftiau penodol a gafwyd gan aelwydydd i ddangos eu hystyr ym mywydau bob dydd pobl. Ar yr un pryd, trwy'r broses ymgynghori, consensws y grwpiau oedd bod angen yr holl sgiliau a gwybodaeth a restrir ar yr aelwydydd sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon.

3.3.1 Gwybodaeth a sgiliau gweithredol

Gan fod llawer o agweddau ar fywyd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ni fynd ar-lein, mae'r gallu i weithredu a defnyddio technoleg ddigidol wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithgareddau bob dydd. Mae'r wybodaeth a'r sgiliau sydd wedi'u cynnwys yma yn cael eu hystyried yn weithredol gan eu bod yn gofyn am fewnbwn ymarferol (e.e., defnyddio ap neu lenwi ffurflen ar-lein) ac maen nhw'n arwain at allbynnau bywyd go iawn defnyddiol (e.e., apwyntiad meddygol neu gwblhau cais am swydd). Mae gwybodaeth a sgiliau gweithredol, felly, yn ymwneud â'r tasgau a'r gweithgareddau y maent yn galluogi person i'w cyflawni. Mae'r gwahanol sgiliau yn cael eu categorïddio yn ôl y rhai sy'n galluogi person i gysylltu ('sefydlu'), cyflawni tasgau ('ymgymryd â thasgau a gweithgareddau'), a chynnal ymgysylltiad digidol ('cynnal dyfeisiau a chysylltiad').

Tabl 2 Gwybodaeth a sgiliau gweithredol

Gwybodaeth a sgiliau gweithredol	
Sefydlu (dyfeisiau a chysylltiad)	- Defnyddio swyddogaethau dyfeisiau - Cysylltu â'r rhyngwrwyd - Newid gosodiadau ac opsiynau llywio
Gwneud tasgau a gweithgareddau ar-lein	- Chwilio'r rhyngwrwyd - Defnyddio apiau a rhaglenni - Llenwi ffurflenni ar-lein - Anfon a derbyn negeseuon e-bost - Gwneud taliadau ar-lein
Rheoli a chynnal a chadw (dyfeisiau a chysylltiad)	- Monitro a chynnal lle storio ar ddyfeisiau - Rheoli a monitro data symudol



3.3.1.1 Sefydlu

Mae'r maes hwn yn dwyn ynghyd y mathau o wybodaeth a sgiliau yr oedd llawer yn eu hystyried yn 'wirioneddol sylfaenol' (Grŵp Rhieni, Newcastle). Mae 'sefydlu' yn cynrychioli cyfres wahanol o swyddogaethau a fyddai'n galluogi person i ymgysylltu ar-lein ac yn ddigidol: rhoi dyfais ymlaen/ei diffodd, newid lefel sŵn dyfais, llywio a newid gosodiadau ac opsiynau a chysylltu dyfeisiau â'r rhyngrwyd.

• Defnyddio swyddogaethau dyfeisiau a chysylltu â'r rhyngrwyd

Mae gallu defnyddio dyfeisiau a'u cysylltu â'r rhyngrwyd yn sgiliau sylfaenol ar gyfer ymgysylltu digidol. Maent yn adlewyrchu'r angen i fod yn gyfarwydd â dyfeisiau a chysylltedd, gan alluogi person i symud yn hyderus ac yn hyblyg o un ddyfais neu o un math o gysylltedd i'r llall.

Gallai grwpiau weld na fyddai pawb yn gweld y sgiliau hyn yn rhai hawdd i'w caffael. Pensiwn-dyweddod grwpiau oedran a grwpiau oedran gweithio y gallai cadw i fyny â thechnoleg sy'n newid fod yn fwyfwy anodd i lawer yn eu cohortau, yn enwedig os oedd llawer o amser wedi mynd heibio ers iddynt weithio neu dderbyn hyfforddiant newydd. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn uniaethu â hyn yn bersonol hefyd.

Mae angen i chi wybod beth yw'r holl symbolau bach rydych chi'n clicio arnyn nhw i wneud beth rydych chi am ei wneud... Ar liniadur, er enghraifft, neu gyfrifiadur personol, mae angen i chi fynd yn ôl i... seinyddion, sut i roi'r sain yn uwch ac yn is... sut i glicio ar eich negeseuon e-bost, sut i... [pan] fydd pethau'n ymddangos dydych chi ddim eisiau eu gweld, sut i gael gwared arnyn nhw, ac mae yna lawer o symbolau, ac efo'r rheiny... wel doeddwn i ddim yn gwybod beth oedden nhw.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Rydych chi'n cael ffôn cenhedlaeth newydd neu rydych chi'n cael llwybrydd newydd.. a dyw'r mellthith peth ddim yn gweithio... Cyfrifiadureg oedd fy ngradd gyntaf felly does gen i ddim hawl methu'n lân â deall rhywbeth ond bob tro dwi'n symud ymlaen i ddyfais newydd dwi ar goll yn llwyr a dwi'n methu'n glir a chael y mellthith peth i weithio.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

• Newid gosodiadau ac opsiynau llywio

Mae sefydlu yn llwyddiannus hefyd yn golygu y gall person addasu opsiynau a gosodiadau i greu'r profiad gorau ar ei gyfer ef neu hi yn bersonol. Ar gyfer grwpiau, roedd hyn yn cynnwys newid y nodweddion chwarae'n ôl ar YouTube a rheoli sut mae ap yn anfon hysbysiadau neu'n olrhain lleoliadau defnyddwyr. Yn achos dyfeisiau, roedd yn ddefnyddiol i bobl allu newid disgleirdeb eu sgrin neu, fel y nodwyd gan unigolion yn y grwpiau oedran pensiwn, addasu maint ffont a gosodiadau hygyrchedd er mwyn gwell ei ymarferoldeb.

3.3.1.2 Ymgymryd â thasgau a gweithgareddau

Boed ar gyfer hamdden, cymdeithasu, datblygiad personol, neu er mwyn cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau, mae ymgysylltu digidol yn ymwneud â'r hyn y mae'n galluogi person i'w wneud a'i gyflawni. Gallai'r sgiliau sydd wedi'u cynnwys yma gefnogi'r gweithgareddau hyn yn uniongyrchol. Rhaid defnyddio porwr rhyngrwyd ar gyfer llawer o dasgau bob dydd, lawrlwytho cais, ei lywio, neu ddefnyddio e-bost, galwadau fideo, a ffurflenni ar-lein. Nododd pob grŵp yn gyffredinol bod gwasanaethau hanfodol a beunyddiol wedi'u digideiddio.

Mae'n cael ei orfodi arnoch chi. Mae gen i ap y GIG ar fy ffôn nawr oherwydd mae'n rhaid i mi ei gael o. Roeddwn i'n arfer gallu mynd at feddyg [a] chael presgripsiwn, nawr mae'n rhaid i mi wneud hynny ar yr ap.

(Grŵp oedran pensiwn, Oldham)

Roedd dealltwriaeth fod y detholiad o wybodaeth a sgiliau gweithredol sy'n ofynnol yn tyfu'n gyson i addasu i newidiadau ac ymgorffori mwy o dechnoleg (gweler trafodaeth bellach am hyn ym Mhennod 4). Roedd hyn yn amlwg mewn dau faes – Deallusrwydd Artiffisial (AI) a chodau Ymateb Cyflym (QR) – nad oeddent yn cael eu crybwyll yng ngrwpiau'r MDLS cychwynnol yn 2022 ond a godwyd ar draws gwahanol fathau o aelwydydd yn yr ymchwil gyfredol. Roedd AI cynhyrchiol yn cael ei nodi fel enghraifft o'r dechnoleg sy'n newid a'r sgiliau sydd eu hangen. Yn enwedig ar gyfer asesu pa mor briodol ydyw ar gyfer tasg, yn ogystal â'i ddefnyddio fel offeryn, gydag ymatebion a dealltwriaeth cymysg ymhlith cyfranogwyr.

Merch 1: Weithiau rydyn ni'n ei ddefnyddio yn ein gwersi gwyddoniaeth, cyn asesiadau, ac yn

ei ddefnyddio i adolygu. Rydyn ni'n defnyddio'r sgwrsfotiaid weithiau, sy'n ein helpu i adolygu...

Merch 2: Dydw i ddim bob amser yn hoffi defnyddio AI ar gyfer popeth. Dydw i ddim eisiau cael fy rheoli ganddo, rydych chi'n gorfod ei ddefnyddio i wneud gwaith ysgol pan allech chi chwilio am yr wybodaeth eich hun yn lle hynny. .. Fe allwch chi fynd i'r arfer o'i ddefnyddio trwy'r amser.

(Grŵp pobl ifanc)

Dwi hyd yn oed wedi ei weld mewn CVs hefyd. Mae CVs yn cyrraedd ac rydych chi'n eu darllen ac yn cwrdd â'r person ac yn meddwl, dydych chi ddim byd tebyg i'r person hwn.

(Grŵp rhieni, Bryste)

Dwi'n ei ddefnyddio drwy'r amser ... dwi'n credu ei fod yn wych, pan gawsom y rhyngwrwyd i ddechrau roedd pawb yn dweud, o mae hyn yn ormod, mae'n mynd i newid popeth, ond dwi'n teimlo mai cam arall yw e i'r cyfeiriad technoleg y mae pobl yn nerfus yn ei gylch, ond dwi'n credu bod ganddo'i rinweddau.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

Roedd codau QR yn enghraifft arall, ac er eu bod yn cael eu hystyried fel pethau cyfleus, roedd cydnabyddiaeth bod diffyg cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio.

Mae fy ngwaith yn defnyddio llawer ohonyn nhw [codau QR]. Maen yna ddalennau i fynny yn yr ystafell staff ac os ydych chi eisiau mynd ar rai pethau, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r codau hyn.

(Grŵp Rhieni, Newcastle)

Yn yr ysgol, maen nhw'n rhoi cod QR ar y bwrdd ac os ydych chi'n ei sganio, mae'n mynd â chi at gwis neu ryw beth felly.

(Grŵp pobl ifanc)

Menyw 1: Felly, pan fydd y cod QR yn eich ffotograffau a chithau'n tynnu llun ohono, beth nesaf?

Menyw 2: Dydych chi ddim yn tynnu llun ohono, rydych chi'n rhoi eich camera dros y QR.

Menyw 1: Dydych chi ddim yn tynnu llun?

Menyw 2: Peidiwch â thynnu llun. Bydd yn mynd â chi ar eich ffôn at saffari lle mae'n agor ac fe gewch chi ragor o wybodaeth am beth i'w wneud.

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

• Chwilio'r rhyngwrwyd

Mae chwilio ar y rhyngwrwyd yn ganolog i lawer o weithgareddau dyddiol. Wrth ddisgrifio bywyd ysgol, dywedodd pobl ifanc eu bod yn aml yn defnyddio chwiliadau ar y rhyngwrwyd i ddod o hyd i adnoddau i gwblhau eu gwaith cartref. Roedd pob grŵp yn gweld gwerth mewn defnyddio porwyr rhyngwrwyd yn llwyddiannus i ateb cwestiynau penodol, a chafodd cefnogi datblygiad sgiliau digidol ei amlygu (gweler Pennod 4). Ar draws pob grŵp, roedd cyfranogwyr yn defnyddio chwiliadau rhyngwrwyd i ddatrys ymholiadau digidol (megis sut i ddefnyddio meddalwedd neu ddyfais newydd). I rai o'r cyfranogwyr oedran pensiwn, roedd cael eu cyflwyno i borwyr rhyngwrwyd am y tro cyntaf yn garreg filltir arwyddocaol yn natblygiad eu sgiliau a'u hannibyniaeth ddigidol.

Fy ŵyr sydd wedi fy nysgu i, fo roddodd fi ar-lein am y tro cyntaf, a dyma fi'n dweud, beth ydw i'n ei wneud? Google meddai yntau. Be ti'n feddwl Google medda finna? Dywedodd wedyn, unrhyw beth dydych chi ddim yn ei wybod, peidiwch â ffonio fi nain, ewch ar Google ac os nad ydy Google yn gweithio, ffoniwch fi ac mi wna i siarad â chi. Dwi heb edrych yn ôl unwaith.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

- **Defnyddio apiau, rhaglenni, ffurflenni ar-lein ac e-bost**

Er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau digidol, mae angen i bobl fod yn hyderus ac yn fedrus wrth ddefnyddio amrywiaeth o apiau, rhaglenni, gwefannau a dulliau cyfathrebu. Mae llywio ac ymarferoldeb yn amrywio rhwng y gwahanol ryngwynebau hyn, felly er mwyn cyflawni tasgau yn llwyddiannus, rhaid gallu pontio o un i'r llall yn hyderus. Fel y disgrifiodd y grwpiau, roedd cwblhau tasgau bob dydd hefyd yn gofyn i rywun wybod am y mathau o apiau sy'n bodoli, er enghraifft, ar gyfer gwahanol weithgareddau a dealltwriaeth o 'alluoedd eu ffôn' (Grŵp oedran gweithio, Sheffield).

Disgrifiodd grwpiau amrywiaeth o raglenni cyfrifiadurol a ddefnyddiwyd ganddyn nhw, ar gyfer yr ysgol neu ar gyfer gwaith, hyfforddiant, gwirfoddoli a hobiau. Efallai y byddan nhw eisiau neu angen mynediad at amrywiaeth o apiau, fel ar gyfer teithio, bancio, defnyddio talebau, negeseua ac adloniant. Byddai gan bawb restr o wahanol apiau sy'n berthnasol i'w hanghenion, ond byddai'r egwyddorion sylfaenol o ran sgiliau yr un fath. Mae angen i bobl allu gosod a dadosod apiau a'u llywio i gael y canlyniad o'u dewis. Mae'n bosibl y byddai angen cyfrif cofrestredig hefyd ar lawer o apiau, felly mae e-bost yn elfen angenrheidiol ar gyfer gwirio a chysylltu: 'yn gyntaf oll, mae angen e-bost arnoch i wneud [unrhyw beth]'

(Oedran gweithio, Glasgow).

- **Gwneud taliadau ar-lein**

Rhan reolaidd o fywyd bob dydd, gyda'i wasanaethau mwy digidol, yw gwneud taliadau ar-lein. Disgrifiodd grwpiau sy'n byw ledled y DU ganghennau banc yn cau, a dywedodd pobl mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell eu bod wedi cael eu heffeithio'n sylweddol, oherwydd eu bod yn dibynnu ar brynu ar-lein am fod llai o opsiynau ganddynt i fynd i siopa yn y cnawd. Wrth i ganghennau banc gau, roedd grwpiau yn teimlo nad opsiwn oedd bancio ar-lein bellach ond gorfodaeth. Roedd rhai cyfranogwyr oedran gweithio hŷn ac oedran pensiwn yn anghyfforddus iawn ynglŷn â bancio digidol a'r risgiau y gallent fod yn agored iddynt. Pwysleisiodd cyfranogwyr o wahanol oedranau bwysigrwydd gwneud taliadau ar-lein yn ddiogel, ac ymdrinnir â hyn yn fanylach yn adran 3.3.2.1.

I mi, dylai bancio fod mewn goleuadau sy'n fflachio'n goch... [Mae bancio [digidol] yn hanfodol oherwydd bod mwy a mwy o ganghennau yn cau, hyd yn oed mewn trefi eithaf mawr

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

3.3.1.3 **Rheoli a chynnal a chadw**

Mae sgiliau ar gyfer rheoli a chynnal a chadw dyfeisiau a data yn helpu pobl i gynnal eu hymgyssylltiad digidol, yn enwedig gan fod y MDLS yn cynnwys pecynnau data cyfyngedig a dyfeisiau lefel mynediad y disgwylir iddynt gael cof a gofod storio llai. Roedd grwpiau o'r farn bod y nwyddau a'r gwasanaethau hyn yn ddigonol ar y rhagdybiaeth eu bod yn cyd-fynd â sgiliau priodol i fonitro'r defnydd o ddata ac i gynnal dyfeisiau, gan sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu gorau.

- **Monitro a chynnal a chadw dyfeisiau**

Disgrifiodd grwpiau y gwahanol fathau o 'gynnal a chadw' (Grŵp oedran gweithio, Belfast) sy'n angenrheidiol i sicrhau bod dyfeisiau'n rhedeg yn esmwyth. Mae dyfeisiau lefel mynediad sydd â gofod storio cyfyngedig yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr fonitro nifer y ffeiliau y maen nhw'n eu cadw. Eglurodd rhieni, er enghraifft, eu bod yn addysgu eu plant i ddileu apiau gemau o bryd i'w gilydd i greu lle i rai newydd. Mae storio cwmwl ar gael i unigolion hefyd, a rhaid wrth sgiliau a gwybodaeth wahanol. Pwysleisiodd grwpiau fod hyn yn bwysig nid yn unig ar gyfer rheoli lle storio ond hefyd ar gyfer gwneud copi wrth gefn o ffeiliau hanfodol. Yn olaf, mae cau apiau sy'n rhedeg yn y cefndir yn rheolaidd yn helpu i gadw lle yn y cof r gyfer tasgau eraill.

Chwynnu ydy o, ynte? Oherwydd bod popeth yn dod i mewn... fydddech chi ddim yn gadael post i ddod trwy'r blwch llythyrau'n barhaus... mae'r un peth yn wir am e-bost. Mae'n bostmon electronig ac, ar ryw adeg, mae'n rhaid i chi benderfynu a oes angen cadw negeseuon i gyfeirio atyn nhw ac os felly ble i'w rhoi?

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Menyw: Dwi'n meddwl bod gwneud copi wrth gefn o'ch data i'r cwmwl [yn bwysig].

Dyn: Mae'r nifer o bobl sydd wedi dod ata i [ac] sydd wedi colli oes gyfan o ffotograffau ... oherwydd eu bod ar ffôn a gafodd ei ddwyn neu liniadur sydd... mae'r ddisg haled wedi marw a dydyn nhw ddim wedi gwneud copi wrth gefn ohono...

• Rheoli a monitro data symudol

Mae cael y sgiliau a'r ddealltwriaeth i fonitro'r defnydd o ddata yn bwysig o safbwynt cadw mewn cysylltiad.

Mae monitro cysylltiadau - megis gwirio bod dyfeisiau wedi'u cysylltu â Wi-Fi y cartref i osgoi defnyddio data yn ddiangen neu sefydlu rhybuddion defnydd data - yn ffyrdd ymarferol o reoli'r defnydd o ddata. Dywedodd grwpiau hefyd ei bod yn ddefnyddiol cael ymwybyddiaeth gyffredinol o faint o ddata y gallai rhai apiau neu weithgareddau ar-lein ei ddefnyddio.

O safbwynt diogelwch, roedd yn bwysig i rieni fod gan eu plant ddigon o ddata, yn enwedig os oeddent yn defnyddio apiau olrhain i rannu a gweld lleoliadau gwahanol aelodau o'r teulu. Ond roeddent yn teimlo hefyd fod monitro a chyllidebu data yn 'wers' ddefnyddiol i bobl ifanc (Grŵp Rhieni, Bryste). Dywedodd pobl ifanc ei bod yn rhesymol i blant hŷn, yn enwedig wrth iddynt ymgyswrtio â chael ffôn clyfar, helpu i fonitro eu defnydd eu hunain o ddata.

Merch: Fe allwch chi osod eich ffôn i anfon rhybudd atoch chi pan fyddwch chi wedi defnyddio llawer o ddata felly... felly mae modd gwneud hynny?

Bachgen: Ie, dwi'n meddwl, ond rhaid i rywun fod yn ofalus faint mae'n ei ddefnyddio (Grŵp person ifanc)

3.3.2 Gwybodaeth a sgiliau beirniadol

Nodwyd gwybodaeth a sgiliau beirniadol ar gyfer diogelwch a llesiant digidol aelwydydd. Er y gallai llawer o'r meysydd a ddisgrifir yma ei gwneud hi'n ofynnol i unigolion gymhwyso sgiliau gweithredol amrywiol, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr angen iddynt ddefnyddio eu sgiliau meddwl yn feirniadol a'u dealltwriaeth. Cafodd gwybodaeth a sgiliau beirniadol eu rhannu'n bedwar maes: ar gyfer cysylltiadau a thrafodion diogel (diogelwch), gwerthuso gwybodaeth a welir ar-lein, pa wybodaeth bersonol i'w rhannu ar-lein, a chynnal llesiant digidol.

Tabl 3 Gwybodaeth a sgiliau beirniadol

Gwybodaeth a sgiliau beirniadol	
Rheoli swyddogaethau diogelwch	- Defnyddio cyfrineiriau diogel - Gwerthuso diogelwch y cysylltiad - Gwneud taliadau diogel
Gwerthuso gwybodaeth a welir ar-lein	- Adnabod ac osgoi sgamiau - Asesu ansawdd a hygrededd gwybodaeth - Addasu, atal a riportio cyfrifon a chynnwys
Gwerthuso beth i'w rannu ar-lein	- Diogelu gwybodaeth bersonol - Asesu hunaniaethau ar-lein a cheisiadau ffrind - Ystyried ôl troed digidol
Meddwl am lesiant digidol	- Rheoli amser a dreulir ar-lein - Rheoli disgwyliadau a phwysau cymdeithasol - Ymarfer empathi ar-lein

3.3.2.1 Rheoli diogelwch

Mae cadw cyfrifon, cysylltiadau a thrafodion yn ddiogel yn rhan allweddol o gadw'n ddiogel ar-lein. Mewn sawl ffordd, mae gan y sgiliau sydd wedi'u cynnwys yma elfennau gweithredol, gan fod hyder wrth gwblhau tasgau sy'n gysylltiedig â bancio a thaliadau, neu sefydlu cyfrineiriau, yn helpu i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Ar yr un pryd, mae angen sgiliau beirniadol i nodi'r risgiau posibl a drafodir yn yr adran hon.

• Defnyddio cyfrineiriau diogel

Mae defnyddio cyfrineiriau diogel yn gofyn i unigolion gael dealltwriaeth hanfodol ar sawl lefel. Ar y pwynt o greu cyfrinair, mae angen iddynt allu nodi beth fyddai'n ei wneud yn ddiogel neu'n wan. Mae angen iddynt allu amddiffyn eu cyfrineiriau a'u storio'n ddiogel. Ac yn sail i'r wybodaeth hon mae dealltwriaeth ehangach ynghylch pam mae diogelwch yn angenrheidiol, y risgiau a all fodoli ar-lein a'r ffyrdd y gall pobl gaffael a defnyddio gwybodaeth bersonol i ddehongli cyfrineiriau.

Trafododd grwpiau oedran pensiwn, yn benodol, yr ofn y bydd eu diogelwch ar-lein yn cael ei gyfaddawdu, a soniwyd am eraill yn eu cohort nad oeddent yn ymwybodol o ddiogelwch cyfrineiriau neu nad oeddent yn ymarfer hynny.

Dyn: Clywais rywun yn dweud eu bod yn defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer popeth.

Menyw: Ie, fi. ...Dwi'n gwybod bod yna risgiau ond...

Dyn: Mae 'na gymaint o bethau sydd angen cyfrineiriau...

Menyw: Gallwch chi gael rheolwr cyfrineiriau sy'n gallu eu cofio nhw i chi.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

• **Gwerthuso diogelwch y cysylltiad**

Gall pobl ei chael hi'n ddefnyddiol neu'n angenrheidiol cysylltu eu dyfeisiau personol â gwahanol rhwydweithiau cyhoeddus er mwyn rheoli eu defnydd o ddata neu oresgyn problemau signal. Efallai y bydd angen Wi-Fi cyhoeddus ar gyfer cysylltedd tra yn y gwaith neu'r ysgol, neu wrth ymweld â siopau, caffis neu fwytai. Roedd pobl ifanc ac oedolion oedran gweithio gyda a heb blant dibynnol yn fwy tebygol o siarad am ddefnyddio rhwydweithiau cyhoeddus. Er enghraifft, dywedodd rhai pobl o oedran gweithio eu bod yn mwynhau cael y dewis i weithio mewn caffi gyda'u gliniadur. Cafwyd enghreifftiau ganddynt hefyd o adegau yr oedd angen iddynt gael mynediad at Wi-Fi cyhoeddus mewn siopau i gael mynediad at gardiau teyrngarwch. Dywedodd pobl ifanc eu bod weithiau'n defnyddio Wi-Fi ysgol, wedi'i gysylltu â dyfeisiau'r ysgol neu â'u ffonau clyfar eu hunain, y byddent yn eu defnyddio weithiau ar gyfer cwisiau a gweithgareddau eraill yn y dosbarth.

Menyw 1: Byddwn i'n defnyddio fy nata fy hun yn gyntaf cyn i mi ddefnyddio Wi-Fi am ddim.

Menyw 2: Ond mae yna rai canolfannau siopa [lle] does dim signal ffôn, ac efallai y bydd angen i chi fynd [ar-lein] a lawrlwytho'r talebau rydych chi'n eu gwario... alla i ddim cael fy rhwydwaith yn y ganolfan siopa, ond mae angen i mi lawrlwytho'r daleb yn y siop.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Ar draws y grwpiau ffocws, roedd rhai cyfranogwyr yn hoffi defnyddio rhwydweithiau cyhoeddus i gynnal cysylltedd, tra bod eraill yn ei osgoi oherwydd y risgiau y gallai ei achosi. P'un a yw pobl yn penderfynu defnyddio rhwydweithiau cyhoeddus ai peidio, roedd grwpiau'n cytuno bod gwybodaeth hanfodol o'r hyn sy'n gysylltiedig yn allweddol i wneud dewis ar sail gwybodaeth, er enghraifft, deall y gall gwybodaeth a anfonir dros gysylltiad cyhoeddus gael ei gweld gan eraill.

Dwi'n credu bod diogelwch yn broblem hefyd gyda'r llecynnau Wi-Fi pan fyddwch chi mewn llefydd cyhoeddus. Os ydych chi'n ei ddefnyddio, neu'n edrych ar eich manylion banc, dydych chi wir ddim eisiau mewngofnodi i lecyn Wi-Fi yn ddi-hid.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

• **Gwneud taliadau diogel**

Mae bancio a thaliadau ar-lein diogel yn golygu bod angen i bobl gadw eu manylion banc yn breifat ac adnabod ymdrechion i ddwyn arian neu wybodaeth (gweler yr adran isod ar adnabod sgamiau). Mae hefyd yn golygu bod angen i bobl feddwl am sut maen nhw'n sefydlu gwahanol gyfrifon ac a ddylid storio gwybodaeth bancio ar wahanol blatfformau.

Nid oedd diogelwch bancio yn ymwneud â sgamiau uniongyrchol bob amser felly, ond roedd yn cynnwys prynu pethau'n ddamweiniol. Dywedodd rhieni y gallai fod angen iddynt dynnu eu gwybodaeth bancio o siopau apiau a phlatfformau gemau a ddefnyddir gan blant a allai fel arall brynu cynnwys digidol. Yn y grwpiau oedran gweithio, roedd rhai cyfranogwyr yn cofio adegau iddynt gofrestru ar gyfer tanysgrifiadau â thâl, a hynny wrth greu cyfrifon ar gyfer gwahanol apiau a rhaglenni.

Pan fyddwch chi'n cofrestru am bethau [ar-lein], ... bydd y manylion mewn print bach iawn ac efallai y bydd rhai'n cael eu dal allan os nad ydyn nhw'n arbennig o fedrus gyda phethau fel taliadau rheolaidd... Weithiau gall fod yn eithaf anodd eu canslo. Rydych chi'n [ceisio] ei wneud yn yr ap ei hun ac mae e'n dweud, ewch ymlaen i'r dudalen we ac yna dyw hi ddim yn hawdd iawn bob amser.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Dyn: Mae rhai apiau, pan fyddwch chi'n eu lawrlwytho, yn rhad ac am ddim ac yna ar ôl



mis neu ddau maen nhw'n dechrau codi tâl arnoch, mae'n hawdd i bobl beidio â sylweddoli hynny.

Menyw: Tanysgrifiadau.

Dyn: Ond fel y dywedoch chi, rydych chi'n tanysgrifio am rywbeth am ddim ac yna rydych chi'n anghofio.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Gall pobl heb fawr o hyder digidol – gan gynnwys ymddiriedaeth mewn systemau digidol ac ymddiriedaeth yn eu galluoedd eu hunain – fod yn arbennig o ofnus o unrhyw weithgarwch ariannol ar-lein, gan boeni am ddifrifoldeb cael eu twyllo neu ddewis yr opsiwn anghywir yn ystod trosglwyddiad neu daliad. Roedd grwpiau oedran pensiwn yn tueddu i gynnwys cyfranogwyr a oedd yn osgoi bancio a thaliadau ar-lein oherwydd y risgiau, er bod hunanhyder a medrusrwydd yn amrywio yn y grwpiau hyn hefyd, gyda llawer o bobl oedran pensiwn yn defnyddio taliadau digidol ac yn teimlo'n gadarnhaol yn eu cylch. I rai o'r bobl oedran pensiwn, roedd cadw taliadau digidol yn ddiogel yn golygu eu gwneud gartref. Er enghraifft, roeddent yn disgrifio cyrchu eu bancio ar-lein trwy liniadur neu lechen gartref a pheidio â storio unrhyw gardiau talu neu gael unrhyw apiau bancio ar eu ffôn clyfar.

Menyw: Mae angen i chi gael y sgiliau i wneud [bancio ar-lein] hefyd oherwydd mae hynny'n atal cryn dipyn o bobl rhag mynd ymhellach gyda phethau fel bancio ar-lein. Pe bai gen i sgiliau gwell a fy mod i'n dawel fy meddwl am ddiogelwch, fe fyddwn i'n ei wneud e. Ond oherwydd nadw i, nad ydw i'n ddigon medrus, mae hynny'n fy atal i.

Ymchwilydd: Ydy hynny oherwydd... bod [llawer] yn y fantol?

Menyw: Ydy, a'i effaith bosibl. Gallech [chi] golli popeth.

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

3.3.2.2 Gwerthuso gwybodaeth a welir ar-lein

- **Adnabod ac osgoi sgamiau**

Mae rhan o gadw'n ddiogel ar-lein yn cynnwys gallu adnabod arwyddion sgamiau, gan gynnwys negeseuon uniongyrchol neu gynnwys a welir ar-lein sy'n bwriadu achosi niwed. Mae hyn yn gofyn am wylidwriaeth barhaus a'r gallu i gwestiynu dilysrwydd llawer o ffynonellau gwybodaeth. Mae gallu adnabod sgamiau yn gysylltiedig â sawl agwedd arall ar gadw'n ddiogel ar-lein sydd wedi'u cynnwys yn y sgiliau beirniadol, er enghraifft, gallu pobl i ddiogelu eu gwybodaeth bersonol a gwneud taliadau diogel. Gall sgamiau fod yn agwedd frawychus iawn ar y rhyngwrdd, gan dargedu grwpiau o bob oedran.

Dyn: Ydyn, rydyn ni'n cael negeseuon e-bost trwy'r amser am barsel doedd dim modd ei ddanfôn, cliciwch ar y ddolen hon i aildrefnu.

Menyw: Ac os ydych chi'n cael parseli trwy'r amser, rydych chi weithiau'n meddwl fod y neges yn un ddilys, yn tydych?

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Fe ges i [neges destun] gan fy wyres yn oriau mân y bore yn dweud, plis mam-gu, mae angen help arna i, allwch chi anfon [swm] o arian ata i gan fod batri fy ffôn wedi rhedeg allan. Y peth yw, efo'r wyres... fydde hi byth, byth yn fy ngalw i'n mam-gu, mae hi bob amser yn fy ngalw i'n Gu.... roeddwn i'n gwybod yn syth nad hi oedd hi.

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

Os yw pobl yn twyllo rhywun, dydyn nhw ddim o reidrwydd bob amser yn gwybod beth yw eu hoedran. Efallai y byddan nhw'n eu twyllo gan feddwl eu bod nhw'n 20 rhywbeth, a hwythau mewn gwirionedd yn 12.

(Grŵp pobl ifanc)

Mae'r gallu i chwilio am wybodaeth yn bwysig ar gyfer adnabod sgamiau. Mae hyn yn golygu cymryd yr amser i feddwl am negeseuon a dderbyniwyd a gwybod ble i chwilio am wybodaeth ddibynadwy er mwyn gwybod 'sut i ymateb' a 'gwirio'r ffynhonnell ddwywaith' (Grŵp rhieni, Newcastle).

- **Asesu ansawdd a hygredd gwybodaeth**



Gall yr wybodaeth amrywiol sydd ar gael ar y rhyngwrdd fod yn fudd ac yn faich, ac mae grwpiau yn ochelgar o'r risgiau, gan gynnwys sgamiau sy'n bwriadu dwyn gwybodaeth bersonol neu arian, swyno drwy dwyll, meithrin perthynas amhriodol, a chamwybodaeth /twyllwybodaeth. Gan gydnabod bod diogelwch ar y rhyngwrdd yn dod o dan gylch gwaith sawl cyfranogwr ac nad yw'n gyfrifoldeb ar unigolion yn unig, dywedodd grwpiau y byddai angen i bobl werthuso beth oedd yn real a beth oedd yn ffug ar-lein i liniaru risgiau.

Roedd grwpiau'n teimlo bod angen ymwybyddiaeth o'r gwahanol ffyrdd y gellid creu gwybodaeth i ledaenu gwybodaeth ffug neu gynorthwyo sgamiau. Gyda thechnoleg sy'n newid yn gyson a dulliau newydd o ran cyfleoedd digidol a'r niwed y gallai ei greu, roedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r fath yn cael eu hystyried fel proses barhaus, ddatblygol, ac nid fel pen draw gorffenedig. Nododd rhieni y diffyg tryloywder sy'n gysylltiedig â chynnwys y gall plant ei weld a'r angen iddynt beidio â derbyn barn neu argymhellion yn ddigwestiwn.

Mae [dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol] yn marchnata i blant, wedi dweud hynny, yn y byd go iawn mae gennym ni'r holl reolau hyn ynghylch pwy all farchnata i blant. Mae'r dylanwadwyr yn ymddangos yn wynebau cyfeillgar, ond mewn gwirionedd maen nhw'n cael eu talu i farchnata beth bynnag sy'n cael ei farchnata. Os ydych chi'n gwylio hysbyseb ar y teledu, rydych chi'n gwybod ei fod yn hysbyseb, ac mae'n debyg y byddai hyd yn oed plentyn yn gwybod hynny, ond os ydych chi wedi bod yn dilyn eu ffordd o fyw, [a'u bod yn dweud] wrthyh ei fod yn gynnyrch gwyh, dydych chi ddim yn gweld hynny fel hysbyseb, rydych chi'n ei weld fel argymhelliad gan ffrind.

(Grŵp rhieni, Bryste)

Mae'r defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial a'r ffaith ei fod ar gael y llawer mwy yn enghraifft o hyn. Nododd cyfranogwyr ar draws grwpiau ei effaith, cwta ddwy flynedd ar ôl adroddiad cyntaf y MDLS lle na soniwyd amdano, a'i fod yn ychwanegu dimensiwn pellach at amrywiaeth a chymhlethdod y penderfyniadau y mae'n rhaid i bobl eu gwneud wrth ddehongli'r hyn maen nhw'n dod ar ei draws ar-lein.

Mae AI wedi tyfu'n aruthrol yn y chwe mis a'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl wybodaeth anghywir sydd allan yna, yn weledol yn ogystal ag yn addysgiadol.... mae pobl yn credu'r hyn maen nhw'n ei weld, ond nawr gallwch chi ffugio'r hyn rydych chi'n ei ddangos i bobl.

(Grŵp rhieni, Newcastle)

• **Addasu, atal a riportio cyfrifon a chynnwys**

Wrth werthuso'r wybodaeth wahanol a welir ar-lein, efallai y bydd angen i bobl rwystro cynnwys neu ei riportio. Siaradodd grwpiau am rwystro rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost a chyfrifon negeseua i osgoi negeseuon diangen neu aflonyddu.

Mae addasu profiadau gwylio ac ymgysylltu digidol yn ddefnyddiol i bawb, gyda rhieni a phobl ifanc yn esbonio y gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i aelwydydd â phlant dibynnol, er mwyn cadw pobl ifanc yn ddiogel. Er enghraifft, fe wnaethon nhw sôn am rwystro fideos penodol ar YouTube. Weithiau, er gwaethaf gwylio fideos priodol i'w hoedran, roedd yr hysbysebion a oedd yn ymddangos arnynt yn amhriodol ac roedd angen eu riportio, er bod grwpiau yn rhwystredig oherwydd mai ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd.

Gydag YouTube, hysbysebion yn benodol a oedd yn ymddangos. Felly, roedd [y mab] yn rheoli'r hyn yr oedd am ei wyllo o ran fideos, ond doedd o ddim yn gallu rheoli'r hysbysebion a oedd yn ymddangos. [Roedden nhw'n] achosi gofid iddo, roedd yn eu riportio, ond doedd hynny'n gwneud dim gwahaniaeth. Yr unig ffordd o ddatrys y broblem oedd uwchraddio i fersiwn premiwm YouTube sydd ddim yn dangos hysbysebion felly roedd hynny'n gost ychwanegol i ni.

(Grŵp gwledig rhieni)

Er y bydd gan bob teulu ei dulliau ei hun o rianta'n ddigidol, mae angen y sgiliau ar rieni i lywio'r rheolaethau rhieni os ydynt yn dewis defnyddio'r dull hwn o fonitro a chefnogi diogelwch digidol eu plant. Roedd rhieni yn gweld y 'nodwedd gofyn' yn arbennig o ddefnyddiol, lle mae dyfeisiau rhieni a phlant yn cael eu cysylltu trwy ap, lle mae plant yn gofyn am ganiatâd i lawrlwytho neu brynu unrhyw apiau, cynnwys neu eitemau.

Dyn: Cefais air gyda'r mab, dwi'n credu bod yna rai mân ddigwyddiadau wedi codi...pwy ddywedodd dy fod yn cael prynu hwn? Felly, mae'n rhaid i chi yn bendant eu gwneud yn ymwybodol o hynny. Ac mae gen i'r 'nodwedd gofyn', felly mae'n



rhaid iddyn nhw ofyn, ac mae'n rhaid i mi ei dderbyn, os ydyn nhw'n mynd i brynu pethau... Hyd yn oed os yw [rhywbeth] yn rhad ac am ddim, maen nhw'n dal i orfod gofyn i'w lawrlwytho.

Menyw: Ydy, mae'r un peth yn wir gyda'r llechen hefyd. Mae'n rhaid i ni ei gymeradwyo. Rhai consolaau hefyd, ar gyfer gemau fel Xbox. [Os] ydy fy mab eisiau prynu gêm, mae wedi cysylltu â'm cerdyn i, ond mae'n rhaid iddo roi cyfrinair ... felly dydy o ddim yn gallu prynu gêm a dyna ni.

(Grŵp rhieni, Bryste)

3.3.2.3 Gwerthuso pa wybodaeth i'w rhannu ar-lein

• Diogelu gwybodaeth bersonol

Mae diogelwch digidol yn golygu bod yn rhaid i unigolion fod yn amddiffynnod o'u gwybodaeth bersonol a rhoi sylw dyledus i'r hyn maen nhw'n ei rhannu ar-lein. Mae rhan o'r diwydrwydd hwn yn cynnwys ystyried pwy sydd â mynediad at yr wybodaeth a rennir a'r graddau y gall eraill ei dosbarthu o bosibl.

Gall manylion ac amseru gwybodaeth effeithio ar ddiogelwch hefyd; er enghraifft, gohirio postïadau ar y cyfryngau cymdeithasol am wyliau tan ar ôl i rywun ddychwelyd adref neu ystyried sut y gallai pobl adnabod eich lleoliad o'ch ffotograffau. Nododd grwpiau gwledig fod amddiffyn gwybodaeth o'r fath yn berthnasol i bawb ond gall fod yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau llai, lle gellir adnabod cartrefi yn haws.

Os ydw i'n byw yng nghanol unman ac wedi rhannu fy manylion ar-lein, fe fydd pawb yn gwybod fy lleoliad, ac fe fydd hynny'n broblem. Fe fyddwn i bob amser yn cadw hynny'n ddiogel ac roedd hynny'n wahanol pan oeddwn i'n byw mewn tref gyfagos... dydw i ddim yn postio pethau ar unwaith oherwydd bod pobl yn gwybod ble rydych chi, a dwi'n credu bod hynny'n beth mawr iawn am wybodaeth bersonol a rhannu... mae gen i gamau diogelwch mwy llym erbyn hyn. O'r blaen, doedd dim byd yn fy mhoeni i, rydych chi'n mynd ar Facebook ac yn mewngofnodi, mewn bwyty, lle bynnag. Fydda i ddim yn gwneud hynny nawr oherwydd fe fydd pobl yn gwybod ble dwi'n byw, a bod fy nhŷ yn wag.

(Grŵp gwledig oedran gweithio)

• Asesu hunaniaethau ar-lein a monitro ceisiadau ffrind

Rhan o ddirnad beth i'w rhannu ar-lein a diogelu gwybodaeth bersonol yw deall ble mae'r wybodaeth yn mynd a phwy allai ei gweld. Dywedodd grwpiau o bob oedran ei bod yn bwysig bod yn ofalus wrth ddod i gysylltiad â dieithriaid ar-lein, er enghraifft, trwy gemau ar-lein, platfformau ar gyfer prynu a gwerthu nwyddau ail-law neu fforymau sgwrsio. Disgrifiwyd hefyd y diwydrwydd sydd ei angen i ystyried ceisiadau i fod yn ffrindiau a anfonir trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu apiau negeseua. Pwysleisiodd rhieni bwysigrwydd trafod perthnasoedd a chysylltiadau ar-lein â'u plant

[Ar y cyfryngau cymdeithasol], mae plant yn mynd yn hollol wallgo ynglŷn â chael pobl i hoffi hyn neu'r llall, yn tydyn? Maen nhw eisiau i bopeth gael ei hoffi, ac maen nhw eisiau cael cymaint o ffrindiau ag y gallan nhw ar [y cyfryngau cymdeithasol] ... ond go iawn, dydyn nhw ddim yn eu hadnabod, ac mi allai fod yn unrhyw un.

(Grŵp rhieni, Newcastle)

• Ystyried ôl troed digidol

Gall gwybodaeth y mae pobl yn ei rhannu ar-lein gael effaith barhaol arnynt. Ystyriodd grwpiau y gwaddol hwn o wybodaeth ddigidol a nododd fod angen i unigolion ddeall yr olion data a gynhyrchir ganddynt trwy eu gweithgareddau ar-lein - eu hôl troed digidol - ac y byddai'n rhaid iddynt werthuso canlyniadau posibl, er enghraifft, y safbwyntiau a fynegir ganddynt i'r cyhoedd.

Os ydych chi ar y cyfryngau cymdeithasol, rydych chi'n gwybod bod yr hyn rydych chi'n ei bostio yno am byth i ryw raddau. Gall pobl ei gadw, Twitter ac X, ac yn y blaen. Mae ar gael i bawb os yw eich proffil yn y modd cyhoeddus.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Ystyriodd grwpiau oedran gweithio yr effaith ar eu rhagolygon cyflogaeth yn y presennol neu'r dyfodol. Roedd pobl ifanc yn meddwl am waith hefyd, ond roedd eu hôl troed digidol eu hunain yn ymddangos hyd yn oed yn fwy sylfaenol na hyn, gan eu bod yn ymwybodol iawn eu bod yn



tyfu i fyny ar-lein, ac felly, y gallai eu meddyliau a'u safbwyntiau fod yn hollol wahanol yn y dyfodol.

3.3.2.4 Llesiant digidol

Mae'n bosibl y bydd angen mwy o sgiliau gweithredol ar rai agweddau ar lesiant digidol, megis defnyddio gosodiadau dyfeisiau i osod terfynau amser a rhybuddion ar gyfer apiau penodol, neu ddefnyddio swyddogaeth 'dim tarfu' y ffôn amser gwely. Ar yr un pryd, mae'r sgiliau hyn yn bodoli o fewn cyfres llawer ehangach o syniadau hanfodol am sut i ymgorffori technoleg ddigidol yn iach mewn bywyd bob dydd ac yn ein hymwneud ag eraill.

• Rheoli amser a dreulir ar-lein a rheoli disgwyliadau a phwysau cymdeithasol

Mynegodd grwpiau o bob oedran a chyfnod bryder y gallai treulio gormod o amser yn defnyddio'r cyfryngau digidol niweidio iechyd corfforol a meddyliol rhywun, ac y gallai effeithio ar oedolion a phlant yn gyfartal. Os yw'n hawdd cysylltu â chi, sefyllfa a alluogir gan dechnoleg ddigidol, gallai hynny rwystro gallu pobl i fonitro a rheoli eu hamser o flaen sgrin. Tynnodd y grwpiau sylw at yr anhawster o sicrhau cydbwysedd rhwng terfynau amser a'r pwysau cymdeithasol i ymateb i negeseuon gwib. Mae dyluniad gwasanaethau'r cyfryngau cymdeithasol wedi dylanwadu'n sylweddol ar y cydbwysedd hwn, yn enwedig trwy ddangos pryd mae negeseuon wedi'u darllen neu hyrwyddo rhes o negeseuon (*streaks*) (olrhain a gwobrwyo amllder negeseuon).

Mae gan lawer o fy ffrindiau blant yr un oedran, ac mae'r 'streaks' ar snapchat, yn gwbl erchyll. Mae yna gwmpo mas a dadleuon yn digwydd ar aelwydydd ledled y wlad oherwydd y syniad hwn bod yn rhaid iddyn nhw, wyddoch chi... y dagrau [oherwydd] bod yn rhaid iddyn nhw gadw'r 'streak' hyn o negeseuon i fynd.

(Grŵp gwledig rhieni)

Weithiau dwi'n eistedd [a mynd ar fy ffôn] am rai oriau, a dydw i ddim yn sylweddoli fy mod i wedi bod yn ei wneud o ac yna dwi'n teimlo mor rhwystredig gyda fi fy hun. Dwi'n meddwl, pam ydw i wedi gwastraffu cymaint o amser? ... Bydd gen i neges a fyddai'n meddwl, iawn a ddylwn i ateb hon yn syth? Ac yna dwi'n dechrau teimlo dan bwysau oherwydd fy mod i wedi darllen y neges nawr, pam wnes i ei darllen hi, pam wnes i edrych ar fy ffôn? Mae yna lawer o bwysau oherwydd... rydych chi wedi darllen neges, mae hynny'n fater mor fawr ar WhatsApp, maen nhw'n gwybod eich bod chi wedi ei darllen a'ch bod heb ateb.

(Grŵp gwledig oedran gweithio)

• Ymarfer empathi ar-lein

Mae llesiant digidol hefyd yn ymwneud â diwylliant rhyngweithio ar-lein a sut mae unigolion yn cyfrannu'n gadarnhaol neu'n negyddol tuag ato. Trafododd rhieni 'etiquette' ar-lein yng nghyd-destun addysgu plant sut i gyfathrebu'n briodol a meddwl am sut y gall neges ymddangos i'r derbynnydd. Dywedodd grwpiau, er gwaethaf y posibilrwydd o fod yn anhysbys a dienw ar-lein, ei bod yn ddefnyddiol ymarfer ethos o drin pobl yn deg.

Bod ag ymwybyddiaeth o sut beth yn union yw bwllo ar-lein a sut mae eich cyfraniad yn ymddangos - efallai na fyddwch chi'n meddwl ei fod yn fwlio ar-lein ond mae e... Mae pobl yn meddwl y gallan nhw adael sylwadau sy'n ddienw, ond maen nhw'n beryglus iawn mewn gwirionedd.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

3.4 Datblygu gwybodaeth a sgiliau yn ystod plentyndod

Fel rhan o'r adolygiad o aelwydydd â phlant y MDLS, gofynnwyd i bobl ifanc pryd y gallai fod angen i blentyn ddatblygu'r holl wybodaeth a'r sgiliau digidol gwahanol a ddisgrifir uchod. Eu hateb i'r cwestiwn hwn oedd sicrhau bod ffocws datblygiad sgiliau plentyn ar bedwar cam allweddol yn ymwneud â defnydd digidol, gan ystyried y gwahanol sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer pob maes³. Dyma bedwar cam defnydd digidol: mynediad at ddyfeisiau; cyrchu gemau aml-chwaraewr ar-lein; cael eich ffôn symudol cyntaf; a defnydd pellach o ffôn. Defnyddiwyd trafodaethau grŵp i greu llinell amser o ddefnydd a sgiliau digidol (gweler Ffigur 1).

3.4.1 Mynediad at ddyfeisiau

Mae angen i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ddyfeisiau a swyddogaethau pan fyddant yn dechrau cael mynediad at ddyfais am y tro cyntaf – gallai hyn fod cyn iddynt gael dyfais bersonol ac mae'n cynnwys defnyddio unrhyw ddyfais a rennir, megis gliniadur neu lechen yn yr ysgol neu gartref. Yn ystod eu haddysg gynnar, efallai y bydd plant eisoes yn defnyddio rhai apiau a rhaglenni a gellir eu cyflwyno i chwiliadau rhyngwyd. Wrth wneud hynny, mae angen iddynt feithrin dealltwriaeth sylfaenol o risgiau digidol a phwrpas cyfrineiriau.

3.4.2 Cyrchu gemau aml-chwaraewr ar-lein

Gallai'r cam hwn fod o fudd i blant o ran yr ymwybyddiaeth a'r meddwl beirniadol y byddai eu hangen arnynt, yn enwedig o safbwynt eu hymwneud posibl ag eraill ar-lein. Er y gallai aelwydydd ddewis cyfyngu ar gemau penodol neu ddefnyddio rheolaethau rhieni, byddai angen dealltwriaeth ddyfnach o sgamiau a risgiau ar blant i amddiffyn eu gwybodaeth bersonol.

Ymchwilydd: Adnabod risgiau, pryd mae hynny'n dod yn angen i berson ifanc?

⁹ Mae hyn wedi mireinio'r dull a adroddwyd yn astudiaeth gychwynnol y MDLS gyda mwy o bwyslais nawr ar y math o weithgaredd neu ddefnydd digidol y mae angen sgiliau amrywiol ar eu cyfer, yn hytrach nag oedranau neu gyfnodau.

Merch 1: Y peth yw, pan ydych chi'n ifanc iawn... mae'n teimlo fel petai'ch bod chi'n gorfod bod yn ymwybodol o sgamiau cyn gynted ag y mae gennych chi unrhyw beth sy'n werthfawr i chi, hyd yn oed os mai arian digidol neu arian go iawn yw e. Dwi'n cofio fy chwaer yn ddigalon iawn am gael ei sgamio am rywbeth ar Adopt Me.

Merch 2: ...Allwch chi gael ceisiadau [i fod yn ffrind] ar [gemau].

Merch 1: Gallwch, ac efallai y bydd rhai.... yn targedu gemau oherwydd bod yna bobl ifanc arnyn nhw. Felly, mae'n dda gwybod o oedran ifanc, i beidio â derbyn pob cais i fod yn ffrind.

(Grŵp pobl ifanc)

Nododd pobl ifanc hefyd, pan fydd plant yn dechrau rhyngweithio ag eraill ar-lein, fod angen iddynt allu meddwl yn feirniadol am yr hyn y mae eraill yn ei ddweud neu'n ei roi mewn negeseuon.

Bachgen: Mae pobl yn rhoi eu barn ar bynciau penodol, eu safbwyntiau ar bynciau pwysig, felly gall fod am hil benodol neu grefydd ac mae angen i bobl ifanc wybod sut i anwybyddu'r math yna o....

Merch: ... Dwi'n credu bod angen i chi wybod beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn, a gallu adnabod pan fo rhywbeth yn gas a gwneud i berson edrych yn ddrwg os yw'n credu hynny. Oherwydd os oes postiad yn dweud bod y person hwn wedi lladd tri o bobl, beth am ei glodfori, nid dyna'r peth iawn i'w wneud.

(Grŵp pobl ifanc)

3.4.3 Cael y ffôn symudol cyntaf

Yn y pen draw, o dan y MDLS, bydd angen eu ffonau clyfar eu hunain ar blant wrth iddynt ddechrau teithio'n annibynnol, megis i'r ysgol ac oddi yno (gweler uchod). Bu'r grwpiau yn ystyried y defnydd o ffôn ymhlith pobl ifanc mewn dau gyfnod sy'n gorgyffwrdd: y defnydd cynnar a'r defnydd hwyr o ffôn. Pan fydd person ifanc yn cael ei ffôn am y tro cyntaf, awgrymir bod angen llai o apiau arno, yn bennaf apiau negeseua uniongyrchol ar gyfer cysylltu ag eraill, yn ogystal ag apiau y gallai eisoes fod yn gyfarwydd â nhw, fel gemau penodol neu YouTube. Gyda mwy o ddefnydd annibynnol o'i ffôn i ffwrdd o oruchwyliaeth oedolion, bydd angen i blentyn adeiladu ar y sgiliau beirniadol a ddysgwyd yng nghymau cynharach defnydd digidol. Yn ogystal, efallai y bydd plant yn ei chael hi'n ddefnyddiol creu eu cyfrineiriau eu hunain, sy'n gofyn am ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud cyfrinair diogel. Efallai y bydd angen iddynt wybod hefyd sut i gysylltu â gwahanol gysylltiadau Wi-Fi a llecynnau Wi-Fi tra byddant yn mynd a dod, a deall am rwydweithiau diogel ac am rai nad ydynt yn ddiogel.

3.4.4 Defnydd pellach o'r ffôn

Gyda defnydd cynyddol o'u ffonau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae plant yn debygol o gymryd mwy o ddiddordeb mewn defnyddio eu ffonau a dyfeisiau digidol eraill ar gyfer cynhywysiant cymdeithasol ac ar gyfer mynd allan yn annibynnol. Efallai y bydd ganddynt


eu cyfrifon banc eu hunain eisoes, a bydd angen sgiliau beirniadol arnynt i ddefnyddio ap bancio neu wneud taliadau digyffwrdd yn ddiogel. Mae camau mwy cymhleth yn nodweddu'r cam hwn o ddefnydd digidol, megis gosod rhaglenni, llenwi ffurflenni ar-lein, neu greu cyfrif e-bost, ynghyd ag ymwybyddiaeth ddyfnach o ddiogelwch. Efallai y byddant yn defnyddio apiau'r cyfryngau cymdeithasol a negeseua, a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o les - eu lles eu hunain a lles eraill - gan ddatblygu'r gallu i reoli pwysau cymdeithasol ac ymarfer empathi tuag at eraill ar-lein. Wrth iddynt ddod i arfer â defnyddio data oddi cartref yn fwy rheolaidd, gall plant hefyd ddechrau monitro eu defnydd eu hunain o ddata.

Mae [adnabod sgamiau] yn dod hyd yn oed yn bwysicach pan fydd gennych chi gyfrif banc go iawn ar eich ffôn oherwydd nad ydych chi eisiau rhannu manylion eich cyfrif banc â sgamwyr.

(Grŵp pobl ifanc)

Ffigur 1 Datblygu gwybodaeth a sgiliau yn ystod plentyndod

Mae Ffigur 1 yn crynhoi pedwar cam defnydd digidol, dros amser, a nodwyd gan bobl ifanc sy'n llunio eu hanghenion am sgiliau, o gael mynediad at ddyfeisiau am y tro cyntaf i ddefnydd pellach o'r ffôn wrth i blant fynd drwy'r ysgol, gwneud gwaith cartref ar-lein, cymdeithasu ar-lein, a theithio'n annibynnol.





4 Bodloni'r MDLS: beth sy'n gwneud gwahaniaeth

Mae'r bennod hon yn dwyn ynghyd sawl maes allweddol sy'n gallu cynorthwyo neu atal aelwydydd rhag bodloni'r MDLS. Mae'n defnyddio gwybodaeth o drafodaethau'r grwpiau am allu aelwydydd i gaffael yr eitemau, sicrhau'r cysylltiad, a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau a amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Mae'r meysydd allweddol yn ymwneud ag adnoddau ariannol a fforddiadwyedd, materion seilwaith sy'n effeithio ar gysylltedd, a safbwyntiau ar fathau gwahanol o gymorth ar gyfer hyder, gwybodaeth a sgiliau digidol.

4.1 Adnoddau ariannol, profiadau a nwyddau a gwasanaethau digidol

Mae amgylchiadau ariannol pobl yn cael effaith sylweddol ar eu gallu i fodloni'r MDLS. Roedd cyfranogwyr ym mhob grŵp wedi mynegi pryderon am fforddiadwyedd, gwerth am arian, a'r costau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant digidol. Un thema a gododd yn gyson yw'r ffaith fod bodloni'r MDLS yn fwy na chost untro - mae'n ymrwymiad ariannol parhaus. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei ddylanwadu gan yr angen i gaffael a chynnal dyfeisiau digonol, sicrhau cysylltiadau dibynadwy, a rheoli cyfranogiad digidol mewn amgylchedd digidol sy'n newid yn gyflym.

Mae angen i deuluoedd a pharau gyllidebu er mwyn prynu dyfeisiau lluosog, prynu rhai newydd, eu cynnal a'u cadw, a thalu costau parhaus fel cynlluniau data neu fand eang sy'n gallu cefnogi defnyddwyr a dyfeisiau lluosog ar yr un pryd. Mae aelwydydd â phlant yn wynebu costau uwch wrth i blant dyfu'n hŷn a bod angen eu ffonau a'u cynlluniau data eu hunain arnynt. Hefyd, cyfeiriodd y cyfranogwyr at y costau sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion technegol sy'n esblygu a sicrhau cydnawsedd gwasanaethau er mwyn cynnal swyddogaeth dyfais.

Yn ddiweddar, dwi wedi gorfod uwchraddio oherwydd bod gen i ffôn clyfar 5S ac ro'n i'n methu â'i ddefnyddio i wneud rhai pethau. Roeddwn i'n ceisio rhyngweithio â rhai cwmnïau ac yn cael gwybod bod yn rhaid i mi ddefnyddio ap y cwmni, ond doedd yr ap ddim yn gweithio ar fy ffôn i.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

Mae'r gost o gael cysylltiad rhynggrwyd yn bryder hefyd. Disgrifiodd rhieni'r angen am becynnau band eang cyflymach er mwyn bodloni dyfeisiau lluosog sy'n cael eu defnyddio ar yr un pryd a gweithgareddau sy'n defnyddio llawer o ddata, megis ffrydio a chwarae gemau ar-lein. Roedd oedolion o oedran gweithio yn pryderu am gynnal cysylltiad dibynadwy a sefydlog ar gyfer gweithio o bell. I rai cyfranogwyr, roedd hyn yn golygu uwchraddio i becynnau drutach. Er bod tariffau cymdeithasol ar gael, yn aml maent yn dibynnu ar brawf modd, yn cynnig cyflymderau mwy cyfyngedig nad ydynt yn diwallu anghenion aelwyd â sawl person o bosibl, ac mae lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd ohonynt yn isel (Cyngor ar Bopeth, 2025).

Dyn 1: Mae angen sicrhau mai band eang rhad iawn cyffredinol yw'r man cychwynnol. Oherwydd dwi'n tybio bod yna lawer iawn o bobl nad ydyn nhw'n gallu fforddio band eang.

Dyn 2: Mae pethau'n newid hefyd. Er enghraifft, mae band eang wedi newid i wasanaeth ffeibr ac rydyn ni'n talu am ffeibr nawr. Yna mae rhywun yn gofyn oes gennych chi wasanaeth ffeibr llawn? A dwi'n gofyn, pam na fyddai gen i hwnnw? O na, mae gennych chi'r llinell anghywir, yw'r ateb. Felly mae'n rhaid gwario mwy i gael ffeibr llawn.

(Grŵp oedran pensiwn, Oldham)

Hefyd, mae'n bwysig nodi na ddylid ystyried fforddiadwyedd cynhwysiant digidol fel mater ar wahân. Mae cyfweiliadau a gynhaliwyd gennym gyda theuluoedd fel rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer MDLS Cymru yn nodi bod yn rhaid i rieni wneud dewisiadau cyllidebu anodd weithiau. O ystyried pwysigrwydd mynediad digidol, yn enwedig i blant, mae'n bosibl y bydd rhieni yn rhoi blaenoriaeth i dalu am fand eang, data symudol, neu brynu dyfais newydd. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny, maent wedi gorfod aberthu gwariant ar hanfodion eraill, megis torri'n ôl ar fwyd. Felly, er ei bod yn ymddangos bod teulu wedi sicrhau cynhwysiant digidol, nid yw o reidrwydd yn fforddiadwy iddynt (Harris et al., 2023).

Trafododd y grwpiau sut i sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer dyfeisiau a gwasanaethau digidol. Pwysleisiodd cyfranogwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, y gall mynediad anghyson at y rhyngrwyd oherwydd diffyg signal data symudol gynyddu costau i bobl sydd ag opsiynau cyfyngedig o ran darparwyr. Er enghraifft, yn hytrach na gallu dewis darparwr ar sail pris neu ansawdd gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd unigolion yn gorfod dewis pa gyflenwr bynnag sydd ar gael neu deimlo dan bwysau i dalu am becynnau drutach neu atebion gwahanol. Trafodir materion eraill yn ymwneud â seilwaith isod.

*Yn gyffredinol, mae'n amhosibl cael pris gan sawl
darparwr oherwydd diffyg dewis.*

(Grŵp gwledig oedran gweithio)

*Mae'n ymddangos bod rhwydweithiau gwahanol yn cynnig darpariaeth wahanol...
felly mewn gwirionedd pan fydd ein plentyn yn yr ysgol uwchradd byddwn ni'n
methu â chyfathrebu ag e os nad oes ganddo signal, felly mae'n rhaid i ni dalu am
SIM wrth gefn.*

(Grŵp gwledig rhieni)

Agwedd arall a oedd yn cythruddo cyfranogwyr oedd arferion darparwyr rhyngrwyd. Yn benodol, cyfeiriwyd at y 'gosb deyrngarwch', sef sefyllfaoedd lle gallai pobl dalu llawer mwy am eu cysylltiad band eang presennol o'i gymharu â bargeinion sydd ar gael i gwsmeriaid newydd. Yn ogystal, ystyriwyd bod hyd y contractau yn atal pobl rhag sicrhau pecyn sy'n rhoi gwerth gwell am arian neu un sy'n fwy addas i'w hanghenion.

Mewn gwirionedd, mae'r contract dwy flynedd yn atal pobl rhag newid o un cyflenwr i'r llall, ac fel rydych chi wedi clywed heddiw, mae pobl yn ymrwymo i'r contractau hyn, ac mae hynny'n dal i ddigwydd. Dwi'n meddwl pe bai argymhelliad i leihau hynny ... mae blwyddyn yn ymddangos yn gyfnod rhesymol ... Mae'r dechnoleg, ac yn wir, ein defnydd ni yn newid o fewn y ddwy flynedd hynny yn fy marn i. Felly dwi'n credu bod yna ffordd ymarferol o allu helpu llawer o bobl.

(Grŵp gwledig rhieni)

Nodwyd mater arall sy'n gallu effeithio ar yr opsiynau a'r costau sydd ar gael i bobl gan y grwpiau pensiynwyr. Cyfeiriodd rhai o'r cyfranogwyr hyn at ddiffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr data symudol heb bresenoldeb ffisegol, neu eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio brand adnabyddus. Gall y sefyllfa hon rwymo pobl i gynlluniau drutach neu hen ffasiwn o'i gymharu â'r ystod o opsiynau ar-lein sydd bellach yn cynnig pecynnau data mwy am brisiau is. Oherwydd diffyg gwybodaeth neu hyder am ddewisiadau amgen, mae'n bosibl y bydd pobl yn talu Premiwm Tlodï Digidol am eu gwasanaethau.

4.2 Y seilwaith a'r goblygiadau ar gyfer diwallu anghenion cysylltiad

Er bod cyfranogwyr mewn sawl grŵp trefol mewn lleoliadau dinesig wedi nodi bod darpariaeth signal data symudol yn wael yn eu hardal, roedd problemau gyda darpariaeth band eang a chysylltiadau data symudol yn themâu cyffredin ym mhob un o'r grwpiau gwledig. Fel y nodwyd mewn penodau ac adrannau blaenorol, roedd diffyg gwasanaeth band eang a/neu gysylltiad symudol dibynadwy yn effeithio ar allu aelwydydd i fodloni'r MDLS, y cydbwysedd rhwng darpariaeth symudol a band eang (gorfod dibynnu mwy ar un os oedd y llall yn annigonol), a hefyd ar gostau. Nododd sawl cyfranogwr mewn ardaloedd gwledig sydd â darpariaeth band eang wael nad oedd ganddynt unrhyw ddewis ond chwilio am atebion amgen i wella ansawdd y cysylltiad. Roedd yr atebion hyn yn amrywio o gael sawl darparwr band eang mewn ymdrech i ddod o hyd i gysylltiad dibynadwy, i geisio datrys y broblem trwy ddefnyddio darpariaeth loeren, er enghraifft.

Rydyn ni newydd dalu am dri ohonyn nhw [darparwyr band eang]. Rydyn ni'n byw yn yr oes ddigidol ar yr aelwyd hon, ac mae'r ddarpariaeth yn hanfodol i mi bellach.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

Pan wnaethon ni symud i ble rydyn ni'n byw am y tro cyntaf, roedd y cysylltiad rhyngwrwyd mor wael nes i ni brynu Starlink, nad oedd yn opsiwn rhad iawn, ond roedd yn golygu bod gennym ni gysylltiad rhyngwrwyd gwych ... ond dydy pawb ddim yn gallu gwneud hynny, nac ydyn?

(Grŵp gwledig rhieni)

Wrth brynu gwasanaeth lloeren, cofiwch eich bod chi'n prynu'r offer yn ogystal â'r cysylltiad, ac roedd pris yr offer yn £400 i ni.

(Grŵp gwledig oedran gweithio)

Mae seilwaith gwael nid yn unig yn cyfyngu ar ddewisiadau rhyngwrwyd pobl, ond mae ganddo oblygiadau ariannol ac mae'n cynyddu'r angen am wybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen posibl er mwyn osgoi'r perygl o gysylltedd annigonol. Un mater allweddol yw'r diffyg mynediad at gysylltiadau ffeibr llawn yn yr ardal leol, ac roedd cyfranogwyr mewn ardaloedd gwledig yn ymwybodol nad oedd eu darpariaeth cystal â'r hyn sydd ar gael mewn lleoliadau mwy trefol.

Dyn: Dim ond ffeibr rhannol sy'n mynd i'r bocs sydd gennym ni yma, ac mae gwifrau copr yn mynd i mewn i'r tŷ, felly dim ond y ddarpariaeth sylfaenol sydd ar gael bob amser, ac mae'n anodd ymdopi weithiau. Mae'r un peth yn wir am y ffôn symudol, gwasanaeth sylfaenol yn unig sydd gennym ni, ond dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae ffeibr wedi dod i'n hardal ni felly mae gennym ffordd bell i fynd o'i gymharu â phobl sy'n byw yn y dinasoedd.

Menyw: Mae'r un peth yn wir yn ein hardal ni. Does dim darpariaeth ffeibr ar gael yma eto.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

Mae band eang ffeibr wedi'i osod yn ardaloedd rhai bellach ac maen nhw wedi sylwi

ar y gwahaniaeth, er y nodwyd y bu'n rhaid iddyn nhw greu digon o ddiddordeb yn lleol. Disgrifiwyd y broses hon fel a ganlyn.

'Roedd ychydig yn debyg i'r 'Hunger Games' wrth i ni orfod brwydro yn erbyn pentrefi eraill i gael y gwasanaeth.'

(Grŵp gwledig rhieni)

Hefyd, mynegodd y cyfranogwyr bryderon am arferion darparwyr sydd, yn eu barn nhw, yn rhwystro mynediad neu'n creu problemau. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle'r oedd gwasanaeth ffeibr wedi'i osod, roedd rhai pobl yn wynebu'r broblem o 'fod wedi ymrwymo' i gontract presennol gyda darparwr. O ganlyniad, ni allent fanteisio ar y cysylltiad gwell. I un cyfranogwr, roedd y ffaith ei fod 'wedi ymrwymo' i gontract symudol yn destun rhwystredigaeth gan ei fod wedi cael gwybod bod darpariaeth symudol ar gael yn ei ardal. Serch hynny, nodwyd bod y ddarpariaeth hon yn annigonol yn y pen draw. Pwynt arall a godwyd oedd y potensial i gael cysylltiad gwell trwy osod ceblau ffeibr, ond yr anfantais oedd bod gan un darparwr fonopoli hirdymor yn y pentref.

Fe wnaeth un cwmni osod y seilwaith ffeibr ar gyfer y tai ar ein hystad... Ond rydyn ni wedi ymrwymo i'r un darparwr hwn am yn agos i 6 mlynedd bellach. Fydd y cwmni hwn ddim yn gadael unrhyw un arall i ddefnyddio'r rhwydwaith oherwydd ei fod wedi gosod y seilwaith. Mae'n llawer drutach na darparwyr eraill, ac rydyn ni wedi ymrwymo i'r cwmni hwn ... Does dim modd i ni gael unrhyw linellau eraill gan unrhyw ddarparwr arall oherwydd ein bod yn rhy bell i ffwrdd.

(Grŵp gwledig rhieni)

Cyfeiriodd un cyfranogwr at y cysylltiadau rhyngwrdd gwael, sy'n ddrutach yn aml, ar aelwydydd mewn ardaloedd gwledig, ac awgrymodd fod angen cymorth i gydnabod y mater hwn.

Mae tariffau cymdeithasol ar gael i bobl sy'n derbyn credyd cynhwysol neu gredyd pensiwn neu beth bynnag, ac efallai bod angen fersiwn wledig o hynny i bobl mewn ardaloedd lle mae ansawdd y ddarpariaeth yn wael.

(Grŵp gwledig rhieni)

4.3 Hyder, sgiliau digidol a chymorth

Gofynnwyd i'r grwpiau beth fyddai'n helpu aelwydydd i gaffael y sgiliau digidol angenrheidiol. Mae'r adran hon yn cyflwyno dwy agwedd ar y trafodaethau. Yn gyntaf, bu'r grwpiau yn trafod y rhyngberthynas rhwng caffael sgiliau a hyder, gan gyfeirio at sgiliau penodol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer meithrin hyder ac annibyniaeth. Yn ail, gan adeiladu ar hyn, bu'r grwpiau yn ystyried sut mae pobl yn datblygu sgiliau digidol a'r cymorth posibl sydd ei angen arnynt.

4.3.1 Hyder a sgiliau digidol

Roedd hyder mewn perthynas â sgiliau yn bwnc trafod rheolaidd ymhlith y grwpiau, ac roedd hi'n amlwg bod cysylltiad agos rhwng y ddwy elfen. Byddai modd cynyddu lefelau sgiliau a magu mwy o hyder trwy gynyddu cysylltiad â'r byd digidol a helpu pobl i ddeall dyfeisiau a'r eiconau a'r swyddogaethau gwahanol sydd ynghlwm wrthynt. Eto, gallai rhywfaint o hunanhyder (unigolyn yn credu yn ei allu i gyflawni tasgau yn llwyddiannus) hefyd ei rymuso i fabwysiadu dull 'profi a methu' o ddysgu, sef teimlo ei bod yn bosibl gwneud camgymeriadau a'u rheoli.

Dwi eisiau nodi'r ffaith ein bod ni'n siarad am y pethau hyn [sgiliau] fel pe baen nhw'n hawdd. Mae'n rhaid i chi fod yn hyderus cyn gallu gwneud rhai o'r pethau hyn, ac mae'r hyder yn dod trwy gael y cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Dyn: Mae llawer ohono yn ymwneud â hyder serch hynny. Hyder i fwrw iddi, i roi cynnig arni, a pheidio â phoeni am [wneud] camgymeriadau.

Menyw: Meddyliwch am y system llywio â lloeren yn y car, weithiau mae rhywun yn meddwl a ddylwn i bwyso'r botwm hwnnw ai peidio achos dwi ddim yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd. Mae'n fater o hyder - beth am bwyso'r botwm i weld beth sy'n digwydd?

Ymchwilydd: Beth sy'n dod yn gyntaf? Ai'r hyn sy'n rhoi'r hyder i'r person... gwybod

yn fras beth fydd y botwm hwnnw'n ei wneud?

Menyw: Ie, mae'r hyder yn dod o [wybod] ble i fynd i gael yr wybodaeth a dod o hyd i ateb hawdd am beth yw ystyr y botymau a'r symbolau hyn.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Mewn achosion o ansicrwydd, gallai mynediad cyflym at wybodaeth helpu i ddatblygu sgiliau a hyder, ac roedd grwpiau o'r farn bod gallu defnyddio peiriannau chwilio yn rhan o set sgiliau sylfaenol (ceir rhagor am hyn isod). Fodd bynnag, roedd y ffaith fod y byd digidol yn newid mor gyflym yn gallu bod yn rhwystyr, gan wneud i dechnoleg ddigidol ymddangos yn fwyfwy cymhleth, ac yn beryglus i bobl sy'n poeni am ddiogelwch ar-lein. Gall y ffaith hon fod yn heriol iawn a sigo hyder pobl sy'n teimlo nad ydynt yn deall datblygiadau technolegol neu bobl nad ydynt yn cymryd rhan yn yr un ystod o weithgareddau digidol â phobl eraill. Er bod deall newid digidol yn bryder penodol i bobl hŷn, codwyd materion ar draws y grwpiau, gan gynnwys datblygiadau fel deallusrwydd artiffisial, neu ddefnydd plant o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gan y ffactorau hyn oblygiadau ar gyfer hyder digidol, gyda phobl yn gallu teimlo eu bod ar ei hôl hi, neu eu bod yn ymgysylltu â rhai elfennau ond nad oes ganddynt ddigon o hyder mewn agweddau eraill.

Menyw 1: Rydyn ni'n clywed llawer mwy am dwyll hefyd. Dwi'n colli hyder o ran hyd yn oed rhoi cynnig ar ddefnyddio'r system gyfrifiadurol, achos dwi ddim yn gwybod beth sy'n ddiogel a beth sy'n anniogel.

Menyw 2: Mae cymaint o sgamiau.

Menyw 3: Drwy'r amser.

Menyw 1: Mae'n dychryn rhywun... Os ydych chi'n rhoi'r wybodaeth anghywir i mewn.

(Grŵp oedran pensiwn, Casnewydd)

Gyda llawer o'r pethau hyn, mae'n symud mor gyflym, erbyn i ni sylweddoli bod yna broblem, mae'r twyll eisoes yn digwydd. Pethau fel deallusrwydd artiffisial, mae'n wirioneddol frawychus ... mae wedi tyfu mor gyflym ac mae fel pe bai cymdeithas yn methu â chadw i fyny â'r holl beth.

(Grŵp gwledig rhieni)

Dwi ddim yn defnyddio Tik Tok na Snapchat.... Felly pan fydd fy merch yn gofyn amdano, dwi'n dweud wrthi 'ond dwi ddim yn gwybod sut i'w ddefnyddio'. Fyddai'n amhosibl i mi ei fonitro'n dda iawn a dydw i ddim yn teimlo'n hyderus.

(Grŵp rhieni, Bryste)

4.3.2 Cymorth i feithrin sgiliau a hyder digidol

Bu'r cyfranogwyr yn trafod ystod eang o ffynonellau cymorth gan gynnwys offer i'w helpu i chwilio am wybodaeth eu hunain, cymorth gan deulu a ffrindiau, a chymorth ffurfiol, yn ogystal â rôl y llywodraeth, manwerthwyr a darparwyr gwasanaethau.

Nododd y grwpiau fod dysgu annibynnol yn rhan hanfodol o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder digidol. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at ddefnyddio adnoddau digidol fel tiwtorialau YouTube, offer deallusrwydd artiffisial fel Alexa neu ChatGPT, a chwiliadau Google er mwyn datrys problemau digidol, ehangu eu gwybodaeth ac addysgu eu hunain; 'dibynnu ar dechnoleg i ddefnyddio technoleg' (Grŵp oedran gweithio, Belfast).

Os ydych chi'n gallu defnyddio dyfais a chwilio, dwi'n meddwl ei bod hi'n bosibl dysgu unrhyw beth eich hun nawr.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Dyn: Mae fideos ac esboniadau ar gael ar YouTube, a gallwch chi ddefnyddio Google i ofyn 'sut ydw i'n gwneud hyn?' A bydd naill ai'n eich cyfeirio at fideo YouTube neu Wicipedia neu beth bynnag, y math yna o beth, felly mae pethau ar gael i wneud hynny... ond mae angen gwybod sut i ddod o hyd iddyn nhw.

(Grŵp oedran pensiwn, Oldham)

Fodd bynnag, mae gallu gwneud hyn yn dibynnu ar fod â rhai sgiliau digidol eisoes, yn enwedig ar gyfer chwilio'r rhyngwyd, fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3. Gallai defnyddio peiriannau chwilio yn effeithiol (defnyddio termau chwilio i ganfod gwybodaeth yn llwyddiannus) ac yn feirniadol (gwerthuso ansawdd gwybodaeth) roi hwb i hyder a gweithredu fel sylfaen bwysig i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ddigidol, darparu sicrwydd ac arweiniad, a chaniatáu annibyniaeth. Mae'r elfen hon yn bwysig oherwydd gall sgiliau digidol simsanu weithiau—efallai y bydd pobl yn anghofio sut i gyflawni tasg ddigidol ac yn gorfod chwilio am wybodaeth. Mae'n rhaid iddynt allu addasu i beryglon technoleg a digidol newydd.

Nodwyd bod cymorth gan ffrindiau a theulu yn fan cychwyn cyffredin wrth geisio cymorth, yn enwedig i bobl sydd â hyder digidol isel. Bu'r grwpiau yn trafod cymorth gan gylchoedd cymdeithasol neu'r gweithle, partneriaid yn helpu ei gilydd, rhieni yn manteisio ar wybodaeth eu plant ifanc a'u plant sy'n oedolion, a neiniau a theidiau yn gwerthfawrogi hyfedredd eu hwyrion. Gallai cymorth anffurfiol fod yn bwysig iawn pe bai ar gael yn hawdd ac yn cael ei ddarparu gan bobl y gellir ymddiried ynddynt ac sy'n deall cyd-destun ac anghenion y person arall. Mae hyder a gwybodaeth ymddangosiadol pobl ifanc am dechnoleg yn eu gwneud yn ffynhonnell gymorth y gellir ymddiried ynddynt yn aml. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr mewn grwpiau oedran gweithio ac oedran pensiwn eu bod yn darparu cymorth hefyd.

Os oes gennych chi wyrion, mae gennych chi reolwr TG, yn does?

(Grŵp oedran pensiwn, Oldham)

Fi yw'r person sy'n helpu pawb yn y teulu, yn hen ac ifanc... Mae gen i ddau riant oedrannus a rhieni-yng-nghyfraith yn eu 80au hwyr. Dwi wedi gorfod addysgu fy mam sut i ddefnyddio llechen a dangos i fy mam-yng-nghyfraith sut i ddefnyddio ffôn symudol ... Bob dydd am tua phytnefnos ... dwi'n credu wrth i chi dyfu'n hŷn, mae'n rhaid i chi ddibynnu ar aelod o'r teulu, a fi yw'r person hwnnw yn ein teulu ni.

(Grŵp gwledig oedran pensiwn)

Er bod pobl yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn ac yn dibynnu arno yn aml, sylwodd y grwpiau nad yw cymorth o'r fath o reidrwydd yn eu helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau digidol. Nododd cyfranogwyr hŷn yn benodol fod aelodau o'r teulu yn gallu datrys problem yn gyflym, sy'n hwylus a chyfleus. Fodd bynnag, weithiau roeddent eisiau dysgu sut i gwblhau tasg ddigidol eu hunain, ond nid oedd gan y person a oedd yn eu helpu ddigon o amser nac amynedd i ddangos iddynt.

Os oes rhaid i fy mhlant [sy'n oedolion] ddangos rhywbeth i mi, does ganddyn nhw ddim amynedd... dyna sut maen nhw wedi ymgysgu ag e, ond dwi ddim mor gyfarwydd â'r peth â nhw.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Os oes rhywun yn gofyn i chi ddangos rhywbeth iddyn nhw, 9 gwaith allan o 10 rydych chi'n ei wneud e drostyn nhw oherwydd bod hynny'n cymryd llai o'ch amser. Yn hytrach nag eistedd i lawr ac esbonio'r peth. A dydy'r sgiliau addysgu ddim gen i ... dwi'n gallu esbonio beth i'w wneud ond... dwi ddim yn gallu trosglwyddo gwybodaeth yn barhaol.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Hefyd, sylwodd y grwpiau fod parau yn gallu bod yn ffynhonnell gymorth bwysig i'w gilydd, ond ei bod yn bwysig hefyd i unigolion ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain. Pwysleisiwyd yr angen hwn mewn perthynas â diogelwch digidol yn benodol, a'r angen i allu 'amddiffyn eich hun' yn y fan a'r lle rhag peryglon ar-lein wrth ddefnyddio dyfeisiau. Hefyd, cyfeiriodd cyfranogwyr oedran pensiwn at y broblem bosibl o un person mewn pâr yn dibynnu ar y llall. Er y nodwyd mai dyna sy'n digwydd o bosibl mewn perthynas, roeddent yn poeni y gallai hyn arwain at sefyllfa lle nad oes gan rywun yr wybodaeth ddigidol sydd ei hangen arno os yw'n gorfod ymdopi ar ei ben ei hun.

Dyn: Mae un ohonoch chi'n mynd i fod ar eich pen eich hun. Mae rhai pobl eisoes yn y sefyllfa honno nawr felly mae hynny'n mynd i ddigwydd i ni yn y pen draw....

Menyw: Mae'n bwysig. Fy ngŵr oedd yn arfer gwneud y cyfan ar y cyfrifiadur, a



phan fuodd e farw bu'n rhaid i mi geisio ei ddefnyddio. Roedd angen i mi ddod o hyd i bethau ar y cyfrifiadur a gwneud pethau, ond ro'n i'n teimlo bod y cyfan yn anodd iawn. Bu'n rhaid i mi geisio cofio beth ro'n i wedi'i weld e'n ei wneud, achos wnes i erioed wneud cymaint ag e...

Dyn: Pan rydych chi ar eich pen eich hun mae'n rhaid i chi wybod.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Nid pawb sydd â rhwydwaith cymorth anffurfiol, felly pwysleisiodd y grwpiau fod ffynonellau cymorth a gwybodaeth ffurfiol, gan gynnwys cyrsiau a dysgu â chymorth cymheiriaid, yn hanfodol. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu gan sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt, megis cynghorau, llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol, a sefydliadau addysgol. Roedd rhai cyfranogwyr hŷn yn benodol, yn ogystal â chyfranogwyr eraill, yn teimlo y byddai darpariaeth yn y cawd yn fuddiol, tra bod eraill yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio ffynonellau ar-lein. Roedd ymddiriedaeth hefyd yn gysylltiedig ag ansicrwydd am rannu gwybodaeth bersonol neu ddiogelwch gyda 'dieithryn', megis darparwr gwasanaeth neu sefydliad cymorth, er enghraifft, os oedd angen cymorth ar rywun i fewngofnodi neu ddefnyddio cyfrinair.

Mae cymaint o sgamiau ffôn, a hyd yn oed os yw rhywun 99% yn siŵr, mae rhywun yn dal i fod yn amharod i ddatgelu unrhyw wybodaeth ar y ffôn. Felly, ar gyfer materion fel cyfrineiriau ac ati, mae angen siarad wyneb yn wyneb â rhywun mewn siop neu mewn cyfleuster symudol sy'n mynd o gwmpas y dref yn addysgu pobl.

(Grŵp oedran gweithio, Belfast)

Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at rai ffynonellau cymorth lleol penodol, fel sesiwn reolaidd Age UK, banc sy'n defnyddio swyddfa'r cyngor fel hwb symudol, neu gyrsiau ar-lein. Fodd bynnag, nodwyd bod y cymorth hwn yn gallu bod yn anghyson gan ddibynnu ar 'bwy sy'n rhoi'r cymorth i chi' a'r lleoliad. Hefyd, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yn 'rhaid i chi fynd allan i chwilio amdano', a nodwyd bod angen mwy o gymorth ffurfiol cydgysylltiedig a gweladwy. Fodd bynnag, roedd grwpiau yn ymwybodol o fygythiadau gwahanol i'r mathau hyn o adnoddau ffurfiol, gan gynnwys toriadau cyllid a phenderfyniadau i'w cau, yn ogystal â llai o oriau gweithredu.

Menyw 1: Mae'n debyg y byddwn i'n dweud, er mwyn dysgu am y pethau hyn, fel dysgu sgiliau ar gyfer cadw yn ddiogel ar-lein, dwi'n methu â meddwl am unrhyw le y gallwn i ddod o hyd i'r sgiliau hyn wyneb yn wyneb.

Menyw 2: Dwi'n meddwl am gymuned, mae gennym ganolfan gymunedol yma, ond dwi ddim wedi gweld unrhyw beth am hyn...

Menyw 1: Na, byddwn i'n cael yr holl wybodaeth hon ar-lein, sy'n eironig. Dwi ddim yn gallu cofio gweld unrhyw beth wedi'i hysbysebu. Efallai y gallai'r llyfrgell leol wneud rhywbeth, ond byddai hynny ar gyfer y genhedlaeth hŷn mae'n debyg.

(Grŵp gwledig rhieni)

Cyfeiriodd cyfranogwyr mewn grwpiau oedran gweithio at fwlch yn y ddarpariaeth sgiliau digidol, oherwydd bod gwasanaethau wedi'u hanelu at y boblogaeth hŷn a bod plant a phobl ifanc yn cael darpariaeth yn yr ysgol. Teimlent fod diffyg cymorth strwythuredig ar gael i'r rhai yn y canol, yn enwedig os nad oedd ganddynt gysylltiad â gweithle neu ysgol. Roedd cyfranogwyr yn poeni y gallai anghenion pobl gael eu hanwybyddu yn sgil rhagdybiaeth eu bod yn caffael neu'n cynnal sgiliau digidol mewn ffordd 'naturiol', sy'n eu gadael yn agored i allgáu digidol a pheryglon. Dywedodd un cyfranogwr: 'does dim darpariaeth ar gyfer pobl ganol oed oherwydd y rhagdybiaeth bod pawb yn gwybod sut i'w wneud e'. Mae'r sgysiau hyn yn amlygu heterogenedd anghenion a phrofiadau digidol pobl 'oedran gweithio' y cyfeirir atynt ym Mhennod 1.

Mae pobl yn cymryd yn ganiataol bod y rhan fwyaf o bobl o'n demograffig ni a phobl iau yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngwyd ac yn codi'r sgiliau hyn yn naturiol, ond efallai nad yw hynny'n wir am bawb. A dwi'n meddwl bod hynny'n eithaf peryglus i bobl os ydyn nhw'n cael eu gwrthio i wneud mwy a mwy o bethau ar-lein, os nad oes gwybodaeth ddibynadwy yn cael ei darparu a'i hysbysebu'n dda.

(Grŵp oedran gweithio, Glasgow)

Mae rhai porwyr penwyn sy'n dysgu'r sgiliau hyn ac wrth gwrs mae'r plant yn eu dysgu yn yr ysgol, ond yn fy ngrwpiau oedran i, mae yna wahaniaeth mawr iawn ... dwi'n adnabod llawer iawn o bobl rhwng 30 a 50 oed nad ydyn nhw mor hyddysg mewn TG, ac maen nhw'n gweld y byd yn diflannu oddi wrthyn nhw.

(Grŵp gwledig oedran gweithio)

Awgrymodd rhai cyfranogwyr ddulliau gwahanol o gymorth y gallai'r llywodraeth eu darparu i aelwydydd, gan gynnwys darparu cyllid a hyrwyddo canllawiau a chysiau sgiliau digidol hygyrch, codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch digidol, yn ogystal â sicrhau seilwaith fforddiadwy a chadarn (fel y trafodwyd uchod). Hefyd, roedd y grwpiau yn teimlo y dylai darparwyr gwasanaethau a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol gymryd mwy o gyfrifoldeb, ond ochr yn ochr â hyn nodwyd bod angen rheoleiddio.

Rydyn ni'n gwneud popeth posibl fel rhieni ond does dim llawer y gallwn ni ei wneud mewn go iawn... Mae'n annheg bod cymaint o bwysau a disgwyliadau yn cael eu rhoi ar rieni unigol i reoli pethau o gofio bod y broblem [o gadw'n ddiogel ar-lein] gymaint yn fwy na ni.

(Grŵp gwledig rhieni)

Dylai cwmnïau'r cyfryngau cymdeithasol dderbyn llawer mwy o gyfrifoldeb... Ar hyn o bryd mae'n debyg i'r gorllewin gwyllt mewn gwirionedd. Hyd yn oed pan fyddan nhw'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud yn well neu wneud rhywbeth, dwi ddim yn teimlo bod cymhelliant iddyn nhw weithredu. Maen nhw wedi cael rhwydd hwynt i wneud dim byd hyd yn hyn, felly pam ddylen nhw weithredu?

(Grŵp gwledig rhieni)

Hefyd, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen i gynhyrchwyr a manwerthwyr wneud mwy. Mynegwyd rhwystredigaeth am y ffaith nad yw cynhyrchwyr a manwerthwyr yn darparu dyluniad hawdd ei ddefnyddio, cyfarwyddiadau digonol, neu digon o gymorth ôl-werthu⁴.

Mae pethau mor anhygoel o gymhleth.... pe bai'r rhyngwyneb yn llawer symlach, fyddai ddim angen yr holl hyfforddiant.

(Grŵp oedran pensiwn, Caerlŷr)

Dylai unrhyw un sy'n gwerthu setiau teledu neu ffonau neu unrhyw beth tebyg gynnig gwasanaeth sylfaenol i helpu pobl. Rhywbeth tebyg i... iawn, ydych chi am i mi eich helpu i osod popeth? Rhoi opsiynau i bobl, er enghraifft egluro'r holl opsiynau sydd ar gael i rywun sydd eisiau prynu gliniadur.

(Grŵp oedran gweithio, Sheffield)

Yn gyffredinol, mae thema allweddol – dysgu trwy wneud – yn cysylltu hyder digidol ag ymgysylltu â dyfeisiau a gweithgareddau ar-lein. Roedd y trafodaethau grŵp yn amlygu'r ffaith bod mynediad at gymorth yn broses unigol iawn sy'n dibynnu ar rwydwaith y teulu dan sylw a lleoliad yr unigolyn. Nid oedd adnoddau bob amser yn ddibynadwy, yn hygyrch neu'n effeithiol mewn lleoliadau gwahanol. Cyfeiriodd cyfranogwyr ym mhob un o'r grwpiau ffocws at fylchau yn y ddarpariaeth a'r angen am gymorth sy'n gwneud y canlynol: datblygu sgiliau i ddeall problem, nid ei datrys yn unig; cymorth sy'n lleol, y gallir ymddiried ynddo ac sy'n barhaus; cymorth sy'n weladwy ac yn hygyrch; a chymorth sy'n cwmparu cyfrifoldeb, rheoleiddio a chyllid clir. Fodd bynnag, roedd y grwpiau yn cydnabod y posibilrwydd na fydd rhai unigolion, am resymau gwahanol, yn bodloni'r MDLS, a bod yn rhaid cydnabod y ffaith hon trwy ddarparu gwasanaethau sy'n parhau i fod yn hygyrch i'r rhai nad ydynt ar-lein.

⁴ Un eithriad i hyn oedd Apple. Nododd y cyfranogwyr fod y cwmni hwn yn darparu cymorth yn y cnaud yn eu siopau. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn ar gael i bobl sydd â dyfeisiau Android rhatach (sy'n cael eu cynnwys mewn safon ofynnol dderbyniol yn y MDLS).

5 Y MDLS ac amrywiaeth aelwydydd

Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau trafod yn cynrychioli gwahanol fathau o aelwydydd, gan gynnwys aelwydydd oedran gweithio, oedran pensiwn, aelwydydd sydd â phlant dibynnol a heb blant dibynnol, aelwydydd gwledig ac aelwydydd trefol. Nododd y cyfranogwyr hyn set o anghenion digidol cyffredin. Mae cynnwys craidd y MDLS yn cynnwys ffôn symudol, dyfais sgrin fawr, teledu ac opsiynau gwyllo, yn ogystal â chysylltiad rhyngrwyd dibynadwy a gwydn, ynghyd â gwybodaeth a sgiliau hanfodol. Y tu hwnt i'r anghenion craidd hyn, nododd y grwpiau rai meysydd gwahaniaeth hefyd, gan gynnwys heterogenedd, oddi mewn ac ar draws mathau o aelwydydd. Mae'r bennod hon yn myfyrio ar ehangder a natur yr heterogenedd hwn, gan gynnwys y mathau o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol sydd eu hangen, y sail resymegol ar gyfer yr anghenion hyn, a'r heriau posibl wrth geisio eu bodloni.

Mae Tabl 4 yn cyflwyno'r holl anghenion digidol ar gyfer aelwydydd o bob math sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon, gan nodi'r MDLS 'graidd' ofynnol ar gyfer yr aelwydydd hyn yn ogystal â meysydd angen neu berthnasedd ychwanegol yn ôl math o aelwyd. Bod â phlant dibynnol ar yr aelwyd sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i anghenion digidol yn gyffredinol, gan effeithio ar ofynion cysylltedd, nifer y dyfeisiau a'r mathau o sgiliau sydd eu hangen. Felly, yn y bennod hon, mae aelwydydd â phlant ac aelwydydd heb blant yn cael eu hystyried ar wahân. Hefyd, rydym yn nodi gwahaniaethau allweddol rhwng aelwydydd sengl ac aelwydydd pâr. Rydym yn nodi newidiadau i anghenion aelwydydd â phlant dros y ddwy flynedd ers gwaith ymchwil cychwynnol y MDLS, sy'n cynnwys newidiadau yn y cyd-destun digidol ehangach. Yn olaf, rydym yn rhoi sylw i faterion sydd wedi dod i'r fei yn ystod y gwaith ymchwil sy'n effeithio ar aelwydydd sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Tabl 4 Anghenion y MDLS ar draws pob math o aelwyd.

Allwedd: *Llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu - aelwydydd oedran
pensiwn neu hŷn (PAH)*

Llythrennau italig - aelwydydd â phlant dibynnol (HWC)

Nwyddau a gwasanaethau digidol

Band eang cartref	Gyda digon o ddibynadwyedd a chyflymder i gefnogi pob aelod o'r aelwyd i gael mynediad at y rhyngwrdd ar yr un pryd <i>NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref</i>
Ffôn symudol a data symudol	- Un ffôn clyfar lefel mynediad i bob oedolyn, a (HWC) ar gyfer pob plentyn sy'n teithio ac yn cymdeithasu'n annibynnol* 5GB i 15GB o ddata symudol bob mis ar gyfer pob aelod o'r aelwyd sydd â'u ffôn symudol eu hunain <i>NEU ddata symudol diderfyn yn lle band eang cartref</i>
Dyfais sgrin fawr	- Un ddyfais sgrin fawr (gliniadur, llechen neu gyfrifiadur personol) ar gyfer pob aelwyd (HWC) Mae rhiant/rhieni a'i/a'u blentyn cyntaf yn rhannu un ddyfais sgrin fawr, gyda dyfais ychwanegol ar gyfer pob plentyn oedran ysgol ychwanegol
Teledu a gwylio	- Un teledu (neu ddyfais sgrin fawr y gellir gwylio teledu arni) ar gyfer pob aelwyd - Trwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad ar gyfer pob aelwyd (HWC) trwydded deledu YNGHYD â gwasanaeth tanysgrifio teledu lefel mynediad*
Llinell dir	(PAH) Opsiwn ar gyfer llinell dir mewn ardaloedd â signal symudol gwael*
Gemau	(HWC) Mynediad at gemau ar-lein ar gyfer plant saith oed a hŷn; nid oes angen offer ychwanegol ar ei gyfer o reidrwydd*
Clustffonau	(HWC) Set o glustffonau ar gyfer plant oedran ysgol*

Gwybodaeth a sgiliau gweithredol

Sefydlu

(dyfeisiau a chysylltiad)

Defnyddio swyddogaethau dyfeisiau

- Tanio/diffodd y ddyfais yn gywir
- Newid lefel sain y ddyfais

Cysylltu â'r rhyngwrwyd

- Cysylltu â Wi-Fi yn y cartref a Wi-Fi cyhoeddus
- Cysylltu â llecynnau Wi-Fi a'u rhannu rhwng dyfeisiau

Newid gosodiadau a llywio opsiynau

- Newid gosodiadau hysbysu
- (PAH) Newid maint y ffont**
- (PAH) Llywio nodweddion hygyrchedd (e.e. at ddibenion dehurwydd)**
- Defnyddio gorchmynion llais

Cwblhau tasgau a gweithgareddau ar-lein

Chwilio ar y rhyngwrwyd

- Defnyddio termau chwilio cywir i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol
- Defnyddio apiau a rhaglenni
- Creu cyfrifon (e.e. trwy eu cysylltu â chyfrif e-bost) a mewngofnodi
- Defnyddio ystod o nodweddion sy'n gallu amrywio o ran ymddangosiad a swyddogaeth rhwng rhyngwynebau gwahanol

Llenwi ffurflenni ar-lein

- Ar gyfer archebu digwyddiadau, clybiau neu apwyntiadau
- Ar gyfer gwneud ceisiadau (swyddi, aelodaeth neu gyfleoedd)

Anfon a derbyn negeseuon e-bost

- Sefydlu cyfrif e-bost
- Cyfansoddi negeseuon e-bost
- Llywio ffolderi e-bost gwahanol a dileu hen e-byst/e-byst diangen

Gwneud taliadau ar-lein

- Defnyddio taliadau digyswllt a digidol
- Sefydlu taliadau rheolaidd neu untro ar-lein

Rheoli a chynnal a chadw (dyfeisiau a chysylltiad)

Monitro a storio deunydd ar ddyfeisiau

- Dileu a didoli ffeiliau a lluniau
- Dileu a didoli apiau a rhaglenni

Rheoli a monitro data symudol

- Gwahaniaethu rhwng cysylltiad Wi-Fi a chysylltiad data
- Monitro'r defnydd o ddata
- Gosod rhybuddion data

Gwybodaeth a sgiliau beirniadol	
Rheoli swyddogaethau diogelwch	Defnyddio cyfrineiriau diogel • Creu a defnyddio cyfrineiriau diogel • Diogelu cyfrineiriau a'u storio'n ddiogel Gwerthuso diogelwch y cysylltiad • Ystyried gwahanol fathau o gysylltiadau • Gwybod beth na ddylid ei rannu dros rwydweithiau cyhoeddus Gwneud taliadau diogel • Cadw manylion banc yn ddiogel • (HWC) <i>Ychwanegu/tynnu manylion banc o dudalennau gwe**</i> • Nodi ac osgoi tanysgriafiadau diangen
Gwerthuso gwybodaeth a welir ar-lein	Adnabod ac osgoi sgamiau • Cwestiynu negeseuon sgam posibl • Osgoi hyperddolenni twyllodrus Asesu ansawdd a hygredd gwybodaeth • Ystyried camwybodaeth/twyllwybodaeth • Meddwl am fwriadau ffynonellau gwahanol Addasu, atal a riportio cyfrifon a chynnwys • Atal a riportio cynnwys, negeseuon a galwadau • (HWC) <i>Defnyddio rheolaethau rhieni*</i>
Gwerthuso beth i'w rhannu ar-lein	Diogelu gwybodaeth bersonol • Ystyried manylion sy'n cael eu rhannu a'u hamseru Asesu hunaniaethau ar-lein a cheisiadau ffrind • Ystyried pwy sy'n gallu gweld postiadau ar-lein a gwybodaeth sy'n cael ei rhannu Ystyried ôl troed digidol • Meddwl am y trywydd data sydd wedi cael ei greu
Meddwl am lesiant digidol	Rheoli amser a dreulir ar-lein • Defnyddio rhybuddion terfyn amser a swyddogaeth dim tarfu Rheoli disgwyliadau a phwysau cymdeithasol • Gosod ffiniau ynglŷn â pha mor aml mae rhywun yn anfon ac yn ymateb i negeseuon Ymarfer empathi ar-lein • Cyfrannu at ddiwylliant ar-lein cadarnhaol

5.1 Aelwydydd heb blant

Fel yr amlinellir yn Nhabl 4, mae'r ystod o nwyddau, gwasanaethau a sgiliau digidol sydd wedi'u cynnwys yn y MDLS yn debyg yn fras ar gyfer pob aelwyd heb blant. Fodd bynnag, mewn sawl maes mae opsiynau wedi'u cynnwys i gydnabod amrywiant yn ymwneud ag oedran a chyfnod bywyd yn ehangach. Mae'r rhain yn adlewyrchu dewisiadau gwahanol a newidiol, er enghraifft o ran sut mae pobl yn ymgysylltu'n ddigidol, pwysigrwydd sgiliau penodol neu sut maen nhw'n teimlo am dderbyn cymorth. Fel y nodwyd uchod, ac ym Mhennod 2, er bod grwpiau wedi'u trefnu yn ôl 'oedran gweithio' ac 'oedran pensiwn', mae trafodaethau am anghenion digidol mewn rhai meysydd yn canolbwyntio'n fwy ar gyfnod bywyd, ac yn adlewyrchu amrywiaeth o fewn y ddau gategori, gyda'r termau 'hŷn' neu 'iau' yn cael eu cymhwyso'n fwy llac yn hytrach na'u defnyddio i ddynodi gwahaniaeth clir rhwng 'oedran gweithio' ac 'oedran pensiwn'.

- **Ffôn clyfar:** Roedd cyfranogwyr yn y gwaith ymchwil yn credu bod ffonau clyfar yn hanfodol. Roedd cyfranogwyr hŷn yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio ffonau clyfar wrth fynd a dod yn benodol. I grwpiau oedran iau, dyma'r ddyfais allweddol yn y cartref a thu hwnt.
- **Data:** Roedd tuedd i'r grwpiau oedran iau awgrymu bod angen data symudol ar ben uchaf yr ystod 5-15GB y mis sydd wedi'i chynnwys yn y MDLS. Fodd bynnag, nodwyd bod cost is data yn golygu bod llai o ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio data nag yn y gorffennol. Mae rhai pobl hŷn yn amharod i ymddiried mewn darparwyr newydd neu ddarparwyr ar-lein yn unig, sy'n golygu na fyddant yn manteisio o bosibl ar gynigion sy'n rhoi gwerth gwell am arian neu gynigion data uwch.
- **Dyfais sgrin fawr:** Roedd tuedd i gyfranogwyr hŷn nodi bod dyfais sgrin fawr yn bwysig, gan gynnwys ar gyfer tasgau bob dydd sy'n cael eu cwblhau gan gyfranogwyr iau ar eu ffonau fel arfer. Mae sgrin fwy o ran maint a bysellfwrdd yn helpu gyda golwg, dehurwydd a llywio.
- **Cysylltedd y cartref:** Roedd tuedd i grwpiau oedran pensiwn deimlo'n fwy diogel yn defnyddio cysylltiad band eang gan nodi bod cysylltiad Wi-Fi da yn bwysig pan oedd aelodau iau o'r teulu yn ymweld â nhw. Fodd bynnag, os yw'r cysylltedd yn ddigon cryf, nododd cyfranogwyr ym mhob un o'r grwpiau fod defnyddio data symudol diderfyn yn hytrach na band eang cartref yn opsiwn arall, gan adlewyrchu mwy o ddewis o ran cysylltedd y cartref.
- **Llinell dir:** Dim ond y grwpiau oedran pensiwn a gyfeiriodd at yr opsiwn o gael ffôn llinell dir, a dyma'r unig enghraifft o wahaniaeth mewn nwyddau digidol ymhlith aelwydydd heb blant. Mae cynnwys yr opsiwn hwn yn y MDLS yn adlewyrchu pryderon rhai pobl hŷn ynghylch peidio â bod yn gwbl ddibynol ar ffôn symudol yn y tŷ, a phryder am fod heb gyswllt ffôn os yw'r signal symudol yn annibynadwy a bod y cyflenwad trydan yn diffodd. Roedd y pryder hwn ar ei amlycaf ymhlith y grŵp gwledig oedran pensiwn.
- **Teledu:** Mae set deledu yn bwysicach i grwpiau oedran pensiwn a grwpiau oedran gweithio hŷn sy'n ei gwerthfawrogi fel ffynhonnell gyfarwydd o adloniant ac ymgysylltiad i'w rhannu ag eraill, yn ogystal ag ar gyfer cwmnïaeth i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae'r dewis hwn ar gyfer y set deledu yn amlygu amrywiad posibl yn ôl oedran neu gyfnod bywyd mewn cyferbyniad â chenedlaethau iau, sydd wedi tyfu i fyny yn defnyddio dyfeisiau unigol. Mae cynnwys trwydded deledu neu wasanaeth tanysgrifio lefel mynediad hefyd yn cydnabod yr angen am ddewis wrth i arferion wyllo esblygu.
- **Gwybodaeth a sgiliau gweithredol:** Mae gallu addasu maint ffont a gosodiadau hygyrchedd yn arbennig o ddefnyddiol wrth i bobl heneiddio. Gall technoleg sy'n newid a'r wybodaeth weithredol newydd sydd ei hangen fod yn frawychus i bawb, yn enwedig i bobl nad ydynt wedi gweithio neu sydd heb dderbyn hyfforddiant ers peth amser.
- **Gwybodaeth a sgiliau beirniadol:** Roedd cyfranogwyr oedran gweithio hŷn ac oedran pensiwn yn ymwybodol iawn o ddiogelwch ar-lein a'r angen i fod â'r sgiliau priodol yn y cyswllt hwn, er enghraifft, mewn perthynas â bancio ar-lein a sgamiau. Roedd pobl iau yn ymwybodol iawn o arwyddocâd eu hôl troed digidol, er enghraifft yng nghyd-destun rhagolygon cyflogaeth parhaus neu i'r dyfodol.
- **Cymorth:** Yn aml, gall pobl hŷn ddibynnu ar gymorth digidol anffurfiol, er enghraifft gan aelodau iau o'r teulu, ond maen nhw hefyd eisiau dysgu drostynt eu hunain a chwblhau tasgau digidol yn annibynnol. Maen nhw'n ymwybodol o'r peryglon o beidio â bod â'r sgiliau a'r wybodaeth eu hunain, er enghraifft y posibilrwydd na fyddant yn gallu defnyddio'r dechnoleg os na fydd modd iddynt ddibynnu ar bartner neu aelod o'r teulu mwyach. Maen nhw'n gwerthfawrogi cymorth yn y cnaud i ddatblygu sgiliau digidol, er y gall darpariaeth ffurfiol fod yn anghyson. Cyfeiriodd grwpiau oedran gweithio at fwch yn y cymorth digidol ffurfiol, sy'n mynd yn groes i'r rhagdybiaeth eu bod yn caffael neu'n cynnal sgiliau digidol mewn ffordd 'naturiol'.

5.2 Aelwydydd â phlant

Mae presenoldeb plant ar yr aelwyd yn arwain at wahaniaethau ac ychwanegiadau at gynnwys craidd y MDLS. Mae'r rhain yn adlewyrchu rhai o anghenion digidol penodol plant, cyfrifoldebau oedolion fel rhieni, a mwy o ofynion digidol sy'n deillio o'r ffaith fod mwy o bobl yn byw ar yr aelwyd.

Yn y cyswllt hwn, mae'r pwyslais ar a) cefnogi addysg a dysgu plant, b) bywyd teuluol ac adloniant, c) cynhwysiant cymdeithasol a sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn bywyd ar-lein gyda'u ffrindiau, a d) diogelwch digidol a rheoli peryglon a niwed ar-lein.

- **Ffôn clyfar a data:** Mae angen ffôn clyfar ar blant pan fyddant yn dechrau mynd allan yn annibynnol, er enghraifft, i'r ysgol. I ddechrau, mae angen ffôn clyfar arnynt ar gyfer diogelwch ac er mwyn cyfathrebu â'u rhieni, ond mae'n datblygu i fod yn ddull pwysig o ryngweithio cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc, gyda gofynion data yn cynyddu wrth i'r defnydd newid.
- **Dyfais sgrin fawr:** Mae digon o ddyfeisiau â sgrin fawr wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau nad oes rhaid i blant oedran ysgol ddibynnu ar ffôn symudol i wneud eu gwaith cartref.
- **Cysylltedd y cartref:** Mae band eang, yn hytrach na chysylltiad data diderfyn, yn debygol o fod yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion rhynggrwyd aelwydydd â phlant. Y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol y bydd mwy o bobl eisiau mynd ar-lein ar yr un pryd ar aelwydydd fel hyn, o bosibl ar gyfer gweithgareddau sy'n defnyddio llawer o led band, gan gynnwys ffrydio cynnwys digidol a chwarae gemau ar-lein.
- **Teledu:** Mae set deledu, ynghyd â chynnwys teledu ychwanegol a thrwydded deledu, yn rhan bwysig o ddewisiadau gwyllo teuluol, adloniant, a threulio amser gyda'i gilydd.
- **Mynediad at gemau ar-lein:** Mae gemau wedi'u cynnwys yn y MDLS ar gyfer aelwydydd â phlant saith oed a hŷn yn unig, gan fod yr agwedd hon yn ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol plant a'r angen iddynt gysylltu â'u ffrindiau.
- **Gwybodaeth a sgiliau gweithredol:** Yn ogystal â'r rhai sydd eu hangen ar oedolion yn gyffredinol, mae angen i rieni wybod sut i weithredu rheolaethau rhieni a rhannu lleoliad dyfeisiau, os ydynt yn dewis eu defnyddio. Mae angen i bob oedolyn ymhob math o aelwyd yn yr astudiaeth hon allu defnyddio apiau a rhaglenni; mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn ymwneud â rhianta yn benodol, megis ar gyfer ymgysylltu â'r ysgol. Yn yr un modd, mae angen i blant gael mynediad at apiau a rhaglenni sy'n ymwneud â'u haddysg, megis ar gyfer cyflwyno ymarferion ysgol a gwaith cartref.
- **Gwybodaeth a sgiliau beirniadol:** Mae rhieni yn ystyried nid yn unig statws eu diogelwch digidol eu hunain, ond statws eu plant hefyd. Gall rhieni deimlo eu bod wedi'u llethu gan newid digidol wrth oruchwylio defnydd digidol eu plant ac wrth helpu i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i blant fod yn ymwybodol o beryglon ar-lein, gwerthuso'r hyn maen nhw'n ei weld a'i rannu ar-lein, a sut maen nhw'n rhyngweithio â'r cyfryngau cymdeithasol.
- **Datblygu sgiliau digidol yn ystod plentyndod:** Wrth weithio tuag at ddefnydd digidol annibynnol, mae angen i blant ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau digidol gyda mwy o ymgysylltiad ar-lein. Mae angen sgiliau gweithredol a beirniadol manylach ar gyfer pedwar cam defnydd digidol: 1) defnyddio dyfeisiau am y tro cyntaf, 2) chwarae gemau a rhyngweithio ar-lein, 3) cael y ffôn symudol cyntaf, a 4) defnyddio'r ffôn yn amlach.

5.3 Amrywiadau rhwng aelwydydd sengl ac aelwydydd pâr

Bu'r grwpiau yn trafod anghenion gwahanol aelwydydd sengl ac aelwydydd pâr.

- **Rhannu dyfais sgrin fawr:** Er mwyn diwallu anghenion sylfaenol, roedd grwpiau yn teimlo bod modd disgwyl yn rhesymol i barau sy'n oedolion rannu dyfais sgrin fawr, gan ragdybio bod ganddynt eu ffôn clyfar eu hunain. Ar rai aelwydydd, gwelwyd yn y trafodaethau fod un partner o bosibl yn defnyddio gliniadur yn amlach na'r partner arall, a oedd efallai â llai o ddiddordeb neu fynediad.
- **Gwyllo cymdeithasol a chwmni:** Cyfeiriodd y grwpiau oedran pensiwn at yr agwedd gymdeithasol ar wyllo'r teledu ar gyfer parau, yn ogystal â'i botensial i ddarparu ymgysylltiad a 'chwmni' i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain.
- **Gwybodaeth a sgiliau:** Er bod parau yn gallu bod yn ffynhonnell gymorth bwysig i'w gilydd, roedd grwpiau yn teimlo ei bod yn bwysig i unigolion ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau eu hunain - yn enwedig ar gyfer diogelwch digidol, a bod angen gallu 'amddiffyn eich hun' yn y fan a'r lle rhag peryglon ar-lein. Roedd grwpiau oedran pensiwn yn ymwybodol o'r

ffaith y gallai dibynnu ar un person greu problemau i'r person arall os/pan fyddai angen i'r person dan sylw ymdopi ar ei ben ei hun.

5.4 Beth sydd wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf?

Mae ailystyried anghenion aelwydydd â phlant yn cadarnhau pwysigrwydd a pherthnasedd cynnwys craidd y MDLS a oedd yn rhan o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2022. Ceir ychydig o addasiadau i'r oedran neu'r camau pan fydd plant yn berchen ar bethau neu'n cael mynediad atynt. Mae'r oedran ar gyfer chwarae gemau ar-lein wedi'i nodi'n fwy clir, gan newid o 'oedran cynradd' i saith oed a hŷn, tra bod mynediad at ffôn bellach yn gysylltiedig â'r angen amdano (pan fydd plentyn yn teithio ac yn cymdeithasu'n annibynnol) yn hytrach nag oedran neu flwyddyn ysgol. Mae hyn yn berthnasol hefyd i ddatblygiad sgiliau plant, sydd bellach yn gysylltiedig â'r math o ymgysylltiad digidol – y math o ddyfeisiau y byddai plentyn yn eu defnyddio ac i ba ddiben – a'r sgiliau sydd eu hangen ar y plentyn yn ystod y cam hwn i wneud hynny yn hyderus ac yn ddiogel.

Mae swm y data symudol sydd wedi'i gynnwys yn y MDLS wedi cynyddu ar gyfer rhieni a phlant hŷn, o 5GB i hyd at 15GB y mis. Mae hyn yn adlewyrchu dibyniaeth gynyddol ar ffonau a mwy o ddefnydd ohonynt, ynghyd â defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol, lle mae'r gallu i wyllo neu rannu fideo gyda ffrindiau yn cael ei ystyried yn rhan bwysig o gynhwysiant. Hefyd, nododd y cyfranogwyr fod cost is data dros y blynnyddoedd diwethaf wedi dylanwadu ar agweddau unigolion tuag at ddefnyddio data. Roedd hyn yn berthnasol i bob math o aelwyd, yn enwedig rhieni a grwpiau oedran gweithio a fu'n trafod y defnydd o ddarparwyr data ar-lein newydd, rhatach sydd ond yn darparu data ar-lein.

Yn olaf, mae deallusrwydd artiffisial a chodau QR yn ddau faes datblygiad digidol a nodwyd gan fathau amrywiol o aelwydydd yng ngwaith ymchwil presennol y MDLS ond na chawsant eu crybwyll gan gyfranogwyr yn astudiaeth gychwynnol 2022. Er bod codau QR yn cael eu hystyried yn wreiddiol fel rhywbeth newydd y byddai angen addasu iddo, roedd y cynnydd ym maes deallusrwydd artiffisial wedi creu mwy o bryder. Amlygwyd hyn gan y farn gymysg ar y mater a'r lefelau gwahanol o ddealltwriaeth ymhlith cyfranogwyr. Roedd deallusrwydd artiffisial yn enghraifft o'r angen i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a hyder newydd er mwyn deall yr holl newid, naill ai fel offeryn neu fel ffactor sy'n gofyn am werthusiad pellach o gywirdeb gwybodaeth a delweddu.

5.5 Ardaloedd gwledig

Mae cynnwys craidd y MDLS yn cynnwys yr hyn sydd ei angen ar aelwydydd i sicrhau cynhwysiant digidol, ac mae'r anghenion hyn yn berthnasol mewn ardaloedd gwledig hefyd – ar gyfer dyfeisiau perthnasol, cysylltiad dibynadwy a gwydn, ac amrywiaeth o sgiliau gweithredol a beirniadol. Nodwyd ambell bwynt a allai gynnwys ystyriaethau ychwanegol, megis: pellteroedd teithio hirach neu ddiffyg Wi-Fi cyhoeddus yn effeithio ar anghenion data symudol; mwy o bwyslais ar wasanaeth tanysgrifio teledu os yw'n anoddach cael mynediad at adloniant ar lefel personol; a bod yn fwy ymwybodol o rannu gwybodaeth personol ar-lein lle y gallai fod yn hawdd adnabod rhywun mewn cymuned fechan. Fodd bynnag, roedd yna un pwynt gwahaniaethol allweddol a nodwyd ym mhob un o'r grwpiau gwledig, sef yr her ychwanegol sy'n wynebu pobl mewn ardaloedd gwledig i ddiwallu eu hanghenion digidol – yn enwedig yn sgil darpariaeth band eang a symudol wael. Mae gan hyn oblygiadau amrywiol:

- Mae cysylltiad rhyngrwyd annibynadwy ac araf yn effeithio ar allu aelwydydd i gwblhau'r gweithgareddau ar-lein sydd eu hangen arnynt, sy'n gallu effeithio ar gyfranogiad, cynhwysiant a chyfleoedd, er enghraifft, y gallu i ffrydio neu chwarae gemau ar-lein neu weithio gartref.
- Gall diffyg band eang digonol gynyddu'r angen am ddata symudol ychwanegol yn y cartref yn hytrach na Wi-Fi. Ar y llaw arall, mae signal symudol gwael neu ddiffyg signal o gwbl yn golygu bod band eang dibynadwy hyd yn oed yn fwy allweddol, gan ei fod yn hanfodol ar gyfer galwadau Wi-Fi os nad yw'r unigolion yn gallu cael mynediad at signal symudol.
- Gall dewis cyfyngedig o ddarparwyr arwain at aelwydydd yn talu mwy am eu cysylltiad oherwydd nad oes modd iddynt 'siopa' am fargen well.
- Mae atebion amgen i wella ansawdd y rhyngrwyd cartref, megis pecynnau drutach, estynwyr i wella cyflymder Wi-Fi yn y cartref, neu ddefnyddio cysylltiad lloeren fel dewis amgen, hefyd yn arwain at gostau ychwanegol. Mae angen datblygu gwybodaeth am atebion posibl eraill ar gyfer yr opsiynau hyn.

6 Casgliad

Mae safon ofynnol ar gyfer bywyd digidol yn cynnwys mynediad at y rhyngwrdd, offer digonol, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl. Mae'n golygu gallu cyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus.

Trwy wneud gwaith ymchwil gydag aelodau'r cyhoedd sy'n byw ar wahanol fathau o aelwydydd, rydym wedi llunio un diffiniad o'r MDLS a chynnwys ar gyfer ystod eang o fathau o aelwydydd. Mae hyn yn cynnwys rhai anghenion ychwanegol am 'nwyddau a gwasanaethau digidol' ar gyfer mathau penodol o aelwydydd (megis dyfeisiau ychwanegol a gwylio cynnwys ar gyfer aelwydydd â phlant, a set law llinell dir, a nodwyd gan grwpiau oedran pensiwn). Cytunodd grwpiau'r MDLS fod angen cyfuniad o sgiliau gweithredol a beirniadol ar bob aelwyd, er bod rhai sgiliau yn bwysicach ar gyfer aelwydydd penodol (megis rheolaethau rhieni ar aelwydydd â phlant, a'r gallu i addasu maint y ffont a sicrhau lleoliadau hygyrch ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn). Er bod consensws cyffredinol ynghylch anghenion digidol aelwydydd, gall gallu aelwydydd i ddiwallu'r anghenion hyn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau ariannol, eu seilwaith, a'u mynediad at gymorth.

Mae'n bwysig ailadrodd nad y safon ofynnol yw cynnwys y MDLS (a amlinellir ym Mhennod 3) ar gyfer 'goroesi yn unig' yn ein cymdeithas ddigidol. Yr MDLS yw'r safon ofynnol sy'n angenrheidiol ym marn aelwydydd ar gyfer cymryd rhan mewn patrymau byw, arferion a gweithgareddau cyffredin ym mywyd digidol y DU. Hefyd, mae'r MDLS yn gweithredu fel man cychwyn sy'n amlinellu anghenion digidol aelwydydd, gan gydnabod y gall amgylchiadau a sefyllfaoedd amrywiol aelwydydd (megis anabledd) ddylanwadu ar eu hanghenion a'u gallu i ddiwallu anghenion digidol ac anghenion eraill.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn ar adeg pan fo'r DU yn newid o linellau ffôn analog 'copr' (Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog (PSTN)) i Rwydwaith Digidol Gwasanaethau Integredig (ISDN) 'band eang' digidol, sy'n newid sut y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Mae'r newid hwn yn creu dryswch a phryderon i rai cwsmeriaid (yn enwedig i grwpiau oedran pensiwn a grwpiau gwledig), ac adlewyrchir hyn yn ein canfyddiadau.

Hefyd, cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn ddwy flynedd ar ôl yr astudiaeth ddichonoldeb ar aelwydydd â phlant, a ragflaenodd ddatblygiad cyflym deallusrwydd artiffisial a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol. Roedd pob grŵp wedi cyfeirio at ddeallusrwydd artiffisial yn ystod y gwaith ymchwil hwn, er na ofynnwyd iddynt yn benodol am y pwnc. Roedd ymwybyddiaeth o ddefnyddio a chamddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn rhan o'r gefnlen wrth drafod sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r newidiadau parhaus hyn a'r newidiadau yn y dyfodol yn dangos y byddai'n ddefnyddiol diweddarau gwaith ymchwil y MDLS yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn adlewyrchu newidiadau technolegol sy'n effeithio ar fywydau a gwasanaethau bob dydd.

6.1 Defnyddio'r MDLS

Mae'r MDLS yn seiliedig ar fywydau pobl ac mae'n adlewyrchu normau cymdeithasol. Hefyd, mae'n galluogi llunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau, a chymdeithas sifil ehangach i ddeall a siarad am natur gyfannol cynhwysiant digidol, a sut y gall pawb gydweithio i sicrhau bod aelwydydd yn gallu 'cyfathrebu, cysylltu, ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus'.

Isod rydym yn cynnig awgrymiadau ar gyfer sut y gall rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Lywodraeth y DU, ddefnyddio diffiniad a fframwaith y MDLS i lywio camau gweithredu yn y dyfodol. Mae'r cyfnod presennol yn heriol iawn i filiynau o aelwydydd, yn ogystal ag i lywodraethau ar bob lefel, busnesau, y sector cyhoeddus, a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil y MDLS yn anfon neges gref iawn. Yng nghyd-destun presennol y DU, mae pob grŵp yn cytuno bod angen rhyw fath o ymgysylltu digidol i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan yn y byd o'u cwmpas 'waeth a ydych chi'n hoffi hynny ai peidio'. O dan drothwy'r MDLS, gall aelwydydd wynebu mwy o beryglon digidol a mwy o wahanol fathau o allgáu. Mae'r MDLS yn sylfaen ystyrlon ar gyfer nodi'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd i gael ymdeimlad o gynhwysiant digidol yn y gymdeithas ddigidol sydd ohoni. Law yn llaw â hyn, mae'n rhoi cyfleoedd i lywodraethau (canolog, datganoledig, rhanbarthol, lleol), diwydiant, y sector cyhoeddus a gwasanaethau masnachol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, a'r gymuned ymchwil helpu i gyflawni hyn, ynghyd ag aelwydydd.

6.1.1 Cyfleoedd i bob rhanddeiliad a sefydliad



- Gall rhanddeiliaid a sefydliadau ddefnyddio'r MDLS i gefnogi dulliau o weithio mewn partneriaeth ar sail cyd-ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar aelwydydd i gael ymdeimlad o gynhwysiant digidol.
- Gall rhanddeiliaid a sefydliadau ystyried pa aelwydydd sy'n defnyddio eu gwasanaethau neu sydd yn eu hardal sy'n methu â bodloni'r MDLS; effeithiau peidio â bodloni'r MDLS ar eu mynediad at wasanaethau a chyfleoedd ehangach; a'r hyn y gallant ei wneud i gynorthwyo aelwydydd i fodloni'r MDLS.

6.1.2 Cyfleoedd i Lywodraeth y DU

Mae *Digital Inclusion Action Plan: First Steps* yn cydnabod pwysigrwydd ymagwedd gyfannol at gynhwysiant digidol. Mae'r MDLS yn sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer llywio camau gweithredu yn y dyfodol a helpu i ddatblygu polisïau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cynhwysiant Digidol newydd a'r Pwyllgor Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol newydd.

- **Gall y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cynhwysiant Digidol** ystyried y goblygiadau i gymdeithas y DU os nad yw aelwydydd yn bodloni'r MDLS, a pha agweddau ar y MDLS y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am eu bodloni, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.
- **Gall y Pwyllgor Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol** ystyried defnyddio fframwaith y MDLS i sbarduno prosesau cydweithredu, ar sail yr hyn y mae'r cyhoedd yn cytuno sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gan aelwydydd ymdeimlad o gynhwysiant digidol yn y gymdeithas ddigidol sydd ohoni.
- **Mae angen i Lywodraeth y DU gydweithio ag Ofcom a'r diwydiant telathrebu** er mwyn darparu gwybodaeth a chymorth cyhoeddus gwell i aelwydydd ynglŷn â'r newid i PSTN, gan fynd i'r afael â dryswch a phryderon cwsmeriaid am ddefnyddioldeb ISDN/band eang o'i gymharu â gwasanaethau llinell dir.

Hefyd, gall y MDLS lywio camau gweithredu ym mhob un o'r pedwar maes ffocws sydd wedi'u blaenoriaethu yn nogfen Digital Inclusion Action Plan: First Steps Llywodraeth y DU.

- **'Creu cyfleoedd drwy sgiliau': Gall yr Adran Addysg** ddefnyddio'r MDLS i wneud y canlynol:
 - Llywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer ysgolion yn y dyfodol, gan sicrhau bod myfyrwyr yn meddu ar sgiliau digidol erbyn iddynt adael, a'u bod wedi'u paratoi i ymgysylltu ar-lein yn ddiogel ac yn hyderus.
 - Diweddarau'r fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol ar gyfer oedolion er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu safbwyntiau'r cyhoedd am yr hyn sydd ei angen ar gyfer ymdeimlad o gynhwysiant digidol.
 - Osgoi creu seilos llythrennedd (e.e. rhwng llythrennedd digidol, llythrennedd y cyfryngau, a llythrennedd deallusrwydd artifisial) a sefydlu fframwaith cyffredin ar draws adrannau a'r rheoleiddiwr.
- **'Mynd i'r afael â thlodi data a dyfeisiau':** Mae gwaith traws-lywodraethol yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â thlodi dyfeisiau, ond mae angen gwneud mwy i wella fforddiadwyedd cysylltedd data ar gyfer aelwydydd sydd ag incwm isel iawn. **Gall yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, ynghyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau,** ddefnyddio'r MDLS i wneud y canlynol:
 - Hysbysu a gwella rôl y llywodraeth wrth ddileu rhwystrau fforddiadwyedd i gysylltedd data ar aelwydydd sy'n byw mewn tldi, yn enwedig i deuluoedd sydd â phlant oedran ysgol. Dylai hyn ystyried data band eang a data symudol.
- **'Chwalu rhwystrau i wasanaethau digidol':** Derbyniwyd adroddiad MDLS 2024 gyda diddordeb gan arweinwyr ymchwil defnyddwyr ac arweinwyr cynllunio gwasanaethau. Mae 'Blueprint for Modern Digital Government' Llywodraeth y DU yn cefnogi'r achos dros alluogi aelwydydd i fodloni'r MDLS a thros gynllunio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein sy'n adlewyrchu'r MDLS. **Gall Gwasanaethau Digidol Llywodraeth y DU (DSIT), yr Adran Gwaith a Phensiynau, CThEF, y Swyddfa Gartref,** ac adrannau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar-lein i'r cyhoedd ddefnyddio'r MDLS i:
 - Hysbysu a llywio strategaethau'r llywodraeth ar gyfer ymchwil defnyddwyr a chynllunio gwasanaethau ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, gan roi pwyslais ar anghenion aelwydydd yn hytrach nag ar anghenion unigolion yn unig, ac ymgorffori dull gweithredu cyfannol.

- **'Meithrin hyder a chynorthwyo prosesau cyflenwi lleol':** Mae'r cynllun gweithredu yn



nodi bod angen cymorth cynhwysiant digidol lleol, wedi'i dargedu. Hefyd, mae'n nodi bwlch tystiolaeth sy'n gysylltiedig â hyder yn ogystal â dileu rhwystrau i hyder. Gall **Uned Cynhwysiant Digidol a Sgiliau'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg** ddefnyddio'r MDLS i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo dulliau cyfannol sy'n ystyried anghenion cartrefi, er enghraifft trwy'r Gronfa Arloesi Cynhwysiant Digidol a'i fframwaith gwerthuso.
- Hyrwyddo cyllid ar gyfer sefydliadau lleol y gellir ymddiried ynddynt, fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol, sy'n gallu darparu cymorth ar gyfer sgiliau digidol a hyder digidol.
- Cydweithio â darparwyr gwasanaethau ledled y DU - yn ogystal â gwledydd datganoledig a phartneriaid llywodraeth ranbarthol a lleol - er mwyn ariannu atgyfeiriadau effeithiol at gymorth lleol i ddatblygu hyder, sgiliau a gwybodaeth, ac i gael mynediad at gysylltedd fforddiadwy neu ddi-dâl.

6.1.3 Cyfleoedd i'r gwledydd datganoledig

Mae Llywodraeth Cymru, a nawr Llywodraeth yr Alban, wedi arwain y ffordd. Mae'r ddwy lywodraeth wedi ariannu gwaith ymchwil yn ymwneud â'r MDLS er mwyn deall ei pherthnasedd i gyd-destunau Cymru a'r Alban o safbwyntiau'r cyhoedd a rhanddeiliaid ym meysydd llywodraeth leol, cyrff y GIG, telathrebu, tai cymdeithasol, llyfrgelloedd, a'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol ehangach.

- **Mae Llywodraeth Cymru** wedi defnyddio gwaith ymchwil MDLS Cymru i lywio polisi cynhwysiant digidol, gan ddatblygu'r MDLS i Gymru yn unol ag argymhelliad Cyngrair Cynhwysiant Digidol Cymru. Mae nawr yn bwriadu ehangu cynlluniau peilot yn y sector tai cymdeithasol gan ddefnyddio'r MDLS i lunio ymyriadau.
 - Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i hyrwyddo'r defnydd o MDLS Cymru fel rhan o ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le y tu hwnt i'r sector tai cymdeithasol, trwy gronfa arfaethedig Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cymorth sy'n cael ei ddatblygu a'i ddarparu yn lleol.
- **Mae Llywodraeth yr Alban** wedi ariannu gwaith ymchwil MDLS yr Alban (a gwblhawyd yn ddiweddar).
 - Mae gan Lywodraeth yr Alban gyfle i ddefnyddio gwaith ymchwil MDLS yr Alban a chanfyddiadau arolwg 2024 y DU i godi ymwybyddiaeth o gysylltiadau â thlodi plant ac allgáu digidol. Gall hyrwyddo MDLS yr Alban fel sbardun ar gyfer cydweithredu trwy Gyngrair Cynhwysiant Digidol yr Alban.
- **Yng Ngogledd Iwerddon**, mae gwaith ymchwil y MDLS yn cyd-fynd ag ymwybyddiaeth a gweithgarwch cynyddol sy'n gysylltiedig â chynhwysiant digidol ar draws y sector gwirfoddol, llyfrgelloedd, busnesau, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, wedi'i sbarduno'n rhannol gan y broses o ehangu gwasanaethau cyhoeddus ar-lein.
 - Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyfle i fanteisio ar wybodaeth sy'n deillio o'r MDLS ar lefel ddatganoledig a lefel y DU er mwyn llywio strategaethau a chynlluniau.

6.1.4 Cyfleoedd ar gyfer y rheoleiddiwr a'r diwydiant telathrebu

Mae Ofcom yn gwneud gwaith allweddol yn monitro ac yn ymchwilio i fynediad at y rhyngwrwyd, gwasanaethau fforddiadwy, a diogelwch ar-lein, gan gynnwys llythrennedd yn y cyfryngau digidol. Mae Ofcom a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebu Ofcom wedi ymgysylltu â gwaith ymchwil y MDLS parthed aelwydydd â phlant.

- **Gall Ofcom, ynghyd â Phanel Defnyddwyr Cyfathrebu Ofcom**, ddefnyddio gwaith ymchwil y MDLS i lywio ei safbwynt ar union natur mynediad 'hanfodol', 'digonol', 'fforddiadwy', a 'hygyrch' at y rhyngwrwyd ar gyfer aelwydydd. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwella tariffau cymdeithasol a defnydd, yn ogystal â diweddarau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer Band Eang.
- **Gall Ofcom** ddefnyddio'r MDLS i lywio gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â diogelwch ar-lein a llythrennedd yn y cyfryngau digidol, gan gydweithio â gwledydd datganoledig, yr Adran Addysg, a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau i ddatblygu fframwaith cydlynol ar gyfer sgiliau digidol sy'n cynnwys llythrennedd yn y cyfryngau ac yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau'r cyhoedd.

6.1.5 Cyfleoedd ar gyfer llywodraeth ranbarthol a llywodraeth leol

Mae datganoli yn creu cyfleoedd newydd i wahanol fathau o awdurdodau strategol negodi adnoddau gan y llywodraeth ganolog er mwyn hyrwyddo blaenoriaethau ranbarthol. Mae rhai awdurdodau cyfun ac awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio'r MDLS yn eu mentrau. Er enghraifft, mae cynghorau yn Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl ac Awdurdod Cyfun Gogledd Ddwyrain Lloegr wedi defnyddio'r MDLS i lunio eu strategaethau ar gyfer cynhwysiant digidol.



Mae Bwrdeistref Camden yn Llundain wedi defnyddio'r MDLS i drawsnewid sut y mae'n cynorthwyo ei gweithlu i sicrhau cynhwysiant digidol.

- **Gall awdurdodau lleol a chyfun ddefnyddio'r MDLS i sbarduno ymgysylltiad â thimau polisi a chyflawni ar draws ac oddi mewn i gynghorau**, gan adlewyrchu'r ffaith fod cynhwysiant digidol yn bwnc sy'n rhychwantu cylchoedd gwaith polisi megis sgiliau a swyddi, trechu tlodi, lleihau anghydraddoldebau iechyd, a diwygio gwasanaethau cyngor.
- **Gall awdurdodau lleol a chyfun ddefnyddio'r MDLS i lywio'r defnydd lleol o gyllidebau datganoledig**, megis cronfeydd sgiliau oedolion, a chymorth argyfwng disgresiynol ar gyfer aelwydydd, mewn ffyrdd sy'n galluogi aelwydydd sydd o dan drothwy'r MDLS i feithrin sgiliau a chadw cysylltiad; ac i lunio arferion caffael a defnyddio cytundebau gwerth cymdeithasol i gynorthwyo cynhwysiant digidol.

6.1.6 Cyfleoedd ar gyfer darparwyr gwasanaethau (ar draws y sectorau)

Cyfeiriodd grwpiau'r MDLS at ystod eang o wasanaethau iechyd, ariannol, manwerthu, llywodraeth a gwasanaethau eraill sydd bellach yn cael eu darparu ar-lein. Bu'r grwpiau yn trafod colli gwasanaethau yn y cnawd, dilysiad dau ffactor, taliadau di-arian-parod, codau QR, ac ehangu'r defnydd o apiau. Bu rhai grwpiau yn trafod yr angen i gynorthwyo pobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein a sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch. Mae'r MDLS yn berthnasol iawn i ddarparwyr gwasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau statudol, cynghorau lleol, a sefydliadau'r sector gwirfoddol) sy'n cynorthwyo aelwydydd sy'n fwy tebygol o fod o dan drothwy'r MDLS.

- **Gall darparwyr gwasanaethau ym mhob sector**, yn enwedig banciau, darlledu, a darparwyr gwasanaethau statudol, ddefnyddio'r MDLS i werthuso a mynd i'r afael â'r peryglon sy'n wynebu cwsmeriaid ar aelwydydd sydd o dan drothwy'r MDLS. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r cysylltiad rhwng y peryglon hyn â dyletswyddau cydraddoldeb, tegwch a rhwymedigaethau defnyddwyr, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o wella cynllun a chymorth lleol ar gyfer defnyddio gwasanaethau.
- **Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau ym mhob sector** gydnabod cyfraniad rheolaidd teuluoedd, ffrindiau, ac eraill sy'n cynorthwyo pobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, ac ystyried sut i gael cydbwysedd rhwng cymorth ar gyfer defnydd dirprwyol â mesurau diogelu i atal camfanteisio. Gallai rhannu arferion da a dysgu ar draws sectorau gwasanaeth fod yn ddefnyddiol.

6.1.7 Cyfleoedd ar gyfer ymddiriedolaethau elusennol a chronfeydd lles

Mae'r Safon Isafswm Incwm yn cael ei ddefnyddio gan lawer o ymddiriedolaethau elusennol a chronfeydd lles i asesu anghenion aelwydydd a darparu cymorth i aelwydydd dan anfantais. Mae'r MDLS yn defnyddio methodoleg y Safon Isafswm Incwm. Er nad yw'r MDLS yn cael ei chostio, mae'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu'r 'nwyddau a'r gwasanaethau' sydd eu hangen ar aelwydydd o bosibl fel gofyniad sylfaenol ar gyfer cyfranogi'n ystyrlon mewn cymdeithas, yn ogystal ag anghenion sgiliau a hyder.

- **Gall ymddiriedolaethau elusennol a chronfeydd lles** ddefnyddio'r MDLS ochr yn ochr â'r Safon Isafswm Incwm er mwyn cwblhau asesiad mwy cyflawn o anghenion aelwydydd.

6.1.8 Cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chasglu data yn y dyfodol

Mae gwaith ymchwil arolwg y MDLS 2024 wedi sbarduno prosesau cydweithredu rhwng prif gynhyrchwyr setiau data ledled y DU ar gynhwysiant digidol. Erbyn hyn, mae'r fframwaith MDLS wedi'i ymestyn ar draws gwahanol fathau o aelwydydd, ac mae cyfle ar gael i gynnal arolwg newydd.

- **Mae gan y llywodraeth a chyllidwyr ymchwil annibynnol gyfle i gefnogi arolwg newydd ar garreg y drws ledled y DU er mwyn nodi cyfran yr aelwydydd sy'n bodloni'r MDLS**, yn ogystal â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn. Gallai hyn gynorthwyo gwaith i brofi a dilysu cwestiynau cynhwysiant digidol craidd i'w defnyddio mewn arolygon eraill a phrosesau eraill o gasglu data.

Mae'r MDLS yn cynnig cyfleoedd gweladwy ac amserol i lunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau. Mewn achosion lle nad oes gan aelwydydd yr adnoddau materol a diwylliannol i fodloni'r MDLS, ac mewn cyd-destun yn y DU lle mae llunwyr polisi a darparwyr yn ei gwneud hi'n ofynnol i bobl allu ymgysylltu ar-lein, rhaid i'r llywodraeth, rheoleiddwyr a darparwyr gymryd camau i sicrhau bod gan bob aelwyd *gyssylltiad rhyngrwyd hygyrch, offer digonol, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyfathrebu, cysylltu ac ymgysylltu â chyfleoedd yn ddiogel ac yn hyderus* mewn cymdeithas ddigidol.

7 Cyfeiriadau

Blackwell, C., D'Arcy, J., Harris, R., Hill, K., Polizzi, G. a Yates, S. (2025) *Towards a Scottish Minimum Digital Living Standard: Interim*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban. <https://www.gov.scot/publications/towards-scottish-minimum-digital-living-standard-interim-report/>

Blackwell, C., Davis, A., Hill, K., Padley, M. a Yates, S. (2023) *A UK Minimum Digital Living Standard for Households with Children*. Loughborough: Centre for Research in Social Policy

Citizens Advice (2025) Barriers to Access: Why water and broadband social tariffs aren't reaching struggling households. *Barriers to Access: Why water and broadband social tariffs aren't reaching struggling households - Citizens Advice*

D'Arcy, J., Polizzi, G., Harris, R., Barrera, P., Yates, S. a Yeoman, F. (2024) Exploring Challenges and Best Practice in Addressing Digital Inequalities: A UK Regional Case Study Approach.

Davis, A., Blackwell, C., Ellis, W., Padley, M., Stone, J. a Balchin, E. (2024) *A Minimum Income Standard for the United Kingdom in 2024*. York: Joseph Rowntree Foundation.

DSIT (2025) Digital Inclusion Action Plan: First Steps, CP 1267, Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg. <https://www.gov.uk/government/publications/digital-inclusion-action-plan-first-steps/digital-inclusion-action-plan-first-steps>

Digital Communities APPG (2025) Care to connect: Public Switched Telephone Network Migration https://digitalcommunities.inparliament.uk/files/digitalcommunities/2025-03/Digital%20Communities%20-%20PSTN%20Report%20-%20FINAL%20March_0.pdf

Hargittai, E. (2001). Second-level digital divide: Mapping differences in people's online skills. *arXiv, Cornell University*. <https://doi.org/10.48550/arXiv.cs/0109068>

Harris, R., Hill, K., Barrera, P., Yates, S. a Blackwell, C. (2023) *Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Helsper, E.J. (2012). A corresponding fields model for the links between social and digital exclusion. *Communication Theory*, 22(4), 403–426. <https://doi.org/10.1111/j.1468.2885.2012.01416.x>

Lloyds (2024) UK Consumer Digital Index 2024. <https://www.lloydsbank.com/consumer-digital-index.html>.

Polizzi, G., D'Arcy, J., Harris, R. a Yates, S. (2025). Digital inclusion landscape in the UK: An overview for the Welsh Government.

Van Deursen, A.J.A.M., Helsper, E.J., ac Eynon, R. (2014). *Measuring digital skills. From digital skills to tangible outcomes project report*. <https://www.lse.ac.uk/media-and-communications/assets/documents/research/projects/disto/Measuring-Digital-Skills.pdf>

Yates, S. a Carmi, E. (2022). Citizens' networks of digital and data literacy. In *The Palgrave handbook of media misinformation* (tt. 191-205). Cham: Springer International Publishing.

Yates, S. a Carmi, E. (2024). *Developing and Delivering Data Literacy*. Yn: Yates, S., Carmi, E. (goln.) *Digital Inclusion. Palgrave Studies in Digital Inequalities*. Palgrave Macmillan, Cham. https://doi.org/10.1007/978-3-031-28930-9_12

Yates, S. a Lockley, E. (2018) "Social media and social class", *American Behavioural Scientist*, Cyfrol 62, Rhifyn 9, tt.1291-1316 (ISSN: 0002-7642/1552-3381)

Yates, S. a Lockley, E. (2020) "Digital Engagement and Class: Economic, Social, and Cultural Capital in a Digital Age" yn Yates, S.J., Rice, R., (goln.), *The Oxford Handbook of Digital Technology and Society*, Oxford: Oxford University Press (ISBN: 9780190932596).

Yates, S., Kirby, J. a Lockley, E., (2015) "Digital media use: differences and inequalities in relation to class and age", *Sociological Research Online*, Cyfrol 20, Rhifyn 4, (ISSN: 1360-7804) (DOI: 10.5153/sro.3751) (<http://www.socresonline.org.uk/20/4/12.html>)

Yates, S., Carmi, E., Lockley, E., Pawluczuk, A., French, T. a Vincent, S. (2020) "Who are the limited users of digital systems and media? An examination of UK evidence". *First Monday*, Cyfrol 25, Rhif 7. (ISSN:1396-0466).

Yates, S., Carmi, E., Lockley, E., Wessels, B. a Pawluczuk, A., (2021). *Me and my Big Data: Understanding Citizens Data Literacies Research Report*.

Yates, S., Hill, K., Blackwell, C., Stone, E., Polizzi, G., Harris, R., D'Arcy, J., Davis, A., Padley, M., Roberts, D., Lovell, J. a Lainge, H. (2023) *Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol: Adroddiad Terfynol* Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/tuag-y-safon-ofynnol-ar-gyfer-bywyd-digidol-adroddiad-terfynol-crynodeb-html>

Yates, S., Hill, K., Blackwell, C., Davis, A., Padley, M., Stone, E., Polizzi, G., D'Arcy, J., Harris, R., Sheppard, P., Singleton, A., Ye, Z., Carmi, E. a Garikipati, S. (2024) *A Minimum Digital Living Standard for Households with Children: Overall Findings Report*. Liverpool: University of Liverpool.